



Rhif **7** Ionawr 2011 • ISSN 1741-4261

# Gwerddon

**CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG**

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams




Cyhoeddwyd gyda chymorth:



Rhif 7 Ionawr 2011 • ISSN 1741-4261

# Gwerddon



**CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG**

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

*Cyhoeddwyd gyda chymorth y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg*

# Bwrdd Golygyddol

---

Golygydd:	Yr Athro Ioan M. Williams
Cynorthwydd Golygyddol:	Dr Gethin Rhys
Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol:	Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd Aelodau'r Bwrdd Golygyddol: Dr John Davies, Prifysgol Abertawe Dr Noel Davies, Coleg Prifysgol y Drindod Dr Siwan Davies, Prifysgol Abertawe Dr Carwyn Jones, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd Dr Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Bangor Dr Delyth Morris, Prifysgol Bangor Dr Andrew Parry, Prifysgol Glyndŵr Dr Angharad Price, Prifysgol Bangor Dr Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth Dr Karen Stöber, Prifysgol Aberystwyth Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor Wyn Thomas, Prifysgol Bangor Yr Athro Colin Williams, Prifysgol Caerdydd Dr Daniel Williams, Prifysgol Abertawe

e-Gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we ddwywaith y flwyddyn. Arferir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisiau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: [www.gwerddon.org](http://www.gwerddon.org)

Cyllidir *Gwerddon* gan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio [gwybodaeth@gwerddon.org](mailto:gwybodaeth@gwerddon.org) neu drwy'r post: Gwerddon, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.

ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

[www.gwerddon.org](http://www.gwerddon.org)

# Cynnwys

---

Crynodebau	5
Summaries	7
Erthygl 1: Phylip Brake, "Amrywio ieithyddol ymhlith siaradwyr Cymraeg Treorci ar ddiwedd y saithdegau"	9
Erthygl 2: Dr Anwen Elias, "Pleidiau Cenedlaetholgar Lleiafrifol ac Ymaddasu i Ddatganoli: Astudiaeth Gymharol o Blaid Cymru a'r Bloque Nacionalista Galego"	45
Erthygl 3: Dr W. Gwyn Lewis, "Addysg Ddwylieithog yn yr unfed ganrif ar hugain: adolygu'r cyd-destun rhyngwladol"	66
Cyfranwyr	89

## Crynodebau

---

### **Phylip Brake, “Amrywio ieithyddol ymhlith siaradwyr Cymraeg Treorci ar ddiwedd y saithdegau”**

Mae'r papur hwn yn ceisio rhoi cyfrif am yr amrywio ieithyddol ymhlith siaradwyr Cymraeg ardal Treorci yng nghwm Rhondda Fawr ar ddiwedd yr 1970au. Gwneir hyn drwy ddefnyddio ac addasu dulliau sosioieithyddol a ddatblygwyd gan arloeswyr yn y maes, yn enwedig William Labov. Dechreuir drwy roi disgrifiad ffonolegol clasurol o Gymraeg y siaradwyr brodorol a recordiwyd. Ond wedyn eir ymlaen i archwilio'r berthynas rhwng yr amrywio 'rhydd' a nodwyd yn iaith y siaradwyr, a hyn drwy gysyniad y newidyn ieithyddol a'r rhwydwaith cymdeithasol. Ceir dadansoddiad manwl o'r data – yn feintiol ac yn ansoddol – sy'n ychwanegu at ein gwybodaeth o dafodieithoedd y Gymraeg, ynghyd â'n helpu i ddeall sut y mae ffactorau cymdeithasol yn dylanwadu ar ddewis iaith siaradwyr unigol.

### **Dr Anwen Elias, “Pleidiau Cenedlaetholgar Lleiafrifol ac Ymaddasu i Ddatganoli: Astudiaeth Gymharol o Blaid Cymru a'r Bloque Nacionalista Galego”**

Mewn nifer o fannau, mae datganoli wedi creu cyfleoedd newydd i bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol sicrhau lefelau newydd o gefnogaeth etholiadol, tra bod nifer hefyd wedi'u sefydlu eu hunain fel pleidiau llywodraethol. Fodd bynnag, ychydig iawn o sylw ysgolheigaidd sydd wedi ei roi i'r modd y bydd pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol yn ymaddasu i fod yn actorion canolog ar y lefel ranbarthol. Cyflwyno'r erthygl hon ddwy astudiaeth achos – Plaid Cymru a'r Bloque Nacionalista Galego yng Ngalisia – er mwyn astudio sut y bu iddynt ymaddasu i ennill cynrychiolaeth, perthnasedd, a statws plaid llywodraethol ar y lefel ranbarthol. Dadleuir fod profiadau'r pleidiau hyn ymhell o fod yn unigryw. Yn hytrach, maent yn adlewyrchu'r sialensau a wynebwr gan unrhyw blaid wrth iddi ddatblygu o fod yn blaid protest, i fod yn blaid mewn grym.

### **Dr W. Gwyn Lewis, “Addysg Ddwyeithog yn yr unfed ganrif ar hugain: adolygu'r cyd-destun rhyngwladol”**

Wrth gyhoeddi ei *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* yn Ebrill 2010, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru bod y system addysg Gymraeg wedi chwarae rôl arweiniol ym maes addysg ddwyieithog ledled Ewrop a'r byd yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf. Wrth i'r gyfundrefn ddatblygu yn sgîl y cynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n dymuno addysg ddwyieithog yng Nghymru, pwysleisir ei bod yn hanfodol i ni gadw golwg ar y patrymau a'r modelau sydd ar gael mewn cymunedau dwyieithog eraill sy'n llwyddo

i integreiddio dwyieithrwydd neu amlieithrwydd yn eu darpariaeth er mwyn i ni ddeall eu perthnasedd i'n sefyllfa benodol ni yng Nghymru. Mae'r erthygl hon yn bwrw golwg dros y datblygiadau diweddaraf ym maes addysg ddwyieithog ar y llwyfan rhyngwladol gan ystyried beth yw'r prif negeseuon sy'n eu hamlygu eu hunain wrth i addysg o'r fath barhau i ddatblygu i ateb anghenion disgyblion mewn cymunedau dwyieithog ac amlieithog ledled y byd yn yr unfed ganrif ar hugain.

## Summaries

---

### **Phylip Brake, “Linguistic variation amongst Welsh speakers in Treorchy at the end of the seventies”**

This paper attempts to account for the linguistic variation amongst the Welsh speakers of the Treorci area of the Rhondda Fawr valley at the end of the 1970s. This is done by using and adapting sociolinguistic techniques developed by pioneers in the field, in particular William Labov. The paper begins with a classical phonological description of the Welsh used by the native speakers recorded. It then goes on to explore the relationship between the ‘free’ variation recorded in informants’ speech, through the concept of the linguistic variable and the social network. A detailed analysis of the data is given – both quantitative and qualitative – which adds to our knowledge of Welsh dialects, and also helps us to understand how social factors influence the choice of language by individual speakers.

### **Dr Anwen Elias, “Minority Nationalist Parties and their Adaption to Devolution: A Comparative Study of Plaid Cymru and the Bloque Nacionalista Galego”**

In many places, devolution has created new regional arenas within which minority nationalist parties have been highly successful in mobilising support for their national projects. However, scholars have paid scant attention to how minority nationalist parties have adapted as they have become major players in regional politics. This article examines such processes of adaptation in the cases of two minority nationalist parties: Plaid Cymru in Wales and the Bloque Nacionalista Galego in Galicia. It is argued that the experiences of these parties in adapting to passing the thresholds of representation, relevance and government in their respective regions are far from unique. Rather, they reflect the challenges that any political party faces when it makes the transition from protest to power.

### **Dr W. Gwyn Lewis, “Bilingual education in the twenty-first century: a review of the international context”**

With the publication of its *Welsh-medium Education Strategy* in April 2010, the Welsh Assembly Government recognised the leading role of Welsh-medium education in the field of bilingual education throughout Europe and the world during the last fifty years. As the system further develops with increasing numbers of pupils choosing bilingual education in Wales, it is emphasised that it is important to be aware of the patterns and models available in other bilingual communities that successfully integrate bilingualism

or multilingualism into their provision so that we can understand their relevance to our particular situation in Wales. This article gives an overview of the most recent developments in bilingual education in an international context and considers the important issues that emerge as this type of education continues to develop to cater for the needs of pupils in bilingual and multilingual communities throughout the world in the twenty-first century.



**Phylip Brake**

**Amrywio ieithyddol  
ymhlith siaradwyr  
Cymraeg Treorci ar  
ddiwedd y saithdegau**

---

Rhif **7** Ionawr 2011 • ISSN 1741-4261

**Gwerddon**

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

# Amrywio ieithyddol ymhlith siaradwyr Cymraeg Treorci ar ddiwedd y saithdegau

Phylip Brake

## 1 Cefndir

Cafodd y gwaith gwreiddiol ei wneud yn y saithdegau fel rhan o astudiaeth draddodiadol o siaradwyr Cymraeg hen Fwrdeistref y Rhondda. Aethpwyd o bentref i bentref yn siarad â, ac yn recordio, siaradwyr Cymraeg a gydymffurfiai fwy neu lai â'r diffiniad traddodiadol o N.O.R.M (Non-mobile Old Rural Men) (Chambers a Trudgill 1980). Sylweddolwyd yn fuan, fodd bynnag, fod yna gryn dipyn o amrywiaeth ymhlith y siaradwyr hyn, ac na wnâi disgrifiad clasurol o'u hiaith y tro. Gan hynny, penderfynwyd canolbwyntio ar iaith siaradwyr Cymraeg un pentref yn unig, a cheisio rhoi cyfrif am yr amrywio ieithyddol ymhlith siaradwyr y Gymraeg yno. Dyma'r tro cyntaf i'r gwaith hwn gael ei gyhoeddi.

## 2 Cefndir Sosio-economaidd a Diwylliannol yr Astudiaeth

### 2.1 Y Cefndir Sosio-economaidd

Saif Treorci ar lan afon Rhondda Fawr yng nghanol mynydd-dir Morgannwg Ganol, ac fel y rhan fwyaf o bentrefi'r ardal, fe'i sefydlwyd i ecsbloetio'r adnoddau cyfoethog o lo sy'n gorwedd mewn haenau dan wyneb y ddaear yno. Ond, yn wahanol i ardaloedd megis Merthyr Tudful ac Aberdâr, arhosodd rhan uchaf Cwm Rhondda Fawr yn wledig hyd yn gymharol ddiweddar; ni suddwyd Pwll Tyle-coch (y pwll cyntaf i gael ei suddo yn yr ardal) tan 1855. Cyn hynny, ychydig o bobl a drigai yn yr ardal; dim ond 542 o bobl a gyfrifwyd yn y ddau gwm Rhondda yn 1801. Gellir canfod tri dosbarth sosio-economaidd ymhlith y gymdeithas wledig frodorol hon, (Lewis, 1960):

- I. Deiliaid ffermydd mawr oedd yn eiddo i feistri tir absennol fel yr Ardalydd Bute o Gastell Caerdydd a Crawshay Bailey o Nant-y-glo; roedd un teulu o'r enw Edwards, er enghraifft, yn ffermio 607 o erwau yn Nhŷ-newydd a 1,496 o erwau yn Ystradffernol.
- II. Deiliaid ffermydd bychain a oedd, yn aml iawn, yn dlawd iawn; gellir cynnwys crefftwyd megis seiri a gofaint yn y dosbarth hwn yn ogystal.
- III. Llafurwyr, gweision fferm, prentisiaid a bugeiliaid.

System o ffermio cymysg a arferai amaethwyr Blaenau Morgannwg. Enillai ffermwr unigol ei fywoliaeth drwy fagu da a defaid gan gynhyrchu ar yr un pryd ddigon o gnydau iddo'i hunan a'i deulu.


Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd galw mawr am ddefaid a da o Gymru yn Lloegr. Cynhelid ffeiriau yng Nghastell-nedd, Merthyr Tudful, Llantrisant, Ynys-y-bŵl a Llandaf. Ond ychydig o ffermwyr a yrrai eu stoc eu hunain i'r ffeiriau hyn.

Yn hytrach, câi'r gorchwyl hwn ei wneud gan borthmyn, a yrrai stoc nifer o ffermwyr i'r farchnad ar yr un pryd. Roedd y ffermwyr yn ymddiried yn llwyr yn y porthmon; dibynnai llwyddiant neu fethiant eu bywoliaeth fregus ar y pris a geid am eu stoc gan y porthmon. Gan hynny, roedd i'r porthmon safle arbennig iawn yn yr hen gymdeithas wledig gynt.

Fodd bynnag, dilynwyd suddo Pwll Tyle-coch gan gynnydd sylweddol yn nifer y glofeydd yn yr ardal (gw.Ffigwr 1). Gwelwyd cynnydd cyfatebol hefyd ym mhoblogaeth yr ardal. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd dwy haen gymdeithasol wedi eu hamlygu eu hunain ym mhoblogaeth cymoedd y Rhondda:

- I. Y boblogaeth frodorol amaethyddol yr oedd eu nifer yn lleihau.
- II. Mewnfudwyr o rannau eraill o Gymru, ac yn ddiweddarach o Loegr, a ddaethai i weithio yn y glofeydd, ac y cynyddai eu nifer yn feunyddiol.

Roedd hysbyswyr yr astudiaeth hon yn ymwybodol iawn o'r rhaniad cymdeithasol hwn. 'Gwŷr y Gloran' y gelwid y bobl a berthynai i Grŵp I uchod; yn ystod yr astudiaeth, ni chwrrddwyd â neb o Dreorci a honnai ei fod yn 'Gloran' ac, yn ddiddorol iawn, roedd nodweddion ieithyddol tafodiaith Treorci sy'n gysylltiedig yn draddodiadol â'r grŵp hwn dan lach y rhan fwyaf o'r hysbyswyr.



**Ffigwr 1:** Glofeydd Rhan Uchaf Cwm Rhondda Fawr yn 1910  
(o *The Rhondda Valleys* gan E. D. Lewis)

Gellir crynhoi'r cyfnod o fewnfudo i gymoedd afon Rhondda fel a ganlyn:

*1800–50*

Ysgafn. Ond yn y tridegau, daeth nifer o lafurwyr amaethyddol o Fro Morgannwg i weithio ym Mhwll Canol Dinas (ger y Porth).

*1851–70*

Cyflymu. Ond hyd yn oed nawr, dôi'r rhan fwyaf o'r mewnfudwyr o rannau eraill o Gymru, e.e. yn y chwedegau, daeth nifer fawr o bobl o ardal Llandinam, Caersŵs a Llanidloes i Dreorci, Tonpentre a Chwm-parc (gan ddilyn David Davies, Llandinam).

1871–80

Dyma'r cyfnod y dechreuodd y mewnlifiad o ddirif.

1881–90

Pobl yn dal i lifo i mewn. Ond, erbyn hyn, ddi nifer sylweddol o Loegr, yn enwedig o swydd Caerloyw, Gwladyrhaf, Dyfnaint, Cernyw a Dorset.

1901–11


Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd poblogaeth Bwrdeistref y Rhondda o 34.3 y cant o'i chymharu â chynnydd cyfartalog o 10.9 y cant ym mhoblogaeth Lloegr a Chymru yn ystod yr un cyfnod (Lewis, 1960).

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, bu galw mawr am lo stêm y Rhondda fel cynnud ar gyfer llongau rhyfel a masnach, ac wedyn, i ailgychwyn diwydiant. Ar ôl 1921, fodd bynnag, gwaethygu a wnaeth y sefyllfa economaidd yn gyffredinol. Yn 1929, roedd 39 o byllau yn cynhyrchu glo o fewn ffiniau Bwrdeistref y Rhondda; roedd y ffigwr hwnnw wedi gostwng i 12 erbyn 1958, a dau erbyn 1980.

Arweiniodd y dirwasgiad economaidd hwn at ddiweithdra ac allfudo ar raddfa fawr rhwng y ddau ryfel byd, a pharhau a wnaeth y duedd hon ar ôl yr Ail Ryfel Byd er gwaethaf ymdrechion gwahanol lywodraethau i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa drwy ad-drefnu'r diwydiant glo yn sgil ei wladoli; yn 1961, 100,369 oedd poblogaeth Bwrdeistref y Rhondda; erbyn 1971, roedd y ffigwr hwn wedi gostwng i 88,440 (lleihad o 11.6 y cant). O ganlyniad i'r allfudo a'r diboblogi, y grŵp oedran dros 60 oedd y garfan fwyaf niferus ym mhoblogaeth Treorci yn ôl amcangyfrifon rhyng-gyfrifiad 1976 (gw. Table 1 a Ffigwr 2). Er gwaethaf y sefyllfa economaidd ddirwasgedig roedd 89.3 y cant o'r holl anheddau yno'n perthyn i berchnogion preswyl, ac roedd o leiaf un car modur yn gysylltiedig â 35.9 y cant o'r anheddau hynny.

	Oedran	Canran o'r boblogaeth
<b>Plant dan oedran ysgol</b>	0-4	4
<b>Plant oedran ysgol</b>	5-16	15.2
	17-24	7.4
	25-44	18.6
	45-59/64	25
<b>Pobl wedi ymddeol</b>	+60/65	29.6

**Tabl 1:** Cyfluniad poblogaeth Treorci a Chwm-parc yn ôl oedran (ffynhonnell: rhyng-gyfrifiad 1976)




**Ffigur 2:** Cyfluniad poblogaeth Treorci a Chwm-parc yn ôl oedran (ffynhonnell: rhyng-gyfrifiad 1976)


## 2.2 Y Cefndir Diwylliannol

### 2.2.1 Ieithyddol

Bu dirywiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg uniaith a'r siaradwyr dwyieithog fel ei gilydd ym Mwrdeistref y Rhondda rhwng 1911 a 1971 (gw. Ffigur 3). Yn 1971, roedd 1,715 o bobl yn medru'r Gymraeg yn Nhreorci (20.3 y cant o'r holl boblogaeth). Mae hyn yn cyd-fynd â thynghed yr iaith mewn rhannau diwydiannol eraill o Gymru; yn 1801 amcangyfrifir fod 80 y cant o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg; erbyn 1901 roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 50 y cant. Y rheswm pennaf am hyn, mae'n debyg, oedd y mewnfudo i dde Cymru ddiwydiannol gan siaradwyr diGymraeg ar y fath raddfa fel na allai'r cymunedau Cymraeg eu hiaith eu cymathu. Ymhellach, digwyddai hyn mewn cyfnod y câi'r Saesneg ei sefydlu fel iaith addysg a llywodraeth leol drwy Gymru. Parhaodd y duedd drychinebus hon drwy'r ugeinfed ganrif; erbyn 1981 dim ond oddeutu 20 y cant o boblogaeth Cymru oedd yn gallu siarad yr iaith – y gwrthwyneb i'r sefyllfa honedig yn 1881 (Jones a Williams, 2010). Er hynny, o ran niferoedd a chanrannau siaradwyr yr iaith, Treorci oedd y gymuned Gymreiciaf yn y Fwrdeistref ar ddiwedd y saithdegau. Dengys ffigur 4 ddsraniad Cymry Cymraeg Treorci yn 1971.



**Ffigur 3:** Dirwiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mwrdeistref y Rhondda rhwng 1911 ac 1951 (o *The Rhondda Valleys* gan E. D. Lewis)



**Ffigur 4:** Dosraniad siaradwyr Cymraeg Treorci ym 1971

Dwyieithog oedd pob un o'r siaradwyr a recordiwyd; Saesneg oedd prif iaith y gymuned, a dyna'r iaith a glywid ar y stryd, yn y siopau ac yn y tafarnau, tra câi'r Gymraeg ei chyfyngu i'r capel a'r aelwyd yn unig bellach. O ganlyniad, roedd y nifer o gyd-destunau sefyllfaol y gellid defnyddio'r Gymraeg ynddynt yn llawer llai na'r rhai y gellid defnyddio'r Saesneg ynddynt. Amlinellir rhai o'r cyd-destunau hyn yn Ffigur 5.


## 2.2.2 Crefyddol

Bu'r capel yn bwysig iawn yn Nhreforci o safbwynt diwylliant. Ar wahân i'w swyddogaeth grefyddol amlwg, roedd y capel yn ganolfan i lawer o weithgareddau seciwlar fel eisteddfodau, cymdeithasau drama, corau meibion a chorau cymysg,

		Cymraeg		Saesneg	
		Ffurfiol	Anffurfiol	Ffurfiol	Anffurfiol
CAPEL	Cyfarfodydd y Sul	✓			
	Cwrdd Gweddï Undebol	✓			
	Cwrdd Cenhadol	✓			
	Cyfarfod y Chwiorydd	✓			
CARTREF	Aelwyd		✓		
	Cigydd		✓		
	Y Gymdeithas Gymraeg	✓			
	Neuadd y Pensiynwyr				
	Y Côr Meibion				✓
	Codi pensiwn				✓
	Siopa				✓
	Seddau ar ochr yr heol		✓		✓
	Y Côr Cymysg				✓

**Ffigwr 5:** Y defnydd o'r Gymraeg gan hysbyswyr Treorci

Erbyn diwedd y saithdegau fodd bynnag, nid oedd y capel mor bwysig ag y bu, ac er bod wyth capel yn dal ar agor yn 1981 (gw. Ffigwr 6), gostwng a wnaethai nifer yr aelodau yn ystod y blynyddoedd cyn hynny; roedd y mwyafrif llethol o gapelwyr Treorci yn oedranus heb fod yna gyflenwad o bobl ifainc i gymryd lle'r rhai a ymadawsai neu a fu farw.



**Ffigwr 6:** Eglwysi Anghydfurfiol Treorci

Er nad oedd capela'n bwysig o safbwynt y gymuned gyfan, roedd yn dal yn bwysig yn achos y Cymry Cymraeg gan ei fod yn clymu'r rhan fwyaf ohonynt wrth ei gilydd mewn clwstwr. Dengys Ffigwr 7 ymwneud y gwahanol siaradwyr â'i gilydd.

		GWRYWOD														
		GD	TJ	GB	MJ	DT	TJJ	ES	GH	CE	JP	WDS	WJS	CC	EMD	GJ
<b>CAPEL</b>	Cyfarfodydd y Sul	✓	✓	✓	✓	✓		✓		✓	✓				✓	✓
	Cwrdd Gweddi	✓	✓	✓	✓										✓	
	Cwrdd Cenhadol														✓	✓
	Cwrdd Gweddi Undebol		✓	✓	✓	✓				✓					✓	✓
<b>CARTREF</b>	Cigydd					✓										
	Bore Mawrth					✓										
	Bore Gwener					✓										
	Bore Sadwrn													✓		
	Prynu bwyd yn y 'Co-op'			✓												
	Codi pensiwn (bore Gwener)															
	Y Gymdeithas Gymraeg			✓												✓
	Neuadd y Pensiynwyr									✓						
	Côr Cymysg Treorci				✓					✓						
	Côr Meibion Treorci														✓	
	Llymeitian yn y nos							✓		✓		✓	✓			

**Ffigwr 7.1:** Ymwneud hysbyswyr Treorci â'i gilydd (Dynion)

		BENYWOD															
		EL	RL	NB	EE	BE	MT	DD	BW	MM	AJ	AD	ED	RE	CT	DR	
<b>CAPEL</b>	Cyfarfodydd y Sul	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
	Cwrdd Gweddi	✓	✓	✓		✓	✓		✓		✓		✓	✓	✓	✓	
	Cyfarfod y Chwilyrd							✓							✓	✓	
	Cwrdd Cenhadol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			✓		✓	✓			
	Cwrdd Gweddi Undebol	✓	✓	✓	✓			✓	✓	✓				✓			
	Merched y Wawr				✓	✓	✓	✓		✓							
<b>CARTREF</b>	Cigydd	✓	✓	✓			✓			✓		✓	✓				
	Bore Mawrth	✓	✓	✓			✓			✓		✓	✓				
	Bore Gwener	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓			✓		
	Bore Sadwrn											✓					
	Prynu bwyd yn y 'Co-op'			✓	✓	✓						✓	✓		✓		
	Codi pensiwn (bore Gwener)	✓	✓														
	Y Gymdeithas Gymraeg					✓											
	Neuadd y Pensiynwyr			✓											✓		
	Côr Cymysg Treorci					✓											
	Côr Meibion Treorci																

**Ffigwr. 7.2:** Ymwneud hysbyswyr Treorci â'i gilydd (Merched)



Cymharer y sefyllfa hon â'r hyn a ddywed Day a Fitton (1978):

... communal churches are part of a wider complex of relations of the kind that has come to be known as "traditional" ... that is points (not necessarily the only, or the most central ones) on which are anchored close-knit networks of people who know one another in many social contexts. While in some cases membership of a particular congregation may be the defining criterion for belonging to the network ... it is possible, we believe, for more than one congregation to be integrated in a system.

### 3 Ffonoleg Glasurol

Ar sail y data ieithyddol a gasglwyd o bob cwr o Fwrdeistref y Rhondda, sefydlwyd system ffonolegol iaith lafar yr hysbyswyr drwy ddefnyddio model ffonolegol a elwir yn Ffonoleg Glasurol (Sommerstein, 1977): os cyfnewidir un sain o fewn yr un cyd-destun ieithyddol am sain arall, a chael bod y cyfnewid hwnnw'n cynhyrchu dau air gwahanol, yna mae'r seiniau a gyfnewidir yn ffonemau (phonemes), e.e. dengys y pâr [tan:pan] fod cyfnewid [t] am [p] yn peri gwahaniaethu'r naill air oddi wrth y llall. Gelwir pâr o'r fath yn bâr lleiafaint (minimal pair). Dynodir ffonem, yn ôl y confensiwn arferol, gan symbol rhwng dwy linell ar oledd: /t/ a /p/.

Lle na cheir cyfnewid arwyddocaol, e.e. rhwng [t<sup>h</sup>] orfannol a [t<sup>h</sup>] ddeintiol yn y Gymraeg, ystyrir y seiniau hynny'n allffonau (allophones) o'r un ffonem. Mae allffonau, fel arfer, yn ganlyniad eu safle neu ynteu eu cyddestun seingol.

Lle ceir amrywio na ellir ei briodoli nac i gyd-destun nac i safle, fe'i gelwir yn amrywio rhydd (free variation). Ar sail prawf cyfnewid, sefydlwyd y system ffonolegol ganlynol ar gyfer siaradwyr Cymraeg y Rhondda:

#### 3.1.1 Y Llafariaid

Blaen (Front)
/i, ɪ, e, ε, a, ɑ, æ/

Ôl (Back)
/ɒ, o, u, ʊ/

Canol (Mid)
/ə/

#### 3.1.2 Y Deuseiniaid

/ai, ɔi, ɔi, əi/ei, ɪu, au, ou, əu/
-------------------------------------

#### 3.1.3 Y Cytseiniaid

Ffrwydrolion (Plosives)	
Di-lais	Lleisiol
/p, t, k/	/b, d, g/

Ffritholion (Fricatives)	
Di-lais	Lleisiol
/f, θ, s, tʃ, ʃ, χ, h/	/v, ð, z, dʒ/

Trwynolion (Nasals)
/m, n, ŋ/

Seiniau Tawdd (Liquids)	
Di-lais	Lleisiol
/t, r̥/	/l, r/

Llithriadau (Glides)
/j, w/

Cyfyd rhai problemau, fodd bynnag:

### 3.2.1 Problem y sain flaen hanner agored hir [ɑ:]

Yn y dafodiaith hon, defnyddir y sain flaen agored hir [ɑ:] a'r sain flaen hanner agored hir [æ:] blith draphlith gan y siaradwyr mewn geiriau megis [glɑ:n]; [glæ:n], [da:]; [dæ:], etc. Ond ni ellir:

- i. cael pâr lleiafaint rhwng [ɑ:] ac [æ:] i ddangos eu bod yn cynrychioli ffonemau gwahanol
- ii. dangos fod [ɑ:] ac [æ:] yn gynnyrch cyd-destun neu safle, h.y. ni ellir profi eu bod yn aelodau gwahanol o'r un ffonem.

Ateb Ffonoleg Glasurol fyddai nodi fod [ɑ:] ac [æ:] mewn amrywiad rhydd â'i gilydd. Ond, fel y gwelir yn y man, nid 'rhydd' yw'r amrywio hwn mewn gwirionedd.

### 3.2.2 Problem y sain lotal ddi-lais [h]

Nodwyd sawl enghraifft o'r sain ffrithiol lotal ddi-lais /h/ yn y dafodiaith hon:

#### Safle dechreuol:

/he:n/	'hen'
/harn/	'harn'
/he-laθ/	'helaeth'

#### Safle canol:

/gwa'ha-nol/	'gwahanol'
/kən'hadleð/	'cynhadledd'
/kən'ha-raχ/	'cynharach'

Gellir profi statws ffonem [h] drwy gyfnewid lleiafaint, ond amrywia'n helaeth o ran amllder ei digwyddiad o hysbysydd i hysbysydd; weithiau fe'i clywir, weithiau nis clywir, h.y. ceir sero [∅], e.e.

[he:n/e:n]; [hi:r/i:r]

### 3.2.3 Problem y sain grych flaen-orfannol ddi-lais [ɹ]

Mae'r problem hon yn debyg iawn i'r un flaenorol, ond fod amllder digwyddiad [ɹ] yn llawer llai na [h]; amrywia [ɹ] â [r], e.e.

[ɹai/rai]; [ɹdi/rɔi]

Yn ôl canllawiau model Ffonoleg Glasurol, ni ellir rhoi cyfrif am yr amrywio a geir yn achos [a:æ:], [h/∅] a [ɹ/r], dim ond datgan mai amrywio rhydd ydyw ym mhob achos. Ond ai amrywio rhydd penagored sydd yma mewn gwirionedd? Er mwyn ceisio cael hyd i'r ateb, penderfynwyd canolbwyntio ar dafodiaith un pentref yn unig, sef Treorci yn rhan uchaf Cwm Rhondda Fawr, i geisio esbonio'r amrywio rhydd yn y defnydd o'r tair nodwedd uchod a glywir yno.

Yn ogystal, craffwyd ar ddigwyddiad chwe nodwedd arall sy'n gysylltiedig â'r dafodiaith hon:

- a) canoli'r llafariad yng ngoben acennog geiriau lluosill megis *capel, mamau, diflannu*, etc.
- b) amrywio llafarog yn sillaf olaf ddiacen geiriau lluosill megis *diwedd, bore, llynedd*, etc.
- c) amrywio llafarog a deuseiniol yn sillaf olaf ddiacen geiriau lluosill megis *ceffylau, cyfraith, gwasanaeth*, etc.
- ch) caledu, sef yr amrywio ffonolegol rhwng ffrwydrolen leisiol a'r ffrwydrolen ddi-lais homorganig a geir ar ddiwedd y sillaf acennog mewn geiriau lluosill megis *ysgubor, gwragedd, wedyn*, etc.
- d) amrywio morffolegol yn nhrydydd pers. un. gorffennol y ferf reolaidd, sef yr amrywiad [-us/-oð], e.e. *halws/halodd, priodws/priododd*.
- dd) amrywio llafarog yn sillaf olaf ddiacen geiriau lluosill megis *cwympo, dangos, ysgol*, etc.

Yn yr astudiaeth hon, ceisiwyd darganfod y ffactorau hynny sy'n gyfrifol am yr amrywio a geir o siaradwr i siaradwr o fewn y gymuned iaith ac, i'r diben hwn, troir at fyd leithyddiaeth Gymdeithasegol neu Sosioieithyddiaeth. Cangen o leithyddiaeth yw Sosioieithyddiaeth sydd wedi datblygu'n ddirfawr er chwedegau'r ganrif hon, a'i nod yw rhoi cyfrif am yr amrywio iaith a geir o fewn cymuned iaith. Dywed Gumperz (1979):

... verbal interaction is a social process in which utterances are selected in accordance with socially recognised norms and expectations. It follows that linguistic phenomena are analyzable both within the context of language itself and within the broader context of social behaviour.

## 4 Sosioieithyddiaeth

### 4.1 Egwyddorion sylfaenol

Y dyn mwyaf blaenllaw ym myd ieithyddiaeth Gymdeithasegol yw William Labov. Seiliwyd ei ymchwil gynnar, i raddau helaeth, ar yr wybodaeth a gasglwyd ynghyd gan dafodieithegwyr traddodiadol. Yn ei astudiaethau enwog o iaith lafar ynys fechan 'Martha's Vineyard' (Labov, 1961) ac Efrog Newydd (Labov, 1966), defnyddiodd gasgliadau astudiaethau ieithyddol cynharach i'w alluogi i leoli ei sylwadau mewn amser real (neu hanesyddol), ac i'w helpu i ddarganfod cyfeiriad newidiadau ieithyddol. Ond, yn wahanol i waith y tafodieithegwyr a'i rhagflaenodd, sianelwyd gwaith Labov i sylwi'n uniongyrchol ar newid ieithyddol o fewn y gymuned dan sylw, i ddarganfod peirianwaith (cymdeithasol) y newid hwn, ac i ynysu'r grwpiau cymdeithasol hynny oedd yn gyfrifol am roi cychwyn ar, a lledaenu'r newid ieithyddol.

Mae yna ddwy ystyriaeth, sy'n hanfodol bwysig, yn deillio o waith Labov:

4.1.1: cysyniad y newidyn ieithyddol (linguistic variable).

4.1.2: y berthynas rhwng arddull lafar (speech style) a chyd-destun (context).

#### 4.1.1 Y newidyn ieithyddol

Cysyniad hanfodol a ddatblygwyd gan Labov ar gyfer dadansoddi a chymharu'r deunydd a gasglwyd yw'r newidyn ieithyddol: elfen haniaethol yw'r newidyn ieithyddol sy'n meddu ar wahanol amrywion ieithyddol (linguistic variants), a'r rheiny'n aml iawn dan reolaeth ffactorau cymdeithasol. Yn y termau hyn, mae /r/ a /ɹ/ yn iaith lafar Treorci yn amrywion un newidyn ieithyddol, a dilynir y confensiwn o nodi'r newidyn rhwng cromfachau: (ɹ).

Mae yna ddau fath o newidyn ieithyddol:

newidyn arwahanol (discrete variable).

newidyn di-dor (continuous variable).

#### Newidyn arwahanol

Yma ceir dewis o blith dau amrywyn (variant) yn unig, e.e. yng Nghymraeg Treorci ceir y newidyn (h) sy'n meddu ar ddau amrywyn, sef presenoldeb/absenoldeb [h] yn safle dechreuol a chanol geiriau megis 'haf', 'hala', 'anhawster', etc. Gellir pennu sgôr hysbysydd drwy archwilio'r recordiadau o'i lafar a rhifo pob enghraifft y digwydd [h] ynddi a phob enghraifft y gellir cael [h] ynddi, ac wedyn, rannu'r swm cyntaf â'r ail. Troir y canlyniad yn ganran drwy luosogi â 100, e.e.

$$\begin{aligned} \text{dangosynnau y digwydd [h] ynddynt} &= 4 \\ \text{dangosynnau y gellir [h] ynddynt} &= 10 \\ \text{Canran} &= \frac{4 \times 100}{10} = 40 \end{aligned}$$

## Newidyn di-dor

Nodweddir newidyn di-dor gan gontinwrm seinegol o ansoddau llafarog, ac mae'n anodd iawn rhannu'r continwrm hwn yn amrywion gwirioneddol ddidoleddig. Ystyrier y newidyn (a) yn Nhreforci. Mae'r newidyn hwn yn cynnwys y canoli a all ddigwydd i'r llafariad yng ngoben acennog geiriau lluosill megis *plannu*, *cariad*, *diflannu*, etc. Gall union ansawdd y llafariad orwedd ar unrhyw bwynt ar hyd y continwrm seinegol sy'n ymestyn o'r llafariad flaen agored /a/ i'r llafariad ganol /ə/, h.y. gellir rhannu'r continwrm rhwng y ddau begwn hyn yn nifer amhenodol o bwyntiau. Mewn sefyllfa o'r fath, trefnir pob ansawdd y gellir cysylltu ystyr gymdeithasol ag ef, ar raddfa seinegol, a rhoir gwerth rhifiadol i bob un o'r ansoddau hyn (Milroy, 1980). Yn achos y newidyn (a) yn Nhreforci, gellir ynysu pedwar ansawdd ar y dimensiwn seinegol blaen i ganol, a rhoir gwerth rhifiadol o 1–4 fel a ganlyn:

(a)-1 [a]

(a)-2 [ä]

(a)-3 [e]

(a)-4 [ə]

Mynegai y gelwir graddfa o'r fath, a gellir pennu sgôr mynegai unigolyn fel a ganlyn:

Bwrier fod sampl o lafar unigolyn yn cynnwys dwy enghraifft o (a)-1, pedair enghraifft o (a)-2, chwe enghraifft o (a)-3 ac wyth enghraifft o (a)-4, gellir cyfrif ei sgôr drwy luosi ac adio:

$$\begin{array}{rcl} 2 \times (a)-1 & = & 2 \\ 4 \times (a)-2 & = & 8 \\ 6 \times (a)-3 & = & 18 \\ 8 \times (a)-4 & = & \underline{32} \\ & & 60 \end{array}$$

Wedyn, rhennir swm sgoriau'r gwahanol ansoddau â swm y dangosynnau:

$$\begin{array}{rcl} \underline{60} & = & 3 \\ 20 & & \end{array}$$

3 felly yw sgôr mynegai'r hysbysydd. Ond rhaid cadw mewn cof mai sgôr gyfartalog yw hon, ac ni all, o'r herwydd, ddangos sut y mae'r gwahanol amrywion yn ymbatrymu.

### 4.1.2 Y berthynas rhwng arddull lafar a chyd-destun

Wrth astudio dosbarthiad cymdeithasol pum newidyn ieithyddol yn Efrog Newydd, darganfu Labov (1972) fod arddull lafar y siaradwyr yn amrywio yn ôl y cyd-destun

sefyllfaol y digwyddai ynddo. Disgrifiodd bum math o'r cyfryw gyd-destunau, ac fe'u trefnodd ar raddfa yn ôl ffurfioldeb y sefyllfa:

1. Cyd-destun A	Llafar Digymell	(Casual Speech)
2. Cyd-destun B	Arddull y Cyfweiliad	(Interview Style)
3. Cyd-destun C	Arddull Ddarllen	(Reading Style)
4. Cyd-destun Ch	Parau Lleiafaint	(Minimal Pairs)

Diffiniwyd llafar gofalus (careful speech) gan Labov (1972) fel:

... the type of speech that normally occurs when the subject is answering questions which are formally recognized as 'part of the interview'.

Egwyddor arall sy'n codi yn sgil gwaith cynnar Labov yw nad yw pob arddull lafar o'r un diddordeb i'r ymchwilydd. Canfyddir cyfluniad mwyaf cyson iaith siaradwr yn ei arddull fwyaf digymell, ei *vernacular* chwedl Labov. Y rheswm am hyn yw fod cywiro'n tueddu i fod yn afreolaidd ym mhob un o'r arddulliau eraill. Ond, er mai'r arddull hon yw prif ddiddordeb yr ymchwilydd, nid mater hawdd yw ceisio sicrhau corpws ohoni. Wrth geisio gwneud hyn, deuir wyneb yn wyneb â'r broblem a elwir gan Labov (1972) yn Baradocs y Sylwedydd (Observer's Paradox), h.y. ni ellir astudio iaith yn y gymuned ond drwy gasglu llawer iawn o ddeunydd llafar naturiol. Ond mae presenoldeb yr ymchwilydd yn dylanwadu'n drwm iawn ar natur yr iaith y mae am ei hastudio.

Problem arall yw ceisio sicrhau data cynrychioladol. Ceisiwyd goresgyn y broblem hon yn y gorffennol drwy fabwysiadu gwahanol ddulliau o samplu, yn enwedig hapsamplu. Ceir gwahanol fathau o hapsamplu, ond yr hyn sy'n gyffredin iddynt oll yw eu bod yn sicrhau fod gan bob aelod o'r boblogaeth y cymerir sampl ohoni yr un tebygolrwydd o gael ei ddewis. Gan hynny, ni ellir yn hawdd ddefnyddio hapsamplu yng nghydestrun iaith leiafrifol lle nad yw trwch y boblogaeth yn siarad yr iaith y ceisir ei hastudio. Yn Nhreorci, er enghraifft, dim ond un person mewn pump oedd yn medru'r Gymraeg yn 1971; golyga hyn dreulio cryn dipyn o amser yn y maes cyn dod o hyd i hapsampl. Oherwydd hyn, trowyd at gysyniad y rhwydwaith cymdeithasol fel fframwaith i'r astudiaeth hon.

## 4.2 Y rhwydwaith cymdeithasol

Dengys Boissevain a Mitchell (1973) bwysigrwydd rhwydweithiau cymdeithasol wrth astudio arddulliau iaith digymell. Yn ne Belfast, Gogledd Iwerddon, cymhwyswyd cysyniad y rhwydwaith cymdeithasol yn llwyddiannus gan Lesley Milroy, ac mae'r sylwadau canlynol yn deillio o Milroy 1980 (42–62).

Yn ôl cysyniad y rhwydwaith cymdeithasol, gellir ystyried unigolyn yn seren y mae pelydrau'n rheiddio ohoni. Mae'r pelydrau hyn yn cwrdd â phwyntiau, sef pobl eraill y mae'r unigolyn mewn cysylltiad uniongyrchol â hwy. Ffurfiar bobl hyn gylchfa gynradd rhwydwaith personol yr unigolyn, ac er bod cylchfa drydyddol, bedweryddol, etc. yn bosibl, ymddengys mai'r cylchfaoedd cynradd ac eilradd yw'r rhai pwysicaf.


Mae gan gysylltiadau'r gylchfa eilradd statws arbennig mewn cymunedau dosbarth gweithiol ledled y byd. Yn y gylchfa eilradd y ceir yr unigolyn hwnnw a adwaenir fel 'ffrind i ffrind' (Boissevain, 1974); ym Melffast, dangosodd Lesley Milroy mai rhai o swyddogaethau'r 'ffrind i ffrind' oedd cynorthwyo'r unigolyn i gael hyd i nwyddau fel coffi, peiriannau golchi, chwisgi, etc. Sicrhaodd Lesley Milroy ei bod hithau'n meddu ar statws 'ffrind i ffrind' i'w thynnu i mewn i rwydwaith personol siaradwyr y cymunedau yr oedd hi'n gweithio ynddynt.

Os yw'r bobl sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r unigolyn mewn cysylltiad â'i gilydd yn ogystal, dywedir fod y rwydwaith yn ddwys (gw. Ffigwr 8). Gellir cyfrif dwysedd rwydwaith drwy ddefnyddio fformwla sy'n rhoi cymhareb o'r holl gysylltiadau posibl i'r holl wir gysylltiadau:


$$D = \frac{100 N_a \%}{\frac{1}{2}N(N - 1)}$$

Ile y mae  $N_a$  yn cyfeirio at nifer yr holl wir gysylltiadau ac  $N$  at yr holl gysylltiadau posibl. Clystyrau y gelwir rhannau, neu segmentau, o rwydwaith y ceir dwysedd cymharol uchel ynddynt; mae'r cysylltiadau o fewn clwstwr yn ddwysach na'r rhai y tu allan iddo. Gellir yn ogystal synied am glwstwr fel cysylltiadau o'r un math.

Ffig. 1.1 Rhwydwaith o ddwysedd uchel: x yw canolbwynt y rwydwaith.



Ffig. 1.2 Rhwydwaith o ddwysedd isel: x yw canolbwynt y rwydwaith.



**Ffigwr 8:** Gwahanol fathau o rwydweithiau personol

Os yw ffrindiau, ceraint, cymdogion a chyd-grefyddwyr dyn yn bobl wahanol, dywedir mai amlbleth (multiplex) yw ei gysylltiadau â hwy. Gellir cyfrif sgôr amlblethdod unigolyn drwy ddefnyddio fformwla sy'n mynegi cymhareb o'r holl gysylltiadau posibl:

$$A = \frac{Na}{N} \times 100\%$$

Ile y mae Na yn cyfeirio at swm y cysylltiadau ambleth, ac N at yr holl gysylltiadau posib.

Gellir ystyried negeseuon sy'n teithio rhwng gwahanol aelodau'r rhwydwaith yn drosglwyddiadau wedi eu rheoli gan yr egwyddor fod yr hyn sy'n deillio o'r trosglwyddiad gyfwerth â neu'n fwy na'r gost. Gall y trosglwyddiadau hyn gynnwys nwyddau, gwasanaethau o amrywiol fathau megis cyfarchion, cellweiriau, gwybodaeth, cymorth, etc.

Mathau o gyfnewid yw'r rhan fwyaf o weithredoedd. Anghyffredin yw gweithred lafar y trosglwyddiadol lle y mae negeseuon yn teithio i un cyfeiriad yn unig; enghraifft o drosglwyddiad o'r fath fyddai pregeth.

Lle y bo rhwydwaith personol yn ambleth ac yn ddwys, ceir fod:

- i. nifer y cyfnewidiadau personol yn fwy; mae pobl yn debygol o ddefnyddio eu harddulliau llafar mwyaf cyfarwydd a digymell.
- ii. bod dwysedd uchel yn peri fod unrhywiaeth o normau a gwerthoedd.

Arwyddocâd rhwydwaith personol ambleth dwys o safbwynt astudiaeth sosioieithyddol felly yw ei fod yn hwyluso recordio llawer iawn o arddulliau llafar yn eu gwahanol gyd-destunau.

## 5 Methodoleg

Yn yr astudiaeth hon, mabwysiadwyd yn fras y dechneg ymdreiddio i rwydweithiau cymdeithasol a ddefnyddiwyd gan Lesley Milroy yn ei hastudiaeth o'r amrywio a geir o fewn iaith lafar y dosbarth gweithiol ym Melffast (Milroy, 1980). Roedd y dechneg hon yn ddefnyddiol iawn gan fod modd ei defnyddio i:

- (i) dod i adnabod grŵp o siaradwyr iaith leiafrifol, sef y Gymraeg, a gyfathrebai â'i gilydd drwy gyfrwng yr iaith honno.
- (ii) darganfod pwyntiau'r rhwydwaith lle y ceid cyfathrebu drwy gyfrwng yr iaith leiafrifol.

Bu'n rhaid addasu techneg Milroy ar gyfer yr astudiaeth hon gan fod yr amgylchiadau cymdeithasol a gafwyd yn Nhreorci yn dra gwahanol i'r rhai a gafwyd ym Melffast, a hynny oherwydd bod:

- (i) yr astudiaeth hon yn trafod siaradwyr iaith leiafrifol.
- (ii) y rhan fwyaf o'r hysbyswyr yn oedrannus a heb lawer o gysylltiad rhyngddynt ac aelodau eraill o'r gymuned.
- (iii) allfudo parhaus gan aelodau ifancach y gymuned wedi arwain at absenoldeb teuluoedd estynedig a hyd yn oed berthnasau agosaf mewn rhai achosion.



Daethpwyd i gysylltiad â'r hysbyswyr yn y lle cyntaf drwy ysgolhaig o Gymro Cymraeg oedd yn frodor o'r ardal ac, o dipyn i beth, daeth yr ymchwilydd yn 'ffrind i ffrind', ond ni chafwyd yr un math o fynediad rhydd a dirwysr ag a gafodd Milroy. Ni chafwyd data parthed yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg yn Nhreorci chwaith, gan mai i barth (*domain*) y cartref yn unig y ceisiwyd mynediad.

Gan mai Cymro Cymraeg oedd yr ymchwilydd, cafwyd croeso cynnes a chyfeillgar a derbyniad parod gan yr hysbyswyr. Er i hyn fod yn gymorth i liniaru ryw faint ar broblem Paradocs y Sylwedydd, ni fedrai ei datrys.

## 6 Y Newidiynnau Annibynnol

Astudiodd dosbarthiad y naw newidyn ieithyddol canlynol:

(a)(a)(h)(r)(e)(ai)(CM)(-us/-oð)(t)

(i) (a)


Mae'r newidyn hwn yn mesur yr amrywio llafarog a geir mewn geiriau unsill, ac yn sillaf olaf acennog geiriau lluosill, fel *tad*, *mab*, *canu*, *caniatâd*, *gwahân*, etc. Gall union ansawdd y llafariad orwedd ar unrhyw bwynt ar hyd y continwwm seinogol sy'n ymestyn o'r llafariad flaen agored hir [a:] hyd at y llafariad flaen hanner agored [æ:]. Gellir rhannu'r continwwm seinogol hwn yn bedwar amrywyn gan roi gwerth rhifiadol i bob un ohonynt fel a ganlyn:

(a)-1 ([a])

(a)-2 ([ɑ])

(a)-3 ([æ̞])

(a)-4 ([æ])




Codwyd set o 47 o eitemau sy'n cynnwys y newidyn hwn, a defnyddir mynegai i gyfrif sgoriau unigol.

Mae dau o amrywion y newidyn hwn, sef [æ̃] ac [æ] yn cynrychioli un o nodweddion arbennig tafodieithoedd dwyrain Morgannwg (Thomas, 1975-6) a rhai o dafodieithoedd y Canolbarth (Sommerfelt, 1925).

(ii) (a)

Mae'r newidyn (a) yn mesur y canoli a all ddiwydd i'r llafariad yng ngoben acennog geiriau lluosill fel *gwasgu*, *hanner*, *mamau*, etc. Gall union ansawdd y llafariad orwedd ar unrhyw bwynt ar hyd y continwwm seinogol sy'n ymestyn o'r llafariad flaen agored [a] hyd at y llafariad ganol [ə]. Gellir rhannu'r continwwm seinogol hwn yn bedwar amrywyn, gan roi gwerth rhifiadol i bob un ohonynt fel a ganlyn:

- (a)-1 ([a])
- (a)-2 ([ä])
- (a)-3 ([ɐ])
- (a)-4 ([ə])



Codwyd set o 204 o eitemau geiregol sy'n cynnwys y newidyn hwn, a defnyddir mynegai i gyfrif sgoriau unigol.

Mae'r canoli hwn yn un o nodweddion tafodieithoedd Morgannwg.

(iii) (h)

Mae'r newidyn hwn yn mesur presenoldeb neu absenoldeb [h] ar ddechrau, ac yng nghanol, geiriau fel *haf*, *heol*, *hedfan*, *hyrwyddo*, *gwahaniaeth*, etc. Codwyd set o 129 o eitemau sy'n cynnwys y newidyn hwn, ac fe'i nodweddir gan ddau amrywyn yn unig:

- (h)-1 ([h])
- (h)-2 ([∅])

Defnyddir canran seml i gyfrif sgoriau unigol.

Mae diffyg [h] yn un o nodweddion tafodieithoedd Morgannwg.

(iv) (r)

Mae'r newidyn (r) yn mesur yr amrywio [r̥/r] a geir ar ddechrau geiriau fel *rhan*, *rhaidd*, *rheol*, *rheswm*, etc. (ni rifir enghreifftiau o [r] a all ddigwydd o ganlyniad i dreigladd). Codwyd set o 49 o eitemau sy'n cynnwys y newidyn hwn, ac fe'i nodweddir gan ddau amrywyn yn unig:

(r)-1 ([r̥])

(r)-2 ([r])

Defnyddir canran seml i gyfrif sgoriau unigol.

Mae diffyg [r̥] yn cyd-fynd â diffyg [h], ac fe'i hystyrir yn nodwedd ar dafodieithoedd Morgannwg (Thomas, 1975–6).

(v) (e)

Mae'r newidyn hwn yn mesur yr amrywio llafarog a all ddigwydd yn sillaf olaf ddiacen geiriau lluosill fel *llynedd*, *diwedd*, *bore*, *ysgrifed*, etc. a gellir canfod y pedwar amrywyn canlynol:

[e] [ë] [a] [ə]

Ond ni ellir trefnu'r amrywion hyn yn ddestlus ar hyd graddfa seinogol seml.

Fodd bynnag, pan recordiwyd rhai hysbyswyr yn adrodd rhestr o eiriau oedd yn cynnwys y newidyn (e), h.y. eu rhoi mewn sefyllfa lle y gellir dadlau eu bod yn defnyddio arddull lafar ffurfiol iawn, darganfuwyd eu bod yn dewis yr amrywyn [e] bob tro.


Penderfynwyd, felly, drefnu'r amrywion ar hyd graddfa o ffurfioldeb, gan roi gwerth rhifiadol i bob un ohonynt fel a ganlyn:

(e)-1 ([e])

(e)-2 ([ë])

(e)-3 ([a])

(e)-4 ([ə])




Codwyd set o 166 o eiriau sy'n cynnwys y newidyn hwn, a defnyddir mynegai i gyfrif sgoriau unigol.

Mae'r amrywyn [a] yntau'n un o nodweddion arbennig tafodieithoedd Cymraeg dwyrain Morgannwg (Thomas, 1975-6).

(vi) **(ai)**

Mae'r newidyn (ai) yn mesur yr amrywio llafarog a deuseiniol a geir yn sillaf olaf ddiacen geiriau lluosill fel *cyfraith*, *ceffylau*, *gwasanaeth*, etc. Mae'r newidyn hwn yn debyg iawn i (ε), ond bod modd ymestyn y raddfa o ffurfioldeb i gynnwys amrywyn ychwanegol, sef [äi]: clywyd [äi] bob tro pan ofynnwyd i'r hysbyswyr adrodd y rhestr o eiriau. Gellir trefnu'r amrywion ar hyd graddfa o ffurfioldeb, gan roi gwerth rhifiadol i bob un ohonynt fel a ganlyn:

- (ai)-1 ([äi])
- (ai)-2 ([ε])
- (ai)-3 ([ë])
- (ai)-4 ([a])
- (ai)-5 ([ə])



Codwyd set o 208 o eitemau sy'n cynnwys y newidyn hwn, a defnyddir mynegai i gyfrif sgoriau unigol.

Fel yn achos (ε), mae'r amrywyn [a] yn un o nodweddion tafodieithoedd Cymraeg dwyrain Morgannwg (Thomas, 1975-6).

(vii) **(CM)**

Mae'r newidyn hwn yn mesur un o nodweddion amlycaf tafodiaith Morgannwg, sef Caledu (Thomas, 1975-6). Yn nhermau ffonolegol, yr hyn a fesurir yw'r amrywio a geir rhwng y ffrwydrolen leisiol a'r ffrwydrolen ddi-lais homorganig gyfatebol ar ddiwedd sillaf acennog mewn geiriau lluosill fel *rhywbeth*, *wedyn*, *gwagedd*, *eglwys*, etc. Codwyd 52 o eitemau sy'n cynnwys y newidyn hwn, ac fe'i nodweddir gan ddau amrywyn:

$$(CM)-1 \quad \left\{ \begin{array}{l} ([b]) - ([p]) \\ ([d]) - ([t]) \\ ([g]) - ([k]) \end{array} \right\} \quad (CM)-2$$

Defnyddir canran seml i gyfrif sgoriau unigol.

(viii) (-us/-oð)

Mae'r newidyn (-us/-oð) yn mesur yr amrywio a geir rhwng [-us] ac [-oð] fel terfyniad trydydd pers. un. gorffennol berfau rheolaidd, e.e. *halws*, *halodd*. Ceir dewis o blith y ddau amrywyn canlynol:

(-us/-oð)-1 [-us]

(-us/-oð)-2 [-oð]

Codwyd 46 o eitemau sy'n cynnwys y newidyn hwn, a defnyddir canran seml i gyfrif sgoriau unigol.

Mae'r amrywyn [-us] yntau ymhlith nodweddion tafodieithol Morgannwg.

(ix) (v)

Mae'r newidyn hwn yn mesur yr amrywio llafarog a all ddigwydd yn sillaf olaf ddiacen geiriau lluosill fel *dangos*, *cwymbo*, *caniataol*, *talcennon*, etc. Gall union ansawdd y llafariad orwedd ar unrhyw bwynt ar hyd y continwwm seinegol sy'n ymestyn o'r llafariad ôl hanner agored [v] hyd at y llafariad ôl gaeedig ganolig [u]. Gellir rhannu'r continwwm seinegol hwn yn bum amrywyn, gan roi gwerth rhifiadol i bob un ohonynt fel a ganlyn:


(v)-1 ([v])

(v)-2 ([v̥])

(v)-3 ([o])

(v)-4 ([o̥])

(v)-5 ([u])



Codwyd set o 320 o eitemau sy'n cynnwys y newidyn hwn, a defnyddir mynegai i gyfrif sgoriau unigol.

Cyfeirir at yr amrywio [o/u] yn sillaf olaf ddiacen geiriau lluosill gan Ruddock (1968) a Samuel (1970).

## 6.1 Y Newidynnau Annibynnol

Newidyn annibynnol yw ffactor allieithyddol y gall fod perthynas uniongyrchol rhyngddo a gwahanol amrywion y newidynnau ieithyddol.

Dangosodd gwaith Labov (1972) (ynghyd ag eraill fel Gumperz a Hymes (1972)) fod gan ffactorau allieithyddol fel sefyllfa'r cyfweliad, oedran, rhyw, cefndir sosio-economaidd ac addysgol ddylanwad mawr ar y defnydd o amrywion newidyn ieithyddol ar unigolyn. Ar ôl astudio cefndir cymdeithasol hysbyswyr Treorci, penderfynwyd astudio'n fanwl y berthynas rhwng y newidynnau ieithyddol a ddisgrifwyd uchod a'r newidynnau annibynnol canlynol:

- 6.1.1 Arddull Lafar
- 6.1.2 Rhyw
- 6.1.3 Oedran
- 6.1.4 Addysg
- 6.1.5 Capela
- 6.1.6 Tarddiad

### 6.1.1 Arddull Lafar

Er mwyn dadansoddi a chymharu'r data ieithyddol a gasglwyd, penderfynwyd rhannu iaith lafar yr hysbyswyr yn ddwy brif arddull:

- (i) Arddull y Cyfweliad (AC) lle y mae'r hysbysydd yn ateb cwestiynau a ofynnir yn uniongyrchol gan yr ymchwilydd.
- (ii) Arddulliau Digymell (AD) lle y mae'r hysbysydd yn adrodd stori, yn sgwrsio neu ynteu'n clebran, h.y. yr holl sefyllfaoedd hynny y gellir dadlau fod yr unigolyn leiaf ymwybodol o'r hyn a lefara ynddynt.

Gwelir felly mai AC yw'r fwyaf ffurfiol o'r ddwy arddull lafar a ddisgrifir uchod.

Yn ymarferol, ceir AC ac AD ar yr un recordiad, er bod yna rai eithriadau lle y cedwir at fframwaith y cyfweliad drwy gydol y sesiwn recordio, neu lle y bo'r hysbysydd naill ai'n adrodd un stori hir neu ynteu nifer o storïau y naill ar ôl y llall.

### 6.1.2 Rhyw

Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar sampl o iaith lafar 30 o hysbyswyr sy'n cynnwys 15 o ddyonion a 15 o wragedd.

### 6.1.3 Oedran

Rhennir yr hysbyswyr yn ddau ddsbarth yn ôl eu hoedran:

- a) hyd at 75 oed
- b) 76 oed a throsodd

#### 6.1.4 Addysg

Rhennir yr hysbyswyr yn ddau brif ddsbarth yn ôl yr addysg a gawsant:

- a) y rhai a gafodd addysg brifysgol neu ynteu goleg hyfforddi athrawon.
- b) y rhai a gafodd addysg gynradd/addysg gynradd ac uwchradd yn unig.

#### 6.1.5 Capela

Rhennir yr hysbyswyr yn ddau brif ddsbarth yn ôl pa mor aml y maent yn mynychu cyfarfodydd capel:

- a) y rhai sy'n capela'n gyson neu ynteu'n lled gyson.
- b) y rhai nad ydynt yn capela o gwbl.

#### 6.1.6 Tarddiad

Er i bron pob un o'r hysbyswyr gael eu geni yn Nhreforci ei hunan, gellir eu rhannu'n ddau brif ddsbarth yn ôl tarddiad eu rhieni:

- (1) y rhai y ganwyd o leiaf un o'u rhieni yn Nhreforci a'r cylch.
- (2) y rhai y ganwyd eu dau riant yn rhywle arall.

## 7 Dadansoddiad o'r Data Ieithyddol

Dewiswyd sampl o iaith lafar gan bob hysbysydd, sef awr ar gyfer pob arddull lafar. Golyga hyn fod nifer y dangosynnau (tokens) y seilir sgoriau unigol arnynt yn amrywio o hysbysydd i hysbysydd. Gall nifer fechan o ddangosynnau ddod â bias i'r sgôr a geir. I osgoi'r perygl hwn, anwybyddir unrhyw sgôr sy'n seiliedig ar lai nag ugain dangosyn. Ymhellach, anwybyddir enghreifftiau sy'n digwydd mewn geiriau diacen. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos (a) lle gellir cael amrywyn ychwanegol, sef /ə/, mewn safleoedd diacen, e.e.

[dramz 'bæχ]

[təm 'ba:χ]

ond

[go lʊg bæχ]

[o:n bæχ 'di ]

Gan na cheisiwyd rheoli geirfa na chael hyd i eitemau penodol, roedd yna berygl y byddai amllder rhai eitemau geiregol yn effeithio ar y sgoriau a geir. Ceisiwyd osgoi'r broblem hon drwy gyfyngu'r rhif i bum dangosyn cyntaf unrhyw eitem eiregol unigol (cf. Macauley 1978, 136–7).

## Y Profion Ystadegol

Yn ystod yr astudiaeth hon defnyddiwyd y rhaglen ystadegol SPSS 16 i redeg profion ystadegol i archwilio'r berthynas rhwng y newidynnau ieithyddol ac annibynnol a ddisgrifiwyd uchod, sef y prawf-t (Student's t-test) a'r dadansoddiad atchwel (regression analysis).

### Y prawf-t

Penderfynwyd rhedeg y prawf-t ar y newidynnau ieithyddol a'r newidynnau annibynnol unigol ar y dechrau. Drwy'r prawf hwn, gellir dangos y tebygolrwydd a yw'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol isgrwpiau (amrywion) o fewn y newidynnau annibynnol yn ganlyniad siawns neu beidio. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r hypothesis nwl sy'n ceisio dangos mai canlyniad siawns yw'r gwahaniaeth rhwng yr is-grwpiau. Mae'r gwerthoedd yn gorwedd ar raddfa o 1 (lle gellir bod yn gwbl sicr mai canlyniad siawns yw'r gwahaniaeth) i 0 (lle gellir bod yn gwbl sicr *nad* canlyniad siawns yw'r gwahaniaeth); po agosaf y bo'r tebygolrwydd (p) i 0 mwyaf sicr y gellir bod nad canlyniad siawns yw'r gwahaniaeth. Yn gyffredinol, derbynnir  $p < 0.05$  fel gwahaniaeth arwyddocaol, a  $p < 0.01$  fel gwahaniaeth arwyddocaol iawn. Mae'r prawf-t yn arbennig o addas wrth drafod poblogaethau bychain ac anghyfartal.

### Dadansoddiad atchwel (Regression analysis)

Gwyddys y gall newidynnau annibynnol ddylanwadu ar ei gilydd yn ogystal ag ar y newidynnau ieithyddol. Er mwyn mesur y dylanwad hwn – a darganfod pa newidynnau annibynnol sydd bwysicaf wrth ddylanwadu ar iaith hysbyswyr Cymraeg Treorci – rhedwyd profion a elwir yn ddadansoddiad atchwel.


Isod rhoir canlyniadau'r profion ystadegol ar newidynnau annibynnol unigol:

## 7.1 Y Prawf-t


### 7.1.1 Arddull Lafar

Dengys Ffigwr 9, 10 ac 11 batrymau sgoriau ieithyddol unigol ar gyfer y newidynnau (a), (h) ac (a) yn ôl Arddull Lafar. Gwelir fod tuedd gan yr hysbyswyr i ddefnyddio amrywion 'lleol', sef [Ø] yn achos y newidyn (h); [æ] ac [æ̃] yn achos y newidyn (a); [a] ac [a] yn achos y newidyn (a), yn amlach yn eu harddulliau llafar cyfarwydd a digymell nag yn eu harddulliau llafar mwy ffurfiol, e.e. yn achos (h), mae cyfanswm o 11 o'r hysbyswyr (39 y cant o'r holl hysbyswyr a brofwyd am Arddull Lafar) â sgoriau AD o fewn y raddfa 0–10 y cant, tra mai pum hysbysydd yn unig (18 y cant o'r holl hysbyswyr a brofwyd am Arddull Lafar) sydd â sgoriau AC o fewn yr un raddfa.






**Figwr 9:** Dosraniad sgoriau ieithyddol unigol ar gyfer (h) yn ôl Arddull Lafar



**Figwr 10:** Dosraniad sgoriau ieithyddol unigol ar gyfer (A) yn ôl Arddull Lafar



**Ffigwr 11:** Dosraniad sgoriau ieithyddol unigol ar gyfer (a) yn ôl Arddull Lafar

Mae Tabl 2 yn crynhoi canlyniadau'r prawf-t ar gyfer Arddull Lafar. Gwelir fod y gwahaniaethau'n arwyddocaol iawn yn achos (ε), (ai), (a), (b) ac (CM); yn arwyddocaol yn achos (-us/-oð), (u), (r) a (h). Golyga hyn fod arddull lafar yn ffactor bwysig iawn yn amrywio ieithyddol siaradwyr Cymraeg Treorci. Ymhellach, po fwyaf ffurfiol yw arddull lafar yr hysbyswyr lleiaf tebygol ydynt o ddewis amrywion nodweddiadol 'leol'.

Newidyn	T	tebygolrwydd (p)
(ε)	-5.74	0.00 (p<0.01)
(ai)	-5.34	0.00 (p<0.01)
(a)	-4.74	0.00 (p<0.01)
(b)	-4.65	0.00 (p<0.01)
(-us/-oð)	-2.21	0.04 (p<0.05)
(u)	-2.26	0.01 (p<0.05)
(r)	2.63	0.01 (p<0.05)
(h)	2.61	0.01 (p<0.05)
(CM)	-5.22	0.00 (p<0.01)

**Tabl 2:** Y berthynas rhwng cymedrau sgoriau ieithyddol unigol ac Arddull Lafar

### 7.1.2 Rhyw

Darganfuwyd fod iaith unigolyn yn amrywio yn ôl rhyw mewn nifer o gymdeithasau ledled y byd. Yng nghymdeithas drefoledig y byd datblygedig, er enghraifft, un o ddarganfyddiadau mwyaf trawiadol astudiaethau sosioieithyddol yw fod gwragedd yn

anelu'n agosach at y patrwm sydd mewn bri, ac yn newid eu harddulliau llafar yn fwy helaeth, na dynion (Chambers a Trudgill, 1980).

Newidyn	t	tebygolrwydd (p)
(a)	1.24	0.23 (p>0.05)
(v)	0.37	0.72 (p>0.05)
(CM)	1.27	0.21 (p>0.05)
(-us/-oð)	2.36	0.37 (p>0.05)
(ε)	0.37	0.53 (p>0.05)
(ai)	0.64	0.91 (p>0.05)
(a)	0.12	0.68 (p>0.05)
(h)	0.42	0.06 (p>0.05)
(r)	-1.98	0.58 (p>0.05)

**Tabl 3:** Y berthynas rhwng cymedrau sgoriau AD y gwahanol newidynnau ieithyddol a Rhyw

Mae Tabl 3 yn crynhoi canlyniadau'r prawf-t ar gyfer Rhyw. Gwelir nad yw'r un gwahaniaeth yn arwyddocaol, a rhaid casglu o'r herwydd nad yw rhyw yn ffactor bwysig yn amrywio ieithyddol siaradwyr Cymraeg Treorci. Serch hynny, mae'n ddiddorol nodi, er bod cymedr sgoriau ieithyddol y merched yn fwy 'ffurfiol' na chymedr sgoriau ieithyddol y dynion yn achos pob newidyn ac eithrio (ε) ac (a) (gw. Tabl 4), fod gwyrriad safonol sgoriau ieithyddol y merched yn is na rhai'r dynion yn achos pob newidyn ac eithrio (ε), (a) ac (v).

Newidyn	Cymedrau Sgoriau Ieithyddol (AD)	
	Gwrywod	Benywod
(CM)	36.71	24.13
(-us/-oð)	13.45	10.53
(h)	26.27	47.00
(ε)	2.85	2.67
(a)	2.02	1.57
(ai)	4.18	4.15
(a)	2.71	2.60
(v)	2.59	2.54
(r)	10.00	14.13

**Tabl 4:** Cymedrau is-grwpiau ar gyfer Rhyw

Mae gwriad safonol yn mesur amrywiaeth neu wasgariad o fewn set o ddata. Golyga gwriad safonol isel fod gwerthoedd data yn tueddu i fod yn agos i'r cymedr, tra bo gwerthoedd uchel o wriad safonol yn awgrymu fod y data wedi eu gwasgaru dros ystod eang o werthoedd. Dengys Tabl 5 werthoedd gwriad safonol sgoriau'r dynion a'r merched ar gyfer Rhyw. Golyga hyn fod yna lai o amrywio ieithyddol ymhlith y merched a bod hyn yn groes i un o brif gasgliadau Chambers a Trudgill parthed rhyw. Fodd bynnag, heb dystiolaeth ystadegol gadarn, hwyrach y dylid ymatal rhag damcaniaethu ymhellach.

Newidyn	Gwriad Safonol Sgoriau Ieithyddol (AD)	
	Gwrywod	Benywod
(CM)	30.37	22.52
(-us/-oð)	25.42	15.31
(h)	30.85	26.32
(ε)	0.64	0.89
(a)	1.04	0.93
(ai)	0.67	0.57
(a)	0.66	0.73
(D)	0.35	0.42
(r)	20.52	20.12

**Tabl 5:** Gwriad safonol is-grwpiau ar gyfer Rhyw

### 7.1.3 Oedran

Gan ein bod yn trafod dwy genhedlaeth ar y mwyaf (roedd yr hysbyswyr i gyd yn bensynwyr neu ynteu'n bobl ar fin ymddeol), ni ddisgwylid i oedran fod yn ffactor bwysig yn nhermau ei ddylanwad ar ddewis yr hysbyswyr o blith y gwahanol amrywion. Dengys Tabl 6 ganlyniadau'r prawf-t ar gyfer Oedran. Gwelir mai dim ond yn achos (D) y mae gwahaniaeth arwyddocaol ac, felly, rhaid casglu nad yw oedran yn ffactor bwysig yn amrywio ieithyddol hysbyswyr Treorci. Fodd bynnag, ni ellir anwybyddu y canlyniad arwyddocaol iawn yn achos (D)

Newidyn	t	tebygolrwydd (p)
(v)	2.56	0.02 (p<0.05)
(h)	-1.23	0.23 (p>0.05)
(ε)	1.17	0.25 (p>0.05)
(ai)	0.86	0.40 (p>0.05)
(a)	1.13	0.27 (p>0.05)
(r)	-0.02	0.98 (p>0.05)
(a)	0.01	0.97 (p>0.05)
(CM)	1.08	0.28 (p>0.05)
(-us/oð)	1.45	0.16 (p>0.05)

**Tabl 6:** Y berthynas rhwng cymedrau sgoriau AD y gwahanol newidynnau ieithyddol ac Oedran

#### 7.1.4 Addysg

Dengys Tabl 7 y berthynas rhwng cymedrau sgoriau AD y gwahanol newidynnau ieithyddol ac Addysg. Gwelir bod y gwahaniaethau'n arwyddocaol iawn yn achos (a), (r) ac (h); yn arwyddocaol yn achos (ε) a (CM); ond heb fod yn arwyddocaol yn achos (v), (ai), ac (-us/-oð) ac (a). Ymddengys felly fod yna gydberthynas rhwng addysg siaradwyr Cymraeg Treorci a'u defnydd o'r newidynnau ieithyddol. Ymhellach, po fwyaf ffurfiol yw arddulliau llafar digymell yr hysbyswyr lleiaf tebygol ydynt, fe ymddengys, o ddewis amrywion nodweddiadol 'leol'. Ond mae'n ddiddorol nodi nad oes gan Addysg unrhyw ddylanwad arwyddocaol ar ddau newidyn ieithyddol a ystyrir yn ddwy o nodweddion amlycaf tafodieithoedd Morgannwg, sef (-us/-oð) ac (a)

Newidyn	gwerth t	tebygolrwydd (p)
(ε)	-2.73	0.01 (p<0.05)
(ai)	-1.80	0.08 (p>0.05)
(a)	-3.13	0.00 (p<0.01)
(v)	-1.50	0.15 (p>0.05)
(-us/-oð)	-0.93	0.36 (p>0.05)
(a)	-1.90	0.07 (p>0.05)
(r)	3.50	0.00 (p<0.01)
(h)	3.00	0.01 (p<0.01)
(CM)	-2.48	0.02 (p<0.05)

**Tabl 7:** Y berthynas rhwng cymedrau sgoriau AD y gwahanol newidynnau ieithyddol ac Addysg

### 7.1.5 Capela

Oherwydd ffurfioldeb y rhan fwyaf o gyfarfodydd capel, mae capelwyr Treorci yn dod i gysylltiad â ffurf uchel ar y Gymraeg. Nid yw'r math uchel hwn ar gael i'r hysbyswyr hynny nad ydynt yn capela. Gan mai 5:1 yw'r gymhareb rhwng y capelwyr a gweddill yr hysbyswyr, mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau is-grŵp o fewn y newidyn annibynnol hwn yn rhy fawr i wneud cymhariaeth ystyrion rhyngddynt. Fodd bynnag, mae nodweddion y capelwyr fel is-grŵp yn ddigon clir. Yn achos y newidyn (h), maent yn meddu ar sgoriau sydd wedi eu gwasgaru'n weddol wastad; yn achos y newidyn (a), mae'r capelwyr yn ffafrio'r amrywion [ɑ] ac [ɑ̃]; yn achos (a), ymddengys ei bod yn well gan y capelwyr ddefnyddio amrywion llai canolig yn hytrach nag amrywion canolig sy'n fwy nodweddiadol 'leol'. Dengys Tabl 8 ganlyniadau'r prawf-t ar gyfer Capela. Gwelir nad yw'r un gwahaniaeth yn arwyddocaol; rhaid casglu, felly, nad yw capela'n ffactor bwysig yn amrywio ieithyddol hysbyswyr Treorci.

Newidyn	gwerth t	tebygolrwydd (p)
(h)	0.76	0.45 (p>0.05)
(CM)	-0.99	0.33 (p>0.05)
(r)	-0.57	0.53 (p>0.05)
(a)	-1.33	0.20 (p>0.05)
(v)	-1.27	0.22 (p>0.05)
(ε)	-0.84	0.41 (p>0.05)
(-us/-od)	-1.67	0.11 (p>0.05)
(u)	-1.74	0.09 (p>0.05)
(ai)	-0.21	0.84 (p>0.05)

**Tabl 8:** Y berthynas rhwng cymedrau sgoriau AD y gwahanol newidynnau ieithyddol a Chapela

Mae'r amrywion a elwir yn rhai lleol yn y drafodaeth flaenorol yn nodweddion y Wenhwyseg, sef tafodiaith Gymraeg draddodiadol gogledd-orllewin Gwent a dwyrain Morgannwg sy'n cynnwys is-dafodiaith cymoedd y Rhondda. Ystyrir y nodweddion hyn yn rhai israddol gan y rhan fwyaf o'r hysbyswyr gydag amrywion [æ] y newidyn (a) yn enwedig dan y lach. Fodd bynnag, roedd rhai hysbyswyr yn hoff iawn o'r nodweddion 'lleol' hyn. Cymharer sgoriau AD dau hysbysydd o fenywod o gefndir cymdeithasol a chrefyddol tebyg yn Nhabl 9.

Hysbysydd	(CM)	(-us/-oð)	(h)	(ε)	(ai)	(a)	(n)	(r)	(a)
EL	67	0	17	3.2	3.6	3.2	2.6	0	3.9
BW	10	0	43	2.4	4.4	2.8	2.3	0	1.1

**Tabl 9:** Sgoriau ieithyddol AD dau hysbysydd o fenywod o gefndir cymdeithasol a chrefeddyol tebyg

Dengys y tabl hwn fod EL yn sgorio'n uwch na BW yn achos (a) ac (a). Mewn termau ieithyddol, mae EL yn defnyddio amrywion 'lleol' yn fwy aml na BW. Mae hi'n ymhyfrydu yn 'iaith' Treorci, ac mae'n edifar ganddi na all hi olrhain ei hachau'n ôl i 'Wŷr y Gloran', sef trigolion gwreiddiol y Rhondda, tra bod BW yn edifarhau iddi hi gael ei geni mewn pentref glofaol fel Treorci.

#### 7.1.6 Tarddiad

Dengys Tabl 10 y berthynas rhwng cymedrau sgoriau AD y gwahanol newidynnau ieithyddol a Tharddiad. Gwelir nad yw'r un gwahaniaeth yn arwyddocaol. Dengys hyn nad yw tarddiad y rhieni yn ffactor a chanddi ddylanwad o bwys ar ddefnydd y hysbyswyr o'r gwahanol newidynnau ieithyddol.

Newidyn	T	tebygolrwydd (p)
(ε)	0.45	0.46 (p>0.05)
(r)	-.74	0.45 (p>0.05)
(h)	-1.18	0.87 (p>0.05)
(-us/-oð)	-.77	0.13 (p>0.05)
(a)	0.03	0.91 (p>0.05)
(CM)	-0.08	0.95 (p>0.05)
(a)	0.48	0.38 (p>0.05)
(n)	0.62	0.12 (p>0.05)
(ai)	-1.00	0.71 (p>0.05)

**Tabl 10:** Y berthynas rhwng cymedrau sgoriau AD y gwahanol newidynnau ieithyddol a Tharddiad

Crynoir y berthynas rhwng y newidynnau ieithyddol a'r newidynnau annibynnol yn Ffigur 12. Gwelir bod pob un o'r newidynnau ieithyddol uchod yn cydamrywio ag Arddull Lafar + un newidyn annibynnol arall ac eithrio (ai) ac (-us/-oð). Y ddau newidyn annibynnol arall yw Addysg, sy'n cydamrywio â chwe newidyn ieithyddol, sef (h), (a), (ε), (CM), (r)

ac (ɑ), ac Oedran, sy'n cydamrywio ag un (ɒ). Adeg yr astudiaeth hon, roedd rhai o'r newidynnau ieithyddol yn destun sylw anffafriol yn y gymuned. Roedd amrywion [æ] a [œ] yn newidyn (ɑ), yn enwedig, dan lach y mwyafrif llethol o'r hysbyswyr ac, i raddau llai, yr amrywion ieithyddol hynny a ystyrir yn aml yn fwyaf nodweddiadol o dafodieithoedd dwyrain Morgannwg. Bernir mai un rheswm i newidyn ddod dan lach yw fod ei amrywion yn creu bwlch rhwng ynganiad ac orgraff. Mae hyn yn wir yn achos y newidynnau canlynol:

(ɑ)(h)(r)(CM)(ai)(-us/-oð)(e)

Er enghraifft, nid oes symbol i gynrychioli [æ]; [-oð] yw ffurf safonol trydydd pers. gorff. terfyniad y ferf reolaidd erbyn hyn, etc. Ffactor bwysig arall yw fod newidynnau ieithyddol o'r fath yn aml yn rhan o newid ieithyddol o fewn y gymuned. Gwelwyd eisoes mai'r newidynnau sy'n ymwneud â nodweddion amlycaf tafodieithoedd dwyrain Morgannwg yw'r rhai oedd yn destun sylw anffafriol ymhlith siaradwyr Treorci, ac maent wedi mynd yn ystrydebau dan lach (Chambers a Trudgill, 1980). Yr awgrym felly yw fod y nodweddion sy'n arbennig i ddwyrain Morgannwg yn cael eu gollwng.

	Newidynnau ieithyddol								
Newidynnau annibynnol	(h)	(ɑ)	(ɒ)	(e)	(ai)	(CM)	(r)	(-us/-oð)	(ɑ)
Arddull lafar									
Addysg (AD)									
Oedran (AD)									
Rhyw (AD)									
Capela (AD)									
Tarddiad (AD)									

- Gwahaniaeth arwyddocaol iawn (p<0.01)
- Gwahaniaeth arwyddocaol (p<0.05)
- Dim gwahaniaeth arwyddocaol (p>0.05)

**Ffigwr 12:** Siart sy'n dangos y berthynas rhwng y newidynnau ieithyddol a'r gwahanol newidynnau annibynnol

Yn anffodus, ni bu modd cadarnhau'r sylwadaeth hon drwy ddefnyddio'r cysyniad o amser ymddangosol oherwydd bod yr ymchwilydd yn rhwym wrth y rhwydwaith cymdeithasol. Yn syml, adeg yr astudiaeth, ni ffurfiol pobl ifainc o Gymry Cymraeg ran o'r rhwydwaith. Hwyrach y gallasid recordio sampl o iaith lafar y plant oedd yn mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Ynys-wen. Ond, gan fod y mwyafrif llethol o'r rheiny'n dod o aelwydydd di-Gymraeg, barnwyd nad teg eu cymharu â hysbyswyr dros eu pedwar ugain oed a fagwyd nid yn unig ar aelwydydd Cymraeg, ond hefyd mewn cymuned lle roedd cyfran helaeth o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.



## 7.2 Dadansoddiad atchwel

Hyd yn hyn, trafodwyd dylanwad y newidynnau annibynnol unigol ar sgoriau ieithyddol aelodau'r isgrwpiau y mae'r hysbyswyr yn perthyn iddynt. Darganfuwyd rhai gwahaniaethau arwyddocaol ac arwyddocaol iawn. Wrth gwrs, gall y newidynnau annibynnol effeithio ar ei gilydd yn ogystal ag ar y newidynnau ieithyddol, a rhaid cymryd hyn i ystyriaeth cyn y ceir darlun cyflawn o'r amrywio ieithyddol unigol. Techneg ystadegol gymhleth a ddefnyddir yn aml i gyfrif effaith gynyddol gwahanol newidynnau annibynnol ar newidyn dibynnol, sef y newidynnau ieithyddol yn achos yr astudiaeth hon, yw dadansoddiad atchwel. Cynhyrchir ystadegyn  $R^2$  sy'n dangos pa mor gryf yw'r cysylltiad rhwng newidynnau annibynnol a'r newidyn dibynnol (ieithyddol yn yr achos hwn). Mae 1 yn dangos cydberthynas berffaith; po fwyaf y mae  $R^2$  yn nesu at 1 cryfaf yw'r berthynas. Ymhellach, cynhyrchir ystadegyn F sydd, yn ei dro, yn mesur y tebygolrwydd fod y berthynas rhwng y newidynnau annibynnol a'r newidyn dibynnol yn ganlyniad siawns. Penderfynwyd defnyddio dadansoddiad atchwel i geisio cadarnhau'r canlyniadau a gafwyd yn y profion blaenorol.

Dewiswyd y newidynnau annibynnol canlynol ar gyfer dadansoddiad atchwel:

- (i) Rhyw
- (ii) Oedran
- (iii) Addysg
- (iv) Capela
- (v) Tarddiad

Dengys Tabl 11 ganlyniadau'r dadansoddiad atchwel am y pum newidyn annibynnol uchod ar y naw newidyn ieithyddol. Gwelir mai yn achos (h) yn unig y mae'r canlyniadau yn arwyddocaol.

Newidyn	$R^2$	F	p
(h)	0.44	3.72	0.01 ( $p < 0.05$ )
(f)	0.35	2.57	0.05 ( $p > 0.05$ )
(e)	0.36	2.31	0.06 ( $p > 0.05$ )
(CM)	0.35	2.46	0.06 ( $p > 0.05$ )
(-os/-oð)	0.36	2.31	0.08 ( $p > 0.05$ )
(a)	0.25	1.58	0.20 ( $p > 0.05$ )
(b)	0.26	1.62	0.20 ( $p > 0.05$ )
(c)	0.13	0.68	0.64 ( $p > 0.05$ )
(ai)	0.13	0.68	0.64 ( $p > 0.05$ )

**Tabl 11:** Canlyniadau dadansoddiad atchwel am bum newidyn annibynnol

Dengys Tabl 12 y berthynas rhwng y newidynnau annibynnol a'r newidynnau ieithyddol unigol.

<b>(h)</b>					
	<b>Rhyw</b>	<b>Addysg</b>	<b>Oedran</b>	<b>Capela</b>	<b>Tarddiad</b>
<b>Cyfernod X</b>	29.14	20.37	-1.93	-22.33	-0.31
<b>Cyfeiliornad Safonol Cyfeirnod</b>	11.76	10.27	0.90	17.80	10.14
<b>T</b>	2.48	1.98	-2.15	-1.23	-0.03
<b>P</b>	0.02 (p<0.05)	0.06 (p>0.05)	0.04 (p<0.05)	0.22 (p>0.05)	0.97 (p>0.05)

**Tabl 12:** Canlyniadau dadansoddiad atchwel am bum newidyn annibynnol unigol ar (h)

Gwelir bod yna ganlyniadau arwyddocaol yn achos Rhyw, Addysg ac Oedran ar gyfer (h) a (r). Ni chanfuwyd cydberthynas rhwng (h) a Rhyw pan brofyd hynny ar ei ben ei hunan (gw. Ffigwr 12).

Diddorol nodi hefyd fod yna ganlyniadau arwyddocaol yn achos (h) ar gyfer Rhyw ac Oedran, ynghyd â chanlyniad arwyddocaol iawn yn achos (r) ar gyfer Addysg. Oherwydd natur ddi-lais dau o amrywion y newidynnau arwahanol hyn, hwyrach y byddid wedi disgwyl mwy o gyfatebiaeth rhyngddynt, fel yr hyn a welwyd pan brofyd hwy ar eu pennau eu hunain (gw. Ffigwr 12).

Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol eraill. Mae hyn yn wahanol i'r canlyniadau a gafwyd pan redwyd y profion annibynnol a chael gwahaniaethau arwyddocaol yn achos Oedran a phob newidyn ieithyddol ac eithrio (v), (ai) ac (us/oð), ynghyd â gwahaniaethau arwyddocaol yn achos Oedran ac (v).

## 8 Casgliadau

Rhydd yr astudiaeth hon giplun inni o'r math o Gymraeg a siaredid yn Nhreforci ar ddiwedd saithdegau'r ugeinfed ganrif. Ceisiwyd rhoi cyfrif am yr amrywio ieithyddol a geid o fewn y gymuned ieithyddol hon drwy fabwysiadu dulliau sosioieithyddol. Adnabuwyd newidynnau ieithyddol a newidynnau annibynnol er mwyn gwneud hyn. Mae pob newidyn ieithyddol yn cynnwys amrywion safonol a rhai ansafonol sydd, yn aml iawn, yn nodweddion y dafodiaith leol. Ymddengys mai Arddull Lafar yw'r newidyn annibynnol a chanddo'r dylanwad mwyaf ar ddefnydd iaith yr hysbyswyr: po fwyaf ffurfiol y cyddestun, mwyaf safonol yw'r iaith a ddefnyddir ganddynt. Fodd bynnag, er y gwelir tueddiadau clir yn y data craidd, yn aml iawn, nid yw canlyniadau'r profion ystadegol yn cadarnhau'r gydberthynas hon. Ymhellach, nid yw pob ffactor allieithyddol mor bwysig â'i gilydd; ymddengys nad yw tarddiad y rhieni na chapela na rhyw yn chwarae rhan bwysig yn newis iaith siaradwyr Cymraeg Treorci. Mae hyn yn tansellio'r gred gyffredinol fod tarddiad rhieni yn dylanwadu ar ddefnydd iaith eu plant. Ac eto, mae'n bosib mai natur oddefol capela sy'n esbonio pam nad yw'n ffactor bwysig o ran dewis ieithyddol hysbyswyr yr astudiaeth hon.

Yn olaf, ymddengys mai negyddol yw dylanwad y newidynnau annibynnol ar ddefnydd yr hysbyswyr o'r amrywion hynny a ystyrir yn nodweddion tafodieithoedd dwyrain Morgannwg, h.y. po fwyaf ffurfiol yr arddull lafar lleiaf tebygol yw clywed amrywion nodweddiadol 'leol'. Mae argoelion felly fod y nodweddion 'lleol' hyn yn y broses o gael eu gollwng yn y gymuned.

## 9. Cyfeiriadau

Ball, M. a Müller, N., (goln) (2010) *The Celtic Languages*, Llundain: Routledge.

Boissevain, J. (1974). *Friends of Friends: Networks, Manipulations and Coalitions*, Rhydychen: Blackwell.

Chambers, J. K. a Trudgill, P. (1980) *Dialectology*, Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Day, G. a Fitton, M. (1978) 'Religious organisation and community in Mid Wales', yn Williams (gol.) (1978).

Gumperz, J. J. a Hymes, D. (gol.) (1972) *Directions in Sociolinguistics: the Ethnography of Communication*, Llundain: Holt, Rinehart a Baylis.

Jones, R. O. a Williams, C. (2010) *The sociolinguistic context of Welsh*, yn Ball, M. a Müller, N., (goln) (2010), 650–711.

Labov, W. (1961) 'The social motivation of sound change', yn Labov (1972), 1–42.

Labov, W. (1966) 'The social stratification of (r) in New York city department stores', Yn Labov (1972), 43–69.

Labov, W. (1972) *Sociolinguistic Patterns*, Gwasg Prifysgol Pennsylvania.

Lewis, E. D. (1960) *The Rhondda Valleys*, Cyngor Bwrdeistref y Rhondda.

Macauley, R. K. S. (1978) 'Variation and consistency in Glaswegian English', yn Trudgill (gol.) (1978), 136–143.

Milroy, J. a Milroy, L. (1977) 'Speech and context in an urban setting', yn *Belfast Working Papers in Language and Linguistics*, 2 (1): 1–85.

Milroy, L. (1980) *Language and Social Networks*; Rhydychen: Blackwell.

Rawkins, P. M. (1987). 'The politics of benign neglect: education, public policy, and the mediation of linguistic conflict in Wales', yn Williams, G. (1987).

Ruddock, G. (1968) *Astudiaeth seinyddol o dafodiaeth Hirwaun ynghyd â geirfa*, Traethawd (MA), Prifysgol Cymru.

Samuel, O. (1970) *Astudiaeth o dafodiaeth cylch y Rhigos*, Traethawd (MA), Prifysgol Cymru.

Sommerfelt, A. (1925) *Studies in Cyfeiliog Welsh*, Oslo: Jacob Dybwad.

Sommerstein, Alan H. (1977) *Modern Phonology*, Llundain: Edward Arnold.

Thomas, C. H. (1975–6) 'Some phonological features of dialects in south-east Wales', *Studia Celtica*, 10/11: 245–6

Trudgill, P. (1978) *Sociolinguistic Patterns in British English*, Llundain: Arnold.

Williams, G. (gol.) (1978) *Social and Cultural Change in Contemporary Wales*, Llundain: Rutledge and Kegan Paul.

Williams, G. (gol.) (1987) *The Sociology of Welsh*, Amsterdam: Mouton de Gruyter.

## 10. Darllen pellach

Aitchinson, J. a Carter, H. (1994) *A Geography of the Welsh Language*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Davies, E. a Rees, A.D. (1960) *Welsh Rural Communities*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Fishman, J. A. (1972) *Advances in the Sociology of Language: 1*, Yr Hâg: Mouton.

Khleif, B. B. (1980) *Language, Ethnicity, and Education in Wales*, Amsterdam: Mouton.

Giglioli, P. P. (gol.) (1972) *Language and Social Context – Selected Readings*, Harmondsworth: Penguin.

Hudson, R. A. (1980) *Sociolinguistics*, Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Moser, C. A. a Kalton, G. (1977) *Survey Methods in Social Investigation*, Llundain: Heineman.

o'Kane, D. (1977) 'Overt and covert prestige in Belfast speakers' vernacular', yn *Belfast Working Papers in Language and Linguistic*, 2 (3): 1–29.

Rotawne, S. (1987) 'What is a speech community?', yn *Belfast Working Papers in Language and Linguistics*, 4 (3): 41–59.

Thomas, A. R. (1987) 'A spoken standard for Welsh: description and pedagogy', yn *International Journal of the Sociology of Language*, 66: 98–113.

Thomas B. (1987) 'Accounting for language shift in a south Wales mining community', yn *Papurau Gwaith Caerdydd mewn Iaith ac Ieithyddiaeth*, 5: 55–99

Thomas, B. a Thomas, P. W. (1989) *Cymraeg, Cymrâg, Cwmrêg: Cyflwyno'r Tafodieithoedd*, Caerdydd: Gwasg Taf.

Weinreich, U. (1963) *Languages in Contact*, Yr Hâg: Mouton.

Williams C. H. (1987) 'Location and contact in Welsh language interpretation', yn *International Journal of the Sociology of Language*, 66: 61–83.

Williams, G. (1987) 'Bilingualism, class dialect and social reproduction', yn *International Journal of the Sociology of Language*, 66: 85–98.

**Dr Anwen Elias**

**Pleidiau Cenedlaetholgar  
Lleiafrifol ac Ymaddasu  
i Ddatganoli: Astudiaeth  
Gymharol o Blaid Cymru  
a'r Bloque Nacionalista  
Galego**

---

Rhif **7** Ionawr 2011 • ISSN 1741-4261

**Gwerddon**

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

# Pleidiau Cenedlaetholgar Lleiafrifol ac Ymaddasu i Ddatganoli: Astudiaeth Gymharol o Blaid Cymru a'r Bloque Nacionalista Galego

**Dr Anwen Elias**

## Cyflwyniad

Ers yr 1970au, mae prosesau datganoli ar draws Gorllewin Ewrop wedi creu sefydliadau etholedig rhanbarthol newydd mewn nifer o wladwriaethau (Hough a Jeffery, 2006).<sup>1</sup> Yn sgil y datblygiadau hyn, crewyd cyfleoedd newydd i bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol amddiffyn eu galwadau ac ennill cynrychiolaeth ar y lefel ranbarthol. Yn wir, mae nifer o bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn wleidyddol ac yn etholiadol ar y lefel ranbarthol, ac o ganlyniad wedi gallu gwrthio am fwy o ymreolaeth i'w cenedloedd (Elias a Tronconi, 2011).

Er gwaetha'r llwyddiannau hyn, fodd bynnag, ychydig iawn o sylw academaidd sydd wedi ei roi i'r ffordd y mae llwyddiant gwleidyddol ac etholiadol wedi effeithio ar bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol. Ychydig iawn a wyddom, felly, am y ffyrdd y mae'r pleidiau hyn wedi datblygu ac ymaddasu o ganlyniad i ennill eu plwyf fel gweithredwyr hollbwysig yn eu gwahanol gyfundrefnau gwleidyddol rhanbarthol. Mae hyn yn rhyfedd pan ystyrir bod llawer iawn o sylw wedi ei roi i bleidiau eraill, megis pleidiau gwyrddion ac asgell dde eithafol, a ddaeth i'r amlwg mewn nifer o wladwriaethau yng Ngorllewin Ewrop yn ystod yr un cyfnod. Mae ysgolheigion wedi astudio datblygiad a nodweddion syniadaethol a threfniadol y pleidiau hyn wrth iddynt dyfu o fod yn bleidiau bach ymylol i fod yn weithredwyr gwleidyddol o bwys, ac wedi ymchwilio i'w profiadau mewn llywodraeth (Müller-Rommel, 2002; Poguntke, 2002; Rihoux a Rüdiger, 2006; Heinisch, 2003). Ond nid oes sylw tebyg wedi ei roi i bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol, er gwaetha'r ffaith fod nifer fawr ohonynt wedi dilyn yr un trywydd, hynny yw, o fod yn bleidiau ymylol i fod yn bleidiau mewn grym. Yn yr un modd, mae cyfrol Deschouwer (2008) yn ymchwilio i brofiadau a goblygiadau bod mewn llywodraeth am y tro cyntaf. Ond prin iawn yw'r sylw a roddir yn y gyfrol i bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol, er gwaetha'r ffaith bod nifer gynyddol ohonynt wedi dod i rym yn ddiweddar.<sup>2</sup>

Mae'n hen bryd felly i ni gael dadansoddiad o'r ffyrdd y mae pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol yn ymaddasu wrth i'w statws etholiadol a gwleidyddol newid. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar y ffordd y mae pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol wedi ymaddasu i ddatganoli, a hynny mewn dau gyd-destun penodol: Cymru a Galisia. Bydd yr astudiaethau achos yn canolbwyntio ar ddwy blaid, sef Plaid Cymru a'r Bloque Nacionalista Galego (BNG). Dewisir y ffocws empiraidd hwn am ddau reswm. Yn gyntaf, mae Cymru a Galisia yn ddwy genedl lleiafrifol o fewn gwladwriaethau a oedd, yn hanesyddol, yn wladwriaethau unedol (Keating, 2001). Ers nifer o flynyddoedd, fodd

<sup>1</sup> Mae'r erthygl hon wedi ei seilio ar waith ymchwil a gwblhawyd o dan nawdd Ysgoloriaeth Saunders Lewis, a ddyfarnwyd gan Gronfa Goffa Saunders Lewis.

<sup>2</sup> Dylid nodi mai dod i rym ar lefel ranbarthol y mae pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol gan amlaf. Ychydig iawn o achosion sydd yna o bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol mewn llywodraeth ar lefel wladwriaethol (gweler Elias a Tronconi, 2011).

bynag, mae prosesau datganoli yn y ddwy wlad wedi trosglwyddo nifer o gyfrifoldebau pwysig i haen ranbarthol o lywodraeth.<sup>3</sup> Yn ail, yn y ddau achos, mae datganoli wedi creu cyfleoedd newydd i Blaid Cymru a'r BNG ennill cynrychiolaeth, dylanwadu ar y broses bolisi, a bod yn aelodau o lywodraeth ar lefel ranbarthol. O gymharu â'r cyd-destun cyn-ddatganoledig lle roedd y ddwy blaid yn wleidyddol ac etholiadol ymylol (gweler isod), bu i Blaid Cymru a'r BNG ddatblygu i fod yn actorion canolog yn y cyd-destun datganoledig.<sup>4</sup> O'r herwydd, maent yn cynnig achosion clir iawn o'r trawsnewid o fod yn bleidiau protest i fod yn bleidiau mewn grym, ac felly yn addas ar gyfer astudio sut mae pleidiau cenedlaetholgar yn ymaddasu a newid wrth iddynt esblygu yn y modd yma.

Trefnir yr erthygl fel a ganlyn. Yn y rhan nesaf, ceir adolygiad o'r llenyddiaeth academaidd sy'n cynnig fframwaith dadansoddiadol ar gyfer astudio datblygiad pleidiau gwleidyddol. Ar sail y gwaith hwn, amlinellir nifer o osodiadau ynglŷn ag esblygiad pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol wrth iddynt ddatblygu o fod yn bleidiau ymylol i fod yn bleidiau mewn grym. Wedi hyn, bydd yr erthygl yn dadansoddi datblygiad Plaid Cymru a'r BNG yn sgil creu sfferau datganoledig newydd yng Nghymru wedi 1999, ac yng Ngalisia er 1982.<sup>5</sup> Dadleuir bod Plaid Cymru a'r BNG wedi wynebu'r un cyfleoedd a sielensau ag a wynebir gan unrhyw blaid wleidyddol sy'n ymdrechu i symud o ymylon y gyfundrefn wleidyddol i fod yn rym gwleidyddol cryf. Dangosir bod datganoli wedi galluogi'r ddwy blaid i sicrhau llais cryf i'r mudiad cenedlaetholgar yng Nghymru ac yng Ngalisia. Ar yr un pryd, fodd bynnag, cyflwynir tystiolaeth o'r problemau cyffredin sydd ynghlwm wrth geisio cynyddu apêl etholiadol plaid, sicrhau dylanwad ar bolisi, a llywodraethu yn effeithiol. Mae'r erthygl yn cloi drwy amlinellu cyfraniadau'r astudiaeth hon o ran deall sut y mae pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol yn newid ac yn ymaddasu wrth iddynt ymdrechu i newid o fod yn bleidiau protest i fod yn bleidiau mewn grym.

## Fframwaith dadansoddiadol

Mae Pedersen (1982) wedi defnyddio'r cysyniad o "batrwm bywyd plaid" (*party lifespan*) i esbonio'r ffyrdd y mae pleidiau gwleidyddol yn esblygu a newid dros amser. Gwahaniaetha Pedersen rhwng gwahanol gyfnodau yn esblygiad unrhyw blaid; caiff

<sup>3</sup> Dylid nodi bod datganoli yn Sbaen wedi datblygu'n raddol ers yr 1970au, tra bod datganoli yn y Deyrnas Unedig yn llawer mwy diweddar (er 1999).

<sup>4</sup> Yn y modd yma, mae Plaid Cymru a'r BNG yn wahanol i bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol eraill mewn rhannau eraill o'r wladwriaeth. Er enghraifft, mae Plaid Genedlaethol yr Alban yn hanesyddol wedi mwynhau lefelau uwch o gefnogaeth etholiadol mewn etholiadau cyffredinol na Phlaid Cymru; o ganlyniad mae hefyd wedi gallu dylanwadu mewn ffordd bwysig ar agweddau pleidiau Prydeinig tuag at ddatganoli (gweler Lynch, 2011). Ni feddai Plaid Cymru ar yr un lefel o gefnogaeth etholiadol na grym bargeinio yn y cyd-destun Prydeinig (gweler Elias, 2011). Yn yr un modd, yn hanesyddol roedd traddodiad cenedlaetholgar tipyn cryfach yng Nghatalonia a Gwlad y Basg nag oedd yng Ngalisia. Golygodd hyn fod pleidiau megis *Convergència Democràtica de Catalunya* (CDC) a'r *Partido Nacionalista Vasco* (PNV) mewn sefyllfa gryf i gyfrannu i drafodaethau ar ddiwedd yr 1970au ar strwythur cyfansoddiadol y wladwriaeth Sbaeneg ddemocrataidd newydd (Moreno, 2001). Nid oedd y mudiadau cenedlaetholgar Galisieg mewn sefyllfa i gyfrannu yn yr un modd.

<sup>5</sup> Sellir y drafodaeth hon ar gyfres o gyfweiliadau a gynhaliwyd â chynrychiolwyr y ddwy blaid rhwng Mawrth 2008 a Ionawr 2009. Er mwyn i'r unigolion hyn gael aros yn ddiennw, cyfeirir at y cyfweiliadau gan ddefnyddio'r dyddiad y'u cynhaliwyd yn unig.

y cyfnodau hyn eu dynodi trwy groesi trothwy penodol. Bydd plaid yn croesi trothwy datganiad pan fydd yn datgan ei bwriad i sefyll mewn etholiadau, a chodir uwchlaw'r trothwy awdurdodi pan fydd plaid yn bodloni'r gofynion ar gyfer cystadlu mewn etholiadau (ni thrafodir ymhellach y ddau drothwy hyn yn yr erthygl hon). Unwaith y bydd plaid wedi ei hawdurdodi i gystadlu mewn etholiadau, bydd yn codi uwchlaw'r trothwy cynrychiolaeth pan fydd yn ennill digon o bleidleisiau i ennill un sedd neu fwy mewn sefydliad etholedig. Yna, ar ôl ennill cynrychiolaeth, y trothwy nesaf i'w groesi yw trothwy perthnasedd. Bydd plaid yn llwyddo i fod yn berthnasol pan fydd ei phresenoldeb mewn cyfundrefn wleidyddol yn effeithio ar batrymau cystadleuaeth o fewn y gyfundrefn honno. Gall hyn ddigwydd mewn un o ddwy ffordd: i) bydd y plaid yn cael ei gweld fel partner posib ar gyfer ffurfio clymblaid, ac felly yn meddu ar botensial clymbleidio; ii) bydd pleidiau eraill yn gorfod ymateb mewn rhyw ffordd i'r plaid (er enghraifft trwy fabwysiadu ei pholisïau neu ynteu ymwrthod â hwy), ac felly bydd y plaid yn meddu ar botensial blacmelio (Sartori, 1976; Elias a Tronconi, 2011). Y mae Deschouwer (2008) wedi ychwanegu un trothwy ychwanegol i fodel Pedersen, sef y trothwy llywodraethu. Bydd y trothwy olaf hwn yn cael ei groesi pan fydd plaid yn dod yn aelod o lywodraeth naill ar ei phen ei hun neu fel partner mewn clymblaid.

Mae model Pedersen yn caniatáu i ni astudio datblygiad pleidiau gwleidyddol yn ystod gwahanol gyfnodau yn ei hesblygiad. Un agwedd o'r datblygiad yma yw'r amcanion (*party goals*) y bydd plaid yn eu harddel. Gwahaniaetha Strøm (1990) rhwng tri math o blaid yn seiliedig ar eu prif amcan: pleidiau sy'n rhoi blaenoriaeth i ennill pleidleisiau (*vote-seeking*), pleidiau sy'n rhoi blaenoriaeth i ddylanwadu ar bolisi (*policy-seeking*), a phleidiau sy'n rhoi blaenoriaeth i fod mewn grym (*office-seeking*). Er enghraifft, noda Adams *et al.* (2006) mai blaenoriaeth y mwyafrif o bleidiau newydd un-pwnc (*single-issue*) a gaiff eu sefydlu i amddiffyn rhaglen ideolegol gul (er enghraifft pleidiau gwyrddion ac asgell dde), yw dylanwadu ar y broses bolisi. Fodd bynnag, dengys amryw o astudiaethau fod pleidiau o'r fath yn aml yn dod i sylweddoli bod dylanwadu ar bolisi yn haws os oes ganddynt gynrychiolaeth wleidyddol. Er mwyn ennill y gynrychiolaeth honno, rhaid i blaid ennill digon o bleidleisiau mewn etholiad; i bleidiau un-pwnc, bydd hyn fel arfer yn golygu gorfod cymedroli eu neges a mabwysiadu safbwynt ar faterion y tu hwnt i'w hideoleg graidd (*core business*) er mwyn apelio at garfan ehangach o bleidleiswyr (Müller-Rommel a Pridham, 1991; Poguntke, 2002; Müller-Rommel, 2002; Heinisch, 2003). Unwaith y bydd plaid wedi llwyddo i gyflawni'i hamcan etholiadol, yna gall droi ei meddwl at sut y gall ddylanwadu ar bolisi. Bydd rhai pleidiau yn ceisio dylanwadu ar bolisi trwy fargeinio â'r llywodraeth.<sup>6</sup> Bydd eraill, fodd bynnag, yn penderfynu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddylanwadu ar bolisi yw bod yn aelod o'r llywodraeth (Strøm a Müller, 1999: 6). Bod mewn grym fydd y flaenoriaeth i'r pleidiau hyn, fel cam angenrheidiol tuag at wireddu'r amcan o ddylanwadu ar bolisi.

Mae'n amlwg o'r drafodaeth hon nad yw amcanion plaid yn statig. Yn hytrach, byddant yn newid wrth iddi groesi trothwyon newydd. Wrth gwrs, mi all plaid gamu'n ôl dros wahanol drothwyon hefyd, er enghraifft pan na fydd yn adennill lle mewn llywodraeth

<sup>6</sup> Er enghraifft, os nad oes gan blaid lywodraethol fwyaf digonol i basio polisïau, gall pleidiau eraill gynnig cefnogi'r llywodraeth os gwneir nifer o gonsesiynau polisi iddi.



neu pan fydd ei chanran o bleidleisiau'n disgyn ac nad yw felly'n gallu cynnal ei lefel o gynrychiolaeth. Bydd y math yma o ddatblygiadau hefyd yn gorfodi pleidiau i ailystyried eu blaenoriaethau o ran yr amcanion yr anelir atynt (er enghraifft, sut i adennill cefnogaeth etholiadol yn yr enghraifft ddiwethaf).

Fodd bynnag, nid yw gwireddu amcanion o reidrwydd yn hawdd i blaid (Strøm, 1990; Strøm a Müller, 1999). Yn gyntaf, bydd pleidiau sydd yn llwyddiannus yn etholiadol ac sydd, o ganlyniad, yn cael eu hystyried yn fygythiad etholiadol gan bleidiau eraill, yn gorfod ymdrin ag ymateb y pleidiau hynny i'w presenoldeb yn y gyfundrefn wleidyddol. Gall pleidiau eraill ymateb naill ai trwy anwybyddu'r materion a godir gan y blaid newydd, neu trwy fabwysiadu polisiau tebyg er mwyn tansellio apêl y blaid newydd, neu ynteu trwy fabwysiadu polisi gwahanol er mwyn annog etholwyr i gefnogi polisi amgen i'r hyn a gynigir gan y blaid newydd (Meguid, 2005). Pan fydd pleidiau traddodiadol yn llwyddo i ddsellio apêl y blaid newydd, bydd rhaid i'r blaid newydd geisio ailddiffinio'i neges wleidyddol er mwyn ailsefydlu apêl etholiadol amgen.

Yn ail, gall llwyddiant etholiadol hefyd arwain at broblemau newydd. Gall tensiwn ddatblygu rhwng cymedroli polisiau craidd ac ychwanegu atynt ar y naill law (er mwyn apelio at fwy o bleidleiswyr), ac aros yn drw i werthoedd gwreiddiol y blaid ar y llaw arall. Mae'n bosib na fydd neges newydd y blaid yn boblogaidd ymysg ei chefnogwyr selog oherwydd bod egwyddorion craidd wedi eu glastwreiddio. Gall bargeinio neu fod mewn llywodraeth gyda phleidiau eraill hefyd fod yn anodd i gefnogwyr plaid ei dderbyn, yn arbennig pan fydd y blaid wedi ei sellio ar wrthwynebiad i'r gyfundrefn bresennol a'r pleidiau traddodiadol sy'n gweithredu ynddi (Heinisch, 2003: 102). Pan fydd cefnogwyr yn teimlo bod eu plaid wedi datblygu i fod yn rhy 'gonfensiynol', mae'n bosib y bydd grwpiau newydd mwy eithafol yn cael eu creu i gynrychioli'r gwerthoedd gwreiddiol hynny sydd wedi cael eu bradychu gan y blaid 'gonfensiynol'. Gall y perygl hwn gynyddu yn achos pleidiau mewn llywodraeth, oherwydd yn aml bydd rhaid iddynt gyfaddawdu o ran eu haddewidion neu hyd yn oed gyfiawnhau polisiau sy'n hollol groes i'w hegwyddorion ideolegol (Mair, 2001: 111).

Yn drydydd, gall groesi'r trothwy llywodraethu fod yn beryglus iawn i bleidiau. Yn un peth, mae bod mewn llywodraeth yn gorfodi pleidiau i flaenoriaethu eu haddewidion manifesto, canolbwyntio ar yr hyn sydd fwyaf ymarferol o ran polisi, ac addasu eu polisiau i gyd-destunau gwleidyddol ac economaidd newidiol. Ond gall pleidiau nad ydynt yn llwyddo i gyflawni eu haddewidion hefyd gael eu beirniadu'n hallt gan eu cefnogwyr, a bydd perygl o golli cefnogaeth yn yr etholiad nesaf wrth i bleidleiswyr ffafrio pleidiau eraill y meint yn eu hytyried eu bod yn fwy abl i "fynd â'r maen i'r wal". Yn ogystal â hyn, mae bod yn rhan o lywodraeth glymblaid yn golygu yn anorfod y bydd yn rhaid cyfaddawdu ar egwyddorion wrth gytuno ar raglen bolisi ar y cyd. Yn aml, arweinir hyn at densiynau mewnol rhwng cynrychiolwyr y blaid mewn llywodraeth ac aelodaeth y blaid; gall pleidiau gael eu cosbi hefyd gan eu cefnogwyr yn yr etholiad nesaf am eu brad (Mair, 2001; Rihoux a Rüdiger, 2006). O ganlyniad i'r holl beryglon hyn, nid penderfyniad hawdd yw dewis bod mewn grym, yn arbennig i bleidiau sy'n ymgymryd â'r ddyletswydd hon am y tro cyntaf (Deschouwer, 2008). Bydd rhai pleidiau yn dod i'r casgliad fod y risg o fod mewn llywodraeth yn rhy fawr, a bod yn well ganddynt beidio â chroesi'r trothwy hwn a chanolbwyntio yn hytrach ar geisio dylanwadu ar bolisi trwy fargeinio deddfwriaethol. Ond

gall pleidiau hefyd benderfynu bod y risg hon yn werth ei chymryd, oherwydd y byddai bod mewn llywodraeth yn hybu'r cyfleoedd i ddylanwadu ar y broses bolisi.

Dylid nodi hefyd, wrth gwrs, y bydd plaid sydd yn methu cyflawni'i hamcanion yn gyson hefyd yn gorfod dygymod ag anfodlonrwydd aelodau â'i pholisïau a'i/neu'i strategaeth, ac o bosib wynebu brwydr i ailddiffinio'r agweddau hyn. Gall y tensiynau sydd ynghlwm wrth geisio cyflawni gwahanol amcanion hefyd effeithio ar berfformiad etholiadol plaid, oherwydd yn aml bydd etholwyr yn amharod i gefnogi pleidiau rhanedig (Taggart, 1998). Fel y soniwyd eisoes, gall colli pleidleisiau mewn etholiad beri i blaid ailystyried ei blaenoriaethau. Mae nifer o awduron wedi awgrymu y gall plaid ddod o dan bwysau i newid ei neges wleidyddol yn sgil methiant etholiadol, gan roi'r gorau i'w pholisïau cymhedrol ac ehangach a dychwelyd at amddiffyn gwerthoedd craidd y plaid (Harmel a Janda, 1994; Adams *et al.*, 2006). Mae'n bosib y ceisir gwneud hyn drwy herio awdurdod yr arweinyddiaeth, gyda gwahanol garfanau yn ymladd er mwyn ennill rheolaeth dros y plaid a'i hadnoddau trefniadol, syniadaethol a strategol. Bydd llwyddiant yr amryw ymdrechion hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ble y gorwedda grym o fewn y plaid (Harmel a Janda, 1994; Harmel *et al.*, 1995). Gall arweinyddiaeth gref sydd yn awyddus i fwrw ymlaen â'r broses o gymedroli ac ehangu apêl y plaid wrthsefyll galwadau gan yr aelodaeth i ddychwelyd at egwyddorion ideolegol pur. Ar y llaw arall, lle nad oes arweinyddiaeth o'r fath yn bodoli, neu lle bo grym oddi mewn i'r plaid yn nwylo'r aelodaeth, yna bydd plaid yn fwy tebygol o droi yn ôl i amddiffyn ei gwerthoedd craidd.

I gloi, mae'r adran hon wedi dadlau y bydd unrhyw plaid wleidyddol yn rhwym o wynebu nifer o gyfleoedd a chyfyngiadau wrth iddi groesi gwahanol drothwyon yn ystod ei hoes. Mae'r adran nesaf yn troi i ystyried i ba raddau y mae pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol mewn dau gyd-destun penodol – Cymru a Galisia – wedi wynebu'r un math o gyfleoedd a chyfyngiadau wrth iddynt ddatblygu o fod yn bleidiau bach ymylol, i fod yn bleidiau mewn llywodraeth ar lefel ranbarthol.

## **Cenedlaetholdeb lleiafrifol a datganoli yng Nghymru a Galisia**

### ***Y cefndir: Cenedlaetholdeb lleiafrifol cyn datganoli***

Mewn amryw astudiaethau academaidd, cynigir enghreifftiau Prydain a Sbaen fel dwy wladwriaeth a oedd gynt yn unedol, ond sydd wedi datganoli grym pellgyrhaeddol i'r lefel ranbarthol ar ffurf haen o lywodraeth ddemocrataidd newydd. Ceir gwahaniaethau pwysig rhwng y ffactorau a ysgogodd y prosesau hyn, amseru'r broses ddatganoli, a'r union gyfundrefn ddatganoledig a sefydlwyd yn y ddau le. Nid oes lle yma i ymhelaethu ymhellach ar y gwahaniaethau hyn. Yn hytrach, yr wyf am ddadlau yma fod datganoli fel y digwyddodd yng Nghymru ac yng Ngalisia, er gwaethaf y gwahaniaethau rhwng y ddwy broses, wedi cynnig cyfleoedd newydd i ddwy plaid a oedd yn ymylol yn y cyd-destun gwladwriaethol, i ddatblygu i fod yn actorion canolog yn y cyd-destun rhanbarthol. Cyn ymhelaethu ar y ffordd yr aeth y ddwy plaid ati i geisio cymryd mantais o'r cyfleoedd hyn, bydd yr adran hon yn rhoi gorolwg gryno o brofiadau etholiadol a gwleidyddol Plaid Cymru a'r BNG cyn datganoli, er mwyn pwysleisio arwyddocâd y broses honno iddynt ill dwy.

Sefydlwyd Plaid Cymru yn 1925, fel grŵp pwysu er mwyn amddiffyn a hybu'r iaith Gymraeg. Heb haen ranbarthol o lywodraeth am wyth deg mlynedd cyntaf ei bodolaeth, etholiadau i Dŷ'r Cyffredin oedd prif ffocws y blaid o'r dechrau. Ond aflwyddiannus, ar y cyfan, fu'r ymdrechion cynnar i ennill cefnogaeth etholiadol, a dim on 1.2 y cant o'r bleidlais yng Nghymru a enillwyd yn etholiad cyffredinol 1945. Bu'n rhaid aros tan is-etholiad Caerfyrddin yn 1966 cyn gweld buddugoliaeth etholiadol gyntaf y blaid, pan etholwyd Gwynfor Evans yn Aelod Seneddol (AS), cynrychiolaeth cyntaf y blaid yn Nhy'r Cyffredin. Ond collwyd y sedd hon yn yr etholiad cyffredinol nesaf. Fodd bynnag, bu ymdrechion newydd i ddenu cefnogwyr trwy ddatblygu safbwyntiau polisi newydd, er enghraifft ar yr economi yn yr 1970au ac, yn ystod yr 1980au, trwy farchnata'r blaid fel un sosialaidd, heddychol a blaengar ar faterion cymdeithasol ac amgylcheddol (Wyn Jones, 2007). Yna, yn ystod yr 1990au, mabwysiadwyd rhethreg 'Ewrop y Rhanbarthau' mewn ymdrech i fanteisio ar ddatblygiadau pwysig o ran integreiddio Ewropeaidd a oedd yn darogan dyfodiad math amgen o gyfundrefn wleidyddol lle y gallai cenedloedd hanesyddol fel Cymru chwarae rôl gyfartal â gwladwriaethau a chenedloedd eraill (Elias, 2008: 56–59). Gwelwyd peth cynnydd etholiadol yn sgil yr ymdrechion hyn. Adenillwyd cynrychiolaeth (dau AS) yn Nhy'r Cyffredin yn 1974 gyda 10.8 y cant o'r bleidlais Gymreig, ac fe gynyddwyd y gynrychiolaeth hon ymhellach i dri AS yn 1987, ac i bedwar AS o 1992 ymlaen. Ond, er gwaethaf y llwyddiannau hyn, dadleua Wyn Jones (2007) fod y blaid ar y cyfan wedi methu manteisio'n etholiadol ar gynnydd yn ei hygredd trwy gydol yr 1990au. Y ffactor bwysicaf wrth esbonio'r methiant hwn oedd y gyfundrefn etholiadol 'cyntaf-i'r-felin': y tu allan i gadarnleoedd y blaid yng ngogledd-orllewin a gorllewin Cymru, amhosib oedd ennill cefnogaeth ddigonol er mwyn sicrhau'r mwyafrif angenrheidiol gogyfer ag ethol AS Plaid Cymru. Teg yw dweud, felly, mai parhau'n rym gwleidyddol ymylol ar y lefel wladwriaethol fu tynged Plaid Cymru hyd ddiwedd yr 1990au.

Sefydlwyd y BNG bron i chwe deg mlynedd yn ddiweddarach na Phlaid Cymru, yn 1982, a hynny'n fuan wedi sefydlu haen o lywodraeth ranbarthol newydd yng Ngalisia (yn 1981). Fe'i crewyd fel clymblaid o wahanol bleidiau cenedlaetholgar llai ac iddynt hanes hwy o amddiffyn diwylliant Galisia a hawlio hunan-lywodraeth iddi (Elias, 2008: 77). Yn wahanol i Blaid Cymru, nid oedd cyfle o unrhyw fath i leisio dyheadau cenedlaetholgar yng Ngalisia nac yn Sbaen yn y degawdau a arweiniodd at sefydlu'r BNG. Er y cytunwyd ar Statud Ymreolaeth ar gyfer Galisia yn ystod cyfnod yr hyn a elwir yn Ail Weriniaeth Sbaen (1931–36), ni weithredwyd y statud honno a hynny oherwydd y Rhyfel Cartref a gychwynnodd yn 1936, ac a barodd hyd 1939. O dan unbeniaeth y Cadfridog Franco o 1939 ymlaen, gwaharddwyd unrhyw weithgarwch cenedlaetholgar yng nghaneddloedd lleiafrifol Sbaen. Fodd bynnag, yng Ngalisia, fel mewn rhannau eraill o'r wlad, dechreuwyd trefnu ymgyrchoedd dirgel o blaid hybu'r achos cenedlaethol o'r 1950au ymlaen (Beramendi a Núñez Seixas, 1996). Yn 1964, crëwyd yr Unión do Povo Galego (UPG) yn blaid Farcsaidd-Leninistaidd radical a fynnai hunanbenderfyniad i ddosbarth gweithiol Galisia, a hynny trwy ymrannu oddi wrth wladwriaeth Sbaen. Roedd yr UPG yn un o brif leisiau'r mudiad cenedlaetholgar erbyn yr 1970au. Sonnir ymhellach isod am y ffactorau a sbardunodd yr UPG i greu'r BNG. Digon yma yw nodi bod y BNG wedi tyfu o draddodiad o genedlaetholdeb tanddaearol a fabwysiadodd syniadaeth ac ieithwedd Farcsaidd radical er mwyn ceisio tansellio cyfundrefn wleidyddol gaeedig lle nad oedd cyfle i hybu'r prosiect cenedlaethol trwy sianelau democrataidd fel yng Nghymru.

Yn erbyn y cefndir hanesyddol hwn, gellir deall pam y bu datganoli yng Nghymru ac yng Ngalisia yn ddatblygiad mor arwyddocaol i Plaid Cymru ac i'r UPG/BNG. I'r cyntaf, oedd wedi gorfod cystadlu mewn etholiadau cyffredinol Prydeinig o dan amodau anffafriol ers dros saith deg o flynyddoedd, roedd creu sefydliad democrataidd penodol Gymreig am y tro cyntaf erioed yn ddatblygiad hollbwysig. Yn ogystal, byddai'r corff newydd yn cael ei ethol trwy gyfundrefn rannol-gyfrannol, a chafwyd gwared felly ar rwstr enfawr i'r dasg o groesi'r trothwy cynrychiolaeth a sicrhau llais cryf i genedlaetholdeb Cymreig o fewn sefydliad gwleidyddol Cymreig a fyddai'n datblygu polisiau penodol i Gymru. O'r herwydd, ymgyrchodd Plaid Cymru'n frwd o blaid Cynulliad Cenedlaethol i Gymru yn y refferendwm a gynhaliwyd yn 1997, er nad oedd y grymoedd a ragwelid ar gyfer y corff hwn yn ddigon pellgyrhaeddol yn nhyb y blaid. I'r ail, er bod y trawsnewid i ddemocratiaeth hefyd yn golygu creu sefydliadau gwleidyddol newydd ar lefel ranbarthol, gwrthwynebodd yr UPG y fframwaith cyfansoddiadol newydd a'r Statud Ymreolaeth a gytunwyd ar gyfer Galisia, oherwydd nad oeddent yn mynd yn ddigon pell i sicrhau hunanbenderfyniad i'r rhubarth. Ond, fel y trafodir ymhellach yn yr adran nesaf, buan y daeth y BNG (etifedd syniadaethol yr UPG o 1982 ymlaen) i ystyried y sffêr ddatganoledig newydd fel cyfle hollbwysig ar gyfer gwireddu'r prosiect cenedlaetholgar. Try'r adran nesaf at ystyried yn fwy manwl y cyfleoedd – a'r sialensau – a wynebodd Plaid Cymru a'r BNG yn dilyn creu sefydliadau datganoledig newydd yn y ddwy genedl.

### ***Cyfleoedd a sialensau cynrychiolaeth ddatganoledig I – Plaid Cymru (1999–2007)***

Prif amcan Plaid Cymru yn yr ymgyrch ar gyfer yr etholiadau cyntaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru oedd sicrhau llais cryf i'r mudiad cenedlaethol oddi mewn i'r corff hwn. I'r perwyl hwn, paratowyd y maniffesto mwyaf cynhwysfawr a manwl yn ei hanes; prif neges yr ymgyrch etholiadol oedd mai Plaid Cymru oedd yr unig blaid wirioneddol Gymreig a allai amddiffyn diddordebau a dyheadau pobl Cymru yn y Cynulliad (Plaid Cymru, 1999). Enillodd y blaid ymron i 30 y cant o'r bleidlais yn yr etholiad, a 17 allan o'r 60 o seddi yn y Cynulliad. Dyma oedd ei chanlyniad gorau erioed, "daeargryn tawel" yn nhyb ei llywydd ar y pryd, Dafydd Wigley (dyfynnir yn Wyn Jones a Trystan, 2000).

A'r Cynulliad cyntaf wedi ei ethol, trodd sylw Plaid Cymru at y dasg o ddylanwadu ar bolisi. Yn rhannol oherwydd y mwyafrif bach yn y refferendwm o blaid datganoli i Gymru ac yn rhannol er mwyn ei chyflwyno ei hun fel plaid gyfrifol ac aeddfed, blaenoriaeth Plaid Cymru yn y misoedd cyntaf oedd dangos i bobl Cymru fod y Cynulliad yn gorff a oedd yn gweithio, ac ac yn gorff a allai wneud gwahaniaeth i fywydau pobl Cymru trwy ddatblygu polisiau perthnasol ac amserol (cyfweiliadau 29 Mawrth 2008, 24 Ebrill 2008). Mewn geiriau eraill, rhoddwyd y pwyslais ar ddechrau llywodraethu dros Gymru o fewn y strwythurau datganoledig newydd, gan roi dyheadau'r blaid am rymoedd pellach i'r naill ochr am y tro. Yn y cyd-destun hwn, aethpwyd ati i geisio dylanwadu ar bolisi mewn

dwy ffordd. Yn gyntaf, ceisiwyd manteisio ar natur y Cynulliad fel “corff corfforaethol”<sup>7</sup> er mwyn datblygu consensws polisi trawsbleidiol. Rhagwelwyd y byddai’r pwyllgorau polisi yn gyrff hollbwysig yn y broses hon o adeiladu consensws polisi. I Blaid Cymru, paratoi’n ofalus ar gyfer trafodaethau’r pwyllgorau hyn a chyfrannu atynt fyddai’r dull mwyaf effeithiol o ddylanwadu ar bolisi yn y Cynulliad, er mwyn dechrau’r broses o “godi cenedl” yng Nghymru (cyfweiliad, 26 Mawrth 2008). Yn ail, mabwysiadwyd strategaeth wrthbleidiol adeiladol a phositif tuag at lywodraeth leiafrifol y Blaid Lafur (cyfweiliad, 24 Ebrill 2008). Byddai hyn yn caniatáu i’r Cynulliad weithio’n effeithiol, a’r gobaith oedd y byddai hynny yn ei dro yn hybu hygredd y corff newydd.

Fodd bynnag, gweddol aflwyddiannus fu ymdrechion cynnar Plaid Cymru i ddylanwadu ar bolisi oddi mewn i’r Cynulliad. Roedd nifer o resymau am hyn. Yn gyntaf, daeth yn amlwg yn fuan nad oedd y pwyllgorau polisi’n gweithio fel fforymau effeithiol i ddod o hyd i gonsensws polisi rhwng y gwahanol bleidiau. Yn hytrach, er y defnyddid y pwyllgorau fel cyfle i drafod gwahanol opsiynau polisi, yn amlach na pheidio byddai’r llywodraeth yn mabwysiadu polisi amgen nad oedd yn adlewyrchu trafodaethau’r pwyllgorau (cyfweiliad, 26 Mawrth 2008).<sup>8</sup> Yn ail, fe roddodd ethol Rhodri Morgan yn arweinydd newydd y Blaid Lafur yng Nghymru ym mis Chwefror 2000 bwrpas a chyfeiriad newydd i’r llywodraeth. Cytunwyd ar glymblaid rhwng Llafur a’r Democratiaid Rhyddfrydol yn fuan wedyn, gan greu llywodraeth fwyafrifol am y tro cyntaf yn y Cynulliad. Gyda hyn, roedd llai o gyfle i Blaid Cymru ddylanwadu ar bolisi trwy gytundebau â llywodraeth leiafrifol a ddibynnai ar gefnogaeth y gwrthbleidiau er mwyn parhau mewn grym (cyfweiliadau, 26 Mawrth 2008; 24 Ebrill 2008).

Fel y nodir uchod, bydd unrhyw blaid sy’n methu cyflawni’i hamcanion yn wynebu cwestiynau anodd oddi wrth ei haelodau a’i chefnogwyr. Yn achos Plaid Cymru, buan y dechreuodd y beirniadu ar berfformiad yr aelodau etholedig yn y Cynulliad. Roedd rhai yn anhapus â’r diffyg ffocws ar faterion ‘traddodiadol’ megis statws cyfansoddiadol Cymru, yr iaith Gymraeg a’r broblem o gynnal cymunedau Cymraeg gwledig. Er enghraifft, roedd nifer o aelodau Plaid Cymru yn gysylltiedig â sefydlu’r grwp pwyso Cymuned yn 2001, a fynnai ddwyn sylw at faterion megis yr argyfwng tai yn y Gymru wledig, a goblygiadau cymdeithasol a diwylliannol mewnfudo i ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Yn ogystal, crëwyd carfan y Triban Coch oddi mewn i’r Blaid i alw am fwy o ystyriaeth i werthoedd sosialaidd, ac am flaenoriaethu diwygio gwasanaethau cyhoeddus a lles yng Nghymru.

Nid aelodau Plaid Cymru yn unig a fu’n feirniadol o’i strategaeth yn ystod blynyddoedd cynnar datganoli. Er gwaethaf ei hymdrechion i ganolbwyntio ar ddatblygu polisiâu datganoledig newydd, roedd pleidiau eraill yn herio’r blaid o hyd i fod yn glirach ynghylch

<sup>7</sup> Yn wahanol i’r mwyafrif helaeth o sefydliadau gwleidyddol lle y gwahaniaethir rhwng y weithrediaeth a’r ddeddfwrfa (a’u cyfrifoldebau gwahanol dros gynnig a phasio polisiâu), ni fodolai’r gwahaniaeth hwn oddi mewn i’r Cynulliad. Yn hytrach, rhagwelid y byddai’r llywodraeth a’r gwrthbleidiau’n cydweithio i ddatblygu a phasio polisiâu. Am drafodaeth fanylach ar y model hwn, gweler Patchett (2003).

<sup>8</sup> Roedd rhai eithriadau i’r duedd hon. Er enghraifft, o dan gadeiryddiaeth Plaid Cymru, aeth y Pwyllgorau Materion Gwledig ac Addysg ati i gynnal adolygiad o bolisi’r iaith Gymraeg, gan arwain at gyhoeddi cynllun gweithredu cenedlaethol ar yr iaith yn dwyn y teitl *iaith Pawb* (cyfweiliadau, 26 Mawrth 2008, 24 Ebrill 2008).

ei dyheadau cyfansoddiadol hir-dymor. Fe'i cyhuddwyd o geisio tynnu sylw oddi wrth ei gwir awydd am annibyniaeth i Gymru. Oherwydd ansicrwydd ymhlith rhai unigolion blaenllaw ynglŷn â pherthnasedd nod cyfansoddiadol y blaid ar y pryd – 'rhyddid cenedlaethol llawn i Gymru o fewn yr Undeb Ewropeaidd'<sup>9</sup> – methwyd ag ymateb yn gryf i'r cyhuddiadau hyn. Yn sgil hynny, cynyddodd y canfyddiad bod y Blaid yn ceisio osgoi cwestiynau anghyfforddus ynglŷn â dyfodol cyfansoddiadol Cymru. Ar yr un pryd gwelwyd hefyd y pleidiau eraill yn ymateb i statws etholiadol a gwleidyddol newydd Plaid Cymru trwy addasu eu rhaglenni er mwyn mabwysiadu disgwrs fwy Cymreig ei naws a herio 'perchnogaeth' Plaid Cymru ar faterion megis yr iaith. Er enghraifft, ym mis Chwefror 2000 ailfrandiwyd y Blaid Lafur fel 'gwir blaid Cymru', her uniongyrchol i honiad tebyg Plaid Cymru yn yr etholiadau'r flwyddyn cynt. Roedd hyd yn oed lleisiau y tu mewn i'r Blaid Geidwadol yn dadlau fod angen mabwysiadu disgwrs wleidyddol fwy Cymreig mewn ymateb i'r cyd-destun ôl-ddatganoledig newydd (gweler, er enghraifft, Melding, 2003). Yn wyneb ymateb y pleidiau eraill yng Nghymru i bresenoldeb arwyddocaol Plaid Cymru yn y Cynulliad, roedd hi'n gynyddol anodd i Blaid Cymru gyfleu ei neges wleidyddol amgen (Wyn Jones a Scully, 2004).

Cyfrannodd yr holl ffactorau hyn at ddirywiad etholiadol yn etholiadau'r Cynulliad yn 2003 (cyfweiliadau, 29 Mawrth, 2008; 4 Ebrill 2008). Gyda'i chanran o'r bleidlais yn disgyn i 20.5 y cant, collodd y blaid bump o'i chynrychiolwyr. O'u cymharu â chanlyniadau 1999, ac i blaid a oedd yn disgwyl cynyddu ac nid colli pleidleisiau, roedd hwn yn ganlyniad ofnadwy. Fel y nodir uchod, yn aml gall colledion etholiadol difrifol sbarduno galwadau am newid mewn arweinyddiaeth, polisiau a strategaeth. Yn achos Plaid Cymru, clywyd galwadau o'r fath wedi etholiad 2003. Nid dyma'r tro cyntaf yn hanes y blaid i fethiant etholiadol arwain at alwadau am newidiadau o'r fath (gweler Elias, 2011). Ond gellir dadlau bod y ffaith fod y methiant etholiadol y tro hwn mor ddramatig (o'i gymharu a chanlyniadau 1999) a'i fod wedi wedi ei brofi mewn etholiadau rhanbarthol – y lefel 'graidd' i unrhyw blaid genedlaetholgar leiafrifol (Deschouwer, 2003) - yn gwneud y tensiynau hyn yn arbennig o ddifrifol. Galwodd rhai aelodau am ganolbwyntio o'r newydd ar egwyddorion cenedlaetholgar traddodiadol, ac yn y Gynhadledd Flynyddol gyntaf wedi'r etholiad fe gafwyd y drafodaeth gyntaf ar bolisi cyfansoddiadol ers canol yr 1990au. Mabwysiadwyd nod o 'annibyniaeth yn yr Undeb Ewropeaidd' fel amcan cyfansoddiadol hir-dymor. Ond bu eraill yn rhybuddio yn erbyn peryglon bod ag obsesiwn am annibyniaeth, gan ddadlau bod yn rhaid parhau â'r broses o drawsnewid Plaid Cymru i fod yn blaid fodern, eang ei hapêl, a fyddai'n gallu rheoli ar lefel ranbarthol yn y dyfodol agos (Taylor, 2004: 39; Elis Thomas, 2004). Amlygwyd y gwahanol safbwyntiau hyn yn glir yn ystod y gystadleuaeth i ethol arweinyddiaeth newydd, yn dilyn ymddiswyddiad leuan Wyn Jones fel Llywydd Plaid Cymru yn syth wedi'r etholiad. Er i Jones gael ei ailethol

<sup>9</sup> Fel y nodwyd eisoes, mabwysiadwyd ieithwedd 'rhyddid cenedlaethol llawn' yn yr 1990au, pan oedd nifer o ddatblygiadau ym maes integreiddio Ewropeaidd yn awgrymu y gallai cyfundrefn wleidyddol amgen esblygu, fel y gallai cenhedloedd hanesyddol fel Cymru chwarae rhan lawn heb fod angen annibyniaeth arnynt (h.y. bod yn wladwriaeth sofran). Ond erbyn degawd cyntaf y mileniwm newydd, roedd y gobelthion hyn am greu 'Ewrop y Rhanbarthau' yn pylu; i nifer o aelodau'r Blaid, roedd hi'n gynyddol amlwg nad oedd galw am 'statws cenedlaethol llawn' bellach yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun Undeb Ewropeaidd lle roedd gwladwriaethau sofran yn dal i fod yn hollbwerus a lle nad oedd rôl gydradd i endidau cenedlaetholgar megis Cymru. Am fwy ar hyn, gweler Elias (2008).

yn arweinydd Grwp Plaid Cymru yn y Cynulliad, dewiswyd Dafydd Iwan yn Llywydd. Fel ymgyrchydd brwd dros yr iaith ers blynyddoedd maith ac fel ffigwr diwylliannol amlwg, roedd ei benodiad yn amlygu awydd yr aelodaeth i fynnu mwy o sylw i egwyddorion craidd cenedlaetholgar gan rengoedd uwch y Blaid (cyfweiliad, 9 Mai 2008).

Dwysaodd y tensiynau mewnol hyn wrth i ddirywiad etholiadol Plaid Cymru gael ei gadarnhau yng nghanlyniadau'r etholiadau Ewropeaidd ym mis Mehefin 2004, a'r etholiad cyffredinol ym mis Mai 2005.<sup>10</sup> Yn fuan wedi'r etholiad olaf yma, sefydlwyd grwp lobbïo newydd o fewn y Blaid, Dewis, gan nifer o aelodau blaenllaw a chyn-gynrychiolwyr seneddol megis Dafydd Wigley a Cynog Dafis. Ei bwrpas oedd amddiffyn y safbwynt fod yn rhaid paratoi o ddirif i fanteisio ar y cyfle gwirioneddol i fod yn blaid lywodraethol yng Nghymru. Ond gwrthodwyd galwadau'r grwp i ystyried posibilïadau clymbleidio o fewn y Cynulliad gan Gyngor Cenedlaethol y blaid, gan nad oedd yn barod i lastwreiddio ei pholisïau ar gais y Ceidwadwyr nac unrhyw blaid arall (BBC, 2005).

Er hyn, gwelwyd newid pwysig yn rôl Plaid Cymru fel y brif wrthblaid yn y Cynulliad i lywodraeth Lafur leiafrifol (cyfweiliad, 24 Ebrill 2008). Roedd gwers y tymor cyntaf wedi ei dysgu: achubwyd ar bob cyfle i fanteisio ar angen y llywodraeth am gefnogaeth y pleidiau eraill a hynny er mwyn sicrhau consesiynau polisi. Yn arwyddocaol, roedd parodrwydd amlwg ymysg y gwrthbleidiau i gydweithio i drechu'r llywodraeth pe na chytundid i'r consesiynau hyn; byddai'r profiadau adeiladol hyn yn braenaru'r tir ar gyfer trafodaethau clymbleidio wedi etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2007 (cyfweiliad, 9 Mai 2008).<sup>11</sup> Trwy weithredu yn y modd hwn, nod Plaid Cymru oedd dangos i'w haelodau a'i chefnogwyr sut y gellid gweithredu'n effeithiol yn y Cynulliad er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau polisi. Ar yr un pryd, aeth gweithrediaeth y Blaid ati i ddiwygio ei rhaglen bolisi a'i delwedd er mwyn datblygu "brand o genedlaetholdeb a oedd yn llai o risg i bobl ei gefnogi" (cyfweiliad, 24 Ebrill 2008). I'r perwyl hwn, ar ddechrau 2006 newidiwyd enw'r Blaid a mabwysiadwyd logo newydd. Cafwyd hefyd ymgynghoriad polisi cyhoeddus dros gyfnod o chwe mis er mwyn datblygu agenda wleidyddol a fyddai'n ymateb i anghenion a phryderon etholwyr Cymru. Bu'r ymdrechion hyn i adennill tir etholiadol a dylanwad gwleidyddol yn rhannol lwyddiannus. O'u herwydd, a hefyd diolch i ymgyrch etholiadol fwy trefnus a phroffesiynol nag yn y gorffennol (cyfweiliad, 24 Ebrill 2008), cynyddodd y blaid ei chanran o'r bleidlais a'i nifer o seddi yn y Cynulliad (o 12 i 15). Ond, yn bwysicaf oll, ac oherwydd methiant y Blaid Lafur i sicrhau mwyafrif digonol i ffurfio llywodraeth ar

<sup>10</sup> Yn etholiadau Ewrop, disgynodd canran Plaid Cymru o'r bleidlais o 29.6 y cant yn 1999 i 17.4 y cant; golygai hyn golli un o'r ddau Aelod Seneddol Ewropeaidd a enillwyd yn 1999. Yn yr etholiad cyffredinol y flwyddyn ganlynol, er na chollwyd nifer fawr o bleidleisiau – roedd pleidlais y blaid i lawr 1.7 y cant o'i chymharu ag etholiad 2001 – cafwyd colledion symbolaidd hollbwysig pan fethwyd ag adennill Ynys Môn (prif sedd darged y Blaid wedi iddi gael ei cholli i Lafur yn 2001) ac fe gollwyd Ceredigion i'r Democratiaid Rhyddfrydol (sedd a oedd wedi bod ym meddiant Plaid Cymru er 1992).

<sup>11</sup> Cafwyd enghraifft o allu'r blaid i flacmelio'r llywodraeth yn y drafodaeth ar y pecyn cyllidebol a gynigiwyd gan y Blaid Lafur ym mis Rhagfyr 2006. Datganodd y gwrthbleidiau y byddent yn rhwystro'r pecyn oni bai i'r llywodraeth roi mwy o arian tuag at rai meysydd polisi penodol. Yn y pen draw, aeth Plaid Cymru ati i gytuno ar fwy o arian ym maes addysg yn gyfnewid am atal rhag pleidleisio ar y pecyn cyllidebol diwygiedig. Caniataodd hyn i'r Blaid Lafur basio'r gyllideb er gwaethaf gwrthwynebiad y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac i Blaid Cymru ennill consesiynau ariannol pwysig ym maes polisi addysg.

ei phen ei hun, cafodd Plaid Cymru ei hun mewn sefyllfa i drafod y posibilrwydd o ffurfio llywodraeth glymblaid yn y Cynulliad.

Ceir ystyriaeth fanwl o'r trafodaethau clymbleidio yn Osmond (2007), ac fe astudir isod brofiad Plaid Cymru o lywodraethu am y tro cyntaf erioed. Cyn gwneud hynny, fodd bynnag, bydd yr adran nesaf yn troi at ystyried sut y bu i'r BNG ymaddasu i ddatganoli yng Ngalisia. Er bod y cyd-destun gwleidyddol yn dra gwahanol, dangosir bod y BNG wedi wynebu nifer o'r un cyfleoedd a phroblemau â Phlaid Cymru wrth iddi ymdrechu i sicrhau llais cryf i'r mudiad cenedlaetholgar yn y sffêr wleidyddol Galisaidd.

### ***Cyfleoedd a sialensau cynrychiolaeth ddatganoledig II – y BNG (1982–2005)***

Yn wahanol i Blaid Cymru, dylanwadu ar bolisi, yn hytrach nag ennill pleidleisiau, oedd prif amcan y BNG yn y cyfnod wedi sefydlu senedd etholedig yng Ngalisia yn 1982 (cyfweiliad, 24 Gorffennaf 2008). Fel y nodwyd eisoes, gwrthwynebodd yr UPG gyfansoddiad newydd Sbaen a gytunwyd yn 1978, yn ogystal â'r Statud Ymreolaeth a basiwyd drwy refferendwm yng Ngalisia yn 1981. Mabwysiadodd yr UPG strategaeth wrthgyfundrefnol tuag at yr etholiadau rhanbarthol cyntaf yn 1982 ac, er iddi gystadlu yn yr etholiad ac ennill tri chynrychiolydd yn y senedd, fe'u diarddelwyd am wrthod tyngu llw i gyfansoddiad Sbaen. Yna pan sefydlwyd y BNG yn fuan wedi'r etholiad, parhaodd y ddisgwrs wrthgyfundrefnol, strategaeth a oedd wedi ei gwreiddio'n ddwfn yn egwyddorion ideolegol radical yr UPG (Beiras, yn Fernán Vello a Pillado Mayor, 2004: 109–123). Ei nod oedd herio a thrawsnewid y *status quo*, er mwyn creu cyfundrefn amgen a fyddai'n cryfhau awtonomi'r rhanbarth.

Newidiodd amcanion y BNG yn 1985, fodd bynnag. Er i un o'i chynrychiolwyr gael ei ethol i'r senedd, ni chafodd y blaid gefnogaeth etholiadol (1.4 y cant o'r bleidlais yn unig). Daeth arweinyddiaeth y blaid i dderbyn mai trwy weithio o fewn y sefydliadau presennol yn unig y gellid sicrhau llais cryf – ac o ganlyniad, dylanwad dros bolisi – i'r mudiad cenedlaethol. I wneud hyn, roedd cynyddu apêl etholiadol y blaid yn hollbwysig. I'r perwyl hwn, aethpwyd ati i gymedroli syniadaeth graidd y blaid, gan droi cefn ar yr ideoleg Farcсаidd-Leninistaidd a choleddu gwerthoedd cymdeithasol-ddemocrataidd yn eu lle (Barreiro-Rivas, 2003: 175). Cymedrolwyd polisi cyfansoddiadol y BNG hefyd; yn lle ymreolaeth drwy ymrannu oddi wrth Sbaen, dechreuwyd galw am gydnabyddiaeth sefydliadol o statws cenedlaethol Galisia, a hynny fel rhan o broses ehangach o greu Sbaen amlwladwriaethol (*pluri-national*). Yn ogystal, ehangwyd ei rhaglen wleidyddol i gynnwys polisiau newydd ar yr amgylchedd, cydraddoldeb rhyw, a'r Undeb Ewropeaidd (Elias, 2008: 86–9, 95). Cafwyd hefyd broses o 'ehangu mewnol', wrth i wahanol fudiadau cenedlaetholgar llai ddewis ymuno â'r BNG; gwelodd hyn y BNG yn ei sefydlu ei hun fel yr unig blaid genedlaetholgar yng Ngalisia (Gómez-Reino, 2011). Erbyn canol yr 1990au, roedd y pwyslais ar bortreadu'r BNG fel plaid wleidyddol o ddifrif, a oedd yn barod i gydweithio a chyfaddawdu â phleidiau eraill, ac a oedd yn ddigon aeddfed i ymgymryd â dyletswyddau llywodraethu ar lefel ranbarthol. I'r perwyl hwn, aethpwyd ati i ddatblygu



cysylltiadau newydd â phleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol tebyg mewn rhannau eraill o Sbaen a thu hwnt.<sup>12</sup>

Fel y nodir uchod, mae'r llenyddiaeth academaidd sy'n trafod y newidiadau ideolegol a strategaethol yng nghyd-destun pleidiau gwleidyddol eraill yn awgrymu eu bod yn aml yn newidiadau poenus iawn a allai greu tensiynau newydd. Yn achos y BNG, fodd bynnag, ni welwyd y tensiynau hyn yn codi. Gellir esbonio hyn drwy edrych ar berfformiad etholiadol y blaid yn ystod y cyfnod rhwng 1985 a 1997. Dim ond 1.5 y cant o'r bleidlais enillodd y BNG yn etholiad rhanbarthol 1985, ond erbyn 1997 roedd y ganran hon wedi cynyddu'n syfrdanol i 24.0 y cant. Dyrchafwyd y BNG yn ail rym gwleidyddol yng Ngalisia y tu ôl i'r blaid asgell dde wladwriaethol, y Partido Popular de Galicia (PPdeG), a oedd wedi tra-arglwyddiaethau ar wleidyddiaeth y rhanbarth ers canol yr 1980au. Yn syml, felly, llwyddodd y BNG i osgoi nifer o'r peryglon sydd ynghlwm wrth fynd ar drywydd pleidleisiau oherwydd bod ei strategaeth etholiadol rhwng 1985 ac 1997 mor llwyddiannus (cyfweiliadau, 11 Gorffennaf 2008, 24 Gorffennaf 2008).

Ond daeth diwedd ar y twf etholiadol hwn ar ôl 1997. Yn etholiadau rhanbarthol 2001 methodd y blaid â chynyddu ei chanran o'r bleidlais ymhellach, ac fe gollwyd un sedd seneddol. Noda Pallarès (2002) nifer o ffactorau a arweiniodd at y canlyniad hwn, gan gynnwys ymgyrch wrthgenedlaetholgar gref gan y pleidiau gwladwriaethol (yn arbennig y PPdeG), gwrthwynebiad cyffredinol ymysg etholwyr tuag at ymgyrch derfysgol y grwp cenedlaetholgar radical ETA yng Ngwlad y Basg ar y pryd, a'r ymdeimlad ymysg pleidleiswyr yng Ngalisia fod y BNG yn dal i fod yn blaid radical wrthsefydliadol (er gwaetha'r ymdrechion i wrthdroi'r ddelwedd hon). Rhaid hefyd tynnu sylw at ffactor arall hollbwysig, sef y ffaith bod y pleidiau eraill yng Ngalisia wedi ymateb i'r bygythiad etholiadol cenedlaetholgar er mwyn ceisio tansellio apêl y BNG. Mabwysiadodd y PPdeG eisoes yn yr 1980au raglen genedlaetholgar gymhedrol (Lagares Díez, 2003). Ers canol yr 1990au, roedd y Partido Socialista de Galicia (PSdeG-PSOE) hefyd wedi ymdrechu i ailfrandio ei neges er mwyn rhoi iddi fwy o berthnasedd rhanbarthol (Jiménez Sánchez, 2003). O ganlyniad i hyn, yn etholiadau rhanbarthol 2001, adenillodd y sosialwyr eu statws fel yr ail blaid wleidyddol yng Ngalisia.

O ystyried yr hyn a ddywedwyd uchod am Blaid Cymru ac am bleidiau gwleidyddol yn fwy cyffredinol, nid yw'n syndod fod cwmp etholiadol y BNG wedi arwain at gyfnod o raniadau ac anghytuno o fewn y blaid. Clywyd lleisiau mewnol yn cyhuddo'r blaid o droi cefn ar egwyddorion cenedlaetholgar traddodiadol ac o fod yn rhy 'sefydliadol'. Roedd gwrthwynebiad hefyd i'r cydweithio rhwng y BNG a phleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol eraill yng Nghatalonia a Gwlad y Basg; ystyrid y pleidiau hynny'n rhy wahanol i'r BNG gan eu bod yn llai radical a mwy asgell dde o ran ideoleg (cyfweiliad, 2 Gorffennaf 2008, 3 Gorffennaf 2008). Fel yng Nghymru, ymadawodd rhai aelodau i ffurfio grwp gwleidyddol

<sup>12</sup> Er enghraifft, yn 1998 arwyddwyd Cytundeb Barcelona ar y cyd gyda'r PNV a'r blaid genedlaetholgar Catalanicaidd Convergència i Unió; yn y ddogfen, ymrwymodd y dair blaid i gydweithio er mwyn sicrhau gwell cynrychiolaeth i'w 'cenedloedd hanesyddol' oddi mewn i'r wladwriaeth Sbaeneg. Yn ogystal, yn 1994 sefydlodd y BNG gysylltiad gyda'r Gyngair Rydd Ewropeidd, a gynrychiolai bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol yn y Senedd Ewropeaidd.

amgen a allai amddiffyn y tir gwleidyddol radical a ildwyd gan y BNG.<sup>13</sup> Ond cafwyd hefyd genhedlaeth newydd o aelodau o fewn y BNG yn gwrthwynebu dychwelyd at ideoleg a strategaeth yr 1980au. Manteisiwyd ar gefnogaeth y garfan hon er mwyn rhoi ar waith nifer o newidiadau i drefniant mewnol y BNG; o ganlyniad, lleihawyd dylanwad y lleisiau 'traddodiadol' oddi mewn i'r blaid, gan gryfhau, ar yr un pryd, awtonomi criw newydd o arweinyddion a oedd yn awyddus i barhau ar hyd llwybr cymedrol ideolegol gyda'r nod o lywodraethu ar lefel ranbarthol (cyfweiliadau, 29 Mehefin, 2 Gorffennaf). Aeth arweinyddiaeth y BNG hefyd ati i wella cysylltiadau â'r pleidiau Galisaidd eraill o fewn y Senedd, yn arbennig y PPdeG a oedd yn llywodraethu, gyda'r bwriad o gryfhau'r ddelwedd o blaid aeddfed a oedd yn ymrwymedig i gydweithio a chyfaddawdu er mwyn sicrhau y polisïau gorau i Galisia (cyfweiliad, 10 Ionawr, 2009).

Yn wahanol i Blaid Cymru, fodd bynnag, nid arweiniodd y newidiadau trefniadol hyn at adennill y tir etholiadol a gollwyd mewn etholiadau cynt. Yn etholiadau rhanbarthol 2005 lleihaodd canran y BNG o'r bleidlais i 19.5 y cant ac fe gollwyd pedair sedd seneddol. Noda Pallarès *et al.* (2006) ac eraill (cyfweiliadau, 3 Gorffennaf 2008, 11 Gorffennaf 2008) mai ychydig iawn o newid a fu ar raglen wleidyddol y blaid er gwaetha'r strwythur trefniadaethol a'r strategaeth seneddol newydd; fel mewn etholiadau cynt, nid oedd yn rhaglen i blesio cenedlaetholwyr mwy radical na phleidleiswyr anghenedlaetholgar cymhedrol asgell chwith. Yn 2005, felly, teg yw dweud fod y BNG yn dal i geisio ymaddasu'n effeithiol i'r sialens o sicrhau llais cryf a dylanwad polisi i'r mudiad cenedlaetholgar yn maes gwleidyddol Galisia.

Er gwaetha'r canlyniad etholiadol hwn, fodd bynnag, ac yn sgil methiant y PPdeG i ennill mwyafrif o seddau yn y Senedd, daeth cyfle i'r BNG glymbleidio â'r PSOE-PsdeG a bod yn blaid mewn llywodraeth am y tro cyntaf. Mae'r adran nesaf yn ystyried profiadau Plaid Cymru a'r BNG wedi iddynt groesi'r trothwy llywodraethu.

### ***Plaid Cymru a'r BNG mewn llywodraeth am y tro cyntaf***

Fel y nodir uchod, nid penderfyniad hawdd yw croesi'r trothwy llywodraethu, er y bydd nifer o bleidiau yn ystyried bod y cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi yn fwy pwysig na'r peryglon sydd ynghlwm wrth ymgymryd â'r rôl hon. Daeth Plaid Cymru a'r BNG i'r un casgliad pan gododd y cyfle i fod yn bleidiau mewn llywodraeth. Yn y cyfundeabau clymbleidio, cafodd y BNG gyfrifoldeb dros bortffolios Materion Gwledig, Diwylliant a Chwaraeon, Cydraddoldeb a Lles, ac Arloesi a Diwydiant; cafodd Plaid Cymru gyfrifoldeb dros Faterion Gwledig, Diwylliant a Threftadaeth, a Datblygu Economaidd.

A'r ddwy blaid bellach mewn llywodraeth, cafwyd ymdrechion newydd ganddynt i fagu hygredd drwy ymddangos yn gymwys yn eu swyddi. Does ryfedd; wedi'r cwbl ceir digon o dystiolaeth fod etholwyr yn rhoi pwys mawr ar gymhwyster a hygredd wrth benderfynu sut i bleidleisio mewn etholiad (Clarke *et al.*, 2009). Bydd y math hyn o ystyriaethau yn arbennig o bwysig i bleidiau mewn llywodraeth am y tro cyntaf,

<sup>13</sup> Er enghraifft, sefydlwyd Nós-Unidade Popular (Nós-UP) yn 2001. Mae'r blaid yn arddel y safbwyntiau gwrthgyfalafol a chenedlaetholgar radical a nodweddiad raglen wleidyddol y BNG yn yr 1980au cynnar.

oherwydd eu hawydd i brofi eu haeddfedrwydd, a'u parodrwydd a'u gallu i ymgymryd â'u dyletswyddau newydd (Deschouwer, 2008). Gwnaethpwyd hyn yn fwy effeithiol gan Blaid Cymru na'r BNG. Yn achos y cyntaf, canolbwyntiwyd ar danseilio delwedd y blaid fel "a collection of wild-eyed romantics and language zealots" (Wyn Jones a Scully, 2008). Er enghraifft, gwelwyd y Gweinidog Diwylliant a Threftadaeth, Rhodri Glyn Thomas, yn ymddiswyddo'n gyflym wedi cyfres o 'gaffes' cyhoeddus a beryglai ddelwedd y blaid fel un gyfrifol a chymwys. I'r BNG, un o'r sialensau mwyaf oedd delio ag ymchwilliad i brosiect uchelgeisiol a ddechreuwyd gan gyn-lywodraeth y PPdeG, sef i adeiladu canolfan ddiwylliannol newydd yn Santiago de Compostela (y *Ciudad de Cultura*). Roedd awgrymiadau fod cyn-lywodraeth y PPdeG wedi camwario arian ar y prosiect a rhoi ffafriaeth i gontractwyr â chysylltiadau teuluol neu wleidyddol â'r blaid. Ond cyhuddwyd Gweinidog Diwylliant y BNG, Ángela Bugallo, gan y pleidiau eraill o gamreoli'r ymchwilliad, a'i ddefnyddio fel cyfle hawdd i sgorio pwyntiau gwleidyddol yn hytrach na bod yn asesiad gwrthrychol. Niweidiodd y beirniadaethau hyn hygyrdded y BNG fel plaid lywodraethol (cyfweiliad, 10 Gorffennaf 2008).

Bu'n rhaid i'r ddwy blaid hefyd ymarfael â'r cyfyngiadau ymarferol mewn grym wrth greu polisiâu. Yn y lle cyntaf, roedd yn rhaid i Blaid Cymru a'r BNG wneud dewisiadau anodd ynglŷn â blaenoriaethau polisi, a'r hyn y gellid ei wneud yn realistig. Ceir yr enghraifft gliriaf o hyn yng Nghymru, pan fu'n rhaid i Rhodri Glyn Thomas ystyried dichonoldeb ymrwymiad maniffesto ei blaid i ariannu sefydlu papur newydd Cymraeg dyddiol. Bu'n rhad iddo ddatgan y byddai'r arian a fyddai ar gael ar gyfer symud ymlaen â'r prosiect hwn dipyn yn llai na'r disgwyl. Yn ymarferol, byddai'r swm yn annigonol ar gyfer lansio papur newydd *Y Byd*, prosiect a oedd eisoes wedi bod ar y gweill ers rhai blynyddoedd. Parodd y penderfyniad i drwch aelodau'r blaid brotestio fod y Gweinidog wedi troi ei gefn ar yr egwyddor o hybu'r iaith Gymraeg trwy'r cyfryngau printiedig (cyfweiliadau, 26 Mawrth 2008, 9 Mai 2008). Yng Ngalisia, bu'n rhaid i'r BNG wynebu sefyllfa yr un mor anodd. Roedd y blaid yn gyfrifol am bolisiâu amaethyddiaeth a physgota, meysydd lle roedd dimensiwn Ewropeaidd cryf i'r broses bolisi. Roedd y BNG wedi bod yn gwrthwynebu'r dylanwad Ewropeaidd hwn yn frwd ers blynyddoedd maith (Elias, 2008: 80–86). Mewn llywodraeth, fodd bynnag, rhaid oedd derbyn y realiti yma a gweithio oddi mewn i'w gyfyngiadau. Roedd y perygl yn glir: cael ei chyhuddo gan ei chefnogwyr o droi cefn ar ddegawdau o brotestio yn erbyn ymyrraeth yr Undeb Ewropeaidd yn niwydiant amaeth a physgota Galisia. Ond llwyddodd y BNG i osgoi hyn trwy barhau i gondemnio'r diffyg cyfleoedd i ddatblygu polisi amgen a hynny oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ar y broses bolisi yn y meysydd hyn. Yn y modd hyn, gwarchododd y BNG ei hun rhag cael ei beirniadu am anghofio ei hegwyddorion Ewrosgeptigol trwy bortreadu'r gwleidyddion ym Mrwsel fel y 'dynion drwg' a orfodai bolisiâu niweidiol ar y diwydiannau amaeth a physgota (cyfweiliad, 11 Ionawr 2009).

Yn ail, bu'n rhaid i'r ddwy blaid gyfaddawdu â'u partneriaid mewn llywodraeth er mwyn sicrhau parhad y glymblaid. I'r BNG, golygai hyn ailystyried ei safbwynt ar ddyfodol cyfansoddiadol Galisia. Mewn trafodaethau ar ddiwygio Statud Ymreolaeth y rhanbarth, dangosodd y BNG barodrwydd i gymedroli ei galwadau am fwy o ymreolaeth ranbarthol er mwyn cyrraedd consensws â'r PSdeG-PSOE ar ailddiffinio pwerau'r sefydliadau

datganoledig yng Ngalisia (Gómez Reino, 2006).<sup>14</sup> Bu'n rhaid i Plaid Cymru hefyd gyfaddawdu â'r Plaid Lafur, er enghraifft, ar ffioedd dysgu i fyfyrwyr prifysgolion. Er gwaethaf ymrwymiad maniffesto'r blaid i beidio â chyflwyno ffioedd dysgu yng Nghymru (Plaid Cymru, 2007), mewn llywodraeth daeth o dan bwysau i gytuno i'r polisi hwn (BBC, 2009). Achosodd hyn rwyg amlwg rhwng arweinyddiaeth y blaid yn y Cynulliad a'r aelodaeth; penderfynodd Cyngor Cenedlaethol y Plaid i barhau i wrthwynebu ffioedd dysgu a hynny er gwaethaf penderfyniad y llywodraeth glymblaid.

Yn drydydd, mae Plaid Cymru a'r BNG hefyd wedi dod o dan bwysau i gyflawni'r holl addewidion a wnaethpwyd ar ddechrau'r cyfnod mewn llywodraeth. Gwelir hyn yn glir parthed amcanion cyfansoddiadol y ddwy blaid. Wedi'r cyfan, prif amcan polisi'r pleidiau hyn yw cynyddu ymreolaeth wleidyddol y cenhedloedd lleiafrifol a gynrychiolant, ac roedd bod mewn llywodraeth yn cynnig cyfle pwysig i wthio am ddatganoli grym ymhellach i'r lefel ranbarthol. Fel y nodir uchod, er gwaethaf ymdrechion y BNG i wthio'r agenda gyfansoddiadol, methwyd â chytuno i newidiadau yn Statud Ymreolaeth Galisia a hynny oherwydd y diffyg consensws trawsbleidiol. O safbwynt cyfansoddiadol, felly, gellid dweud bod y BNG wedi methu cyflawni ei phrif amcan polisi tra bu mewn grym, sef cynyddu ymreolaeth wleidyddol Galisia. Yng Nghymru, llwyddodd Plaid Cymru i sicrhau bod ymrwymiad i gynnal refferendwm ar fwy o bwerau i'r Cynulliad yn cael ei gynnwys yng nghytundeb clymbleidio *Cymru'n Un* a gytunwyd gyda'r Plaid Lafur yn 2007. Bu rhai amheuan ynglŷn â gallu'r glymblaid i gadw at yr ymrwymiad hwn (*Western Mail*, 2008). Mewn datganiad ym Mehefin 2010, fodd bynnag, ymrwymodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, Cheryl Gillan, i gynnal refferendwm cyn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2011. Bydd rhaid aros i weld beth fydd canlyniad y bleidlais honno, a'r goblygiadau i Plaid Cymru. Ar wahân i'r mater yma, lleisiwyd pryder hefyd ymysg yr aelodaeth ynglŷn â datblygiadau polisiau craidd eraill, megis deddfwriaeth newydd ar yr iaith Gymraeg (cyfweiliad, 9 Mai 2008). Gallai methu symud ymlaen ar y materion hyn fod yn beryglus iawn i'r blaid pan ddaw'r etholiad nesaf.

Dengys yr enghreifftiau hyn fod Plaid Cymru a'r BNG wedi gorfod wynebu'r un math o sialensau ag unrhyw blaid mewn llywodraeth, ac yn arbennig bleidiau mewn llywodraeth am y tro cyntaf. Fel y mae'r llenyddiaeth academaidd yn tystio, gall ymateb plaid i'r sialensau hyn gael sgil-ffeithiau pwysig ar ei pherfformiad etholiadol; wedi'r cyfan, bydd ei chefnogwyr yn pwysu a mesur perfformiad y blaid mewn llywodraeth, ac yn ystyried i ba raddau y bu'r blaid yn effeithiol yn y rôl hon. Yn achos Plaid Cymru, ni fydd etholwyr Cymru yn cael cyfle i wneud hyn tan etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2011. Ond mae'r BNG eisoes wedi gorfod gwynebu ei phrawf etholiadol cyntaf fel plaid mewn llywodraeth, ac wedi profi drosti ei hun sut y gall dadrithiad cefnogwyr â'r profiad o lywodraethu gael ei fynegi'n etholiadol. Yn etholiadau rhanbarthol Mai 2009, cwmpodd cefnogaeth etholiadol y BNG ac mi gollwyd un sedd yn y Senedd i'r PPdeG. Rhoddodd hyn fwyafrif digonol i'r PPdeG ffurfio llywodraeth newydd. Gellir priodoli'r lleihad hwn yn y gefnogaeth etholiadol yn rhannol i'r ffactorau a grybwyllwyd uchod, sef amheuan ynglŷn â hygredded y BNG fel plaid lywodraethol, a methiant y blaid i ennill pwerau cyfansoddiadol newydd

<sup>14</sup> Yn y diwedd, ni ddiwygiwyd y Statud Ymreolaeth oherwydd gwrthwynebiad y brif wrthblaid, y PPdeG, i'r newidiadau a gynigiwyd gan y llywodraeth glymblaid.

i'r rhanbarth. Gellir ychwanegu at hyn ymdeimlad cynyddol ymysg rhai o aelodau'r blaid fod y BNG wedi colli ei haniaen radical, ac wedi datblygu i fod yn ormod o ran o'r 'sefydliad gwleidyddol' drwy gydweithio yn rhy agos â'r pleidiau gwladwriaethol. Bu'r sioc etholiadol yma yn sbardun i drafodaethau o'r newydd ar drefniant mewnol y BNG, ac ar ei strategaeth a'i syniadaeth (gweler Gómez-Reino, 2011).

## Casgliadau

Bwriad yr astudiaeth hon oedd ymchwilio i'r ffyrdd y mae pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol yn newid ac ymaddasu i wahanol sefyllfaoedd etholiadol a gwleidyddol ar hyd eu hoes. Cyflwynwyd tystiolaeth empiraidd o sut yr aeth dwy blaid benodol – Plaid Cymru a'r BNG – ati i ymateb i'r cyfleoedd newydd a grëwyd yn sgil datganoli grym i lefel ranbarthol o lywodraeth yng Nghymru a Galisia. Yn ogystal, gwelwyd yr amryw sialensau a all godi wrth i'r pleidiau hyn ymgymryd â'r dasg o ddatblygu o fod yn bleidiau protest ymylol cyn datganoli, i fod yn bleidiau mewn grym. Yr hyn a ddaw'n glir o'r dystiolaeth hon yw nad yw profiadau'r ddwy blaid hyn wrth iddynt geisio ymaddasu i ennill cynrychiolaeth, bod yn brif wrthbleidiau, ac yna bod yn bleidiau mewn llywodraeth, yn unigryw. Mae Plaid Cymru a'r BNG wedi gorfod wynebu, a cheisio datrys, amryw o broblemau cyfarwydd i nifer o bleidiau eraill sydd wedi profi newid pwysig yn eu statws etholiadol a/neu wleidyddol yn ystod eu hoes. Fodd bynnag, mae'r problemau hyn yn arbennig o anodd i bleidiau bach neu bleidiau un-pwync sy'n awyddus i fynd i'r afael â'r newid o fod yn rhai sy'n ymgyrchu dros raglen wleidyddol gul ar ymylon y gyfundrefn wleidyddol, i fod yn bleidiau canolog a chanddynt raglen bolisi gynhwysfawr a all apelio at ystod eang o etholwyr.

Wrth gwrs, astudiaeth o ddwy blaid genedlaetholgar lleiafrifol yn unig a gyflwynir yma; mae angen gwaith empiraidd pellach er mwyn ategu dilysrwydd y ddatl hon. Dylai'r gwaith hwnnw ehangu ar yr astudiaeth bresennol mewn tair ffordd: trwy astudio pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol eraill; trwy ystyried y cyd-destun amlhaenog sydd yn realiti i'r mwyafrif helaeth o bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol; a thrwy gymharu profiadau pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol o ddatganoli a phrofiadau pleidiau unoliaethol sydd hefyd yn bresennol yn y cyd-destun ranbarthol. Er enghraifft, tra bod yr astudiaeth hon wedi canolbwyntio ar ddatblygiad y pleidiau hyn ar un haen o lywodraeth yn unig – yr haen ranbarthol – bydd y mwyafrif o bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol yn ceisio sicrhau llais ar haenau llywodraethol eraill hefyd (er enghraifft, y lefel wladwriaethol a'r lefel Ewropeaidd). Gall y dimensiwn amlhaenog hwn ddylanwadu ar sut yr â pleidiau ati i gyflawni eu hamcanion, ac ar eu llwyddiannau/problemau wrth gyflawni'r amcanion hynny. Mae hefyd yn werth nodi nad pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol yn unig sydd wedi gorfod ymaddasu i'r cyd-destun gwleidyddol ac etholiadol newydd a grëir o ganlyniad i ddatganoli grym. Ceir tystiolaeth gynyddol o'r sialensau sy'n wynebu pleidiau unoliaethol wrth ymateb i brosesau o'r math (Fabre *et al.*, 2005; Hopkin a Bradbury, 2006). Dylid ystyried i ba raddau y mae'r sialensau hyn yn ymdebygu i, neu yn wahanol i, y rhai hynny a wynebir gan bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol. Er gwaetha'r cyfyngiadau hyn, fodd bynnag, mae'r astudiaeth hon yn gam cyntaf pwysig tuag at well dealltwriaeth o'r modd y ceisia pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol ddylanwadu ar eu cyd-destun sefydliadol, gwleidyddol, etholiadol a phleidiol; a sut y bydd y cyd-destun hwnnw'n dylanwadu arnynt hwythau yn ei dro.

## Llyfryddiaeth

Adams, J., Clark, M., Ezrow, L. a Glasgow, G. (2006) 'Are niche parties fundamentally different from mainstream parties? The causes and the electoral consequences of western European parties' policy shifts, 1976-1998', *American Journal of Political Science*, 50: 3, 513-29.

Barreiro Rivas, X.L. (2003) 'Da UPG ao BNG: O proceso organizativo do nacionalismo galego', yn X.M. Rivera Otero (gol.), *Os Partidos Políticos en Galicia*. Vigo: Edicións Xerais de Galicia.

BBC (2005) 'Plaid rejects assembly coalition', 20 Mehefin 2005. Ar gael ar: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/4113114.stm> (darllenwyd 20 Mai 2009).

BBC (2009) 'Student top-up fees split Plaid', 22 Chwefror 2009. Ar gael ar: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/7904549.stm> (darllenwyd 27 Mai 2009).

Beramendi, J.G. a Núñez Seixas, X.M. (1996) *O Nacionalismo Galego*. Santiago de Compostela: A Nosa Terra.

Clarke, H.D., Sanders, D., Stewart, M.C. a Whitely, P. (2009) *Performance Politics and the British Voter*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Deschouwer, K. (2003) 'Political parties in multi-layered systems', *European Urban and Regional Studies*, 10: 2, 213-26.

Deschouwer, K. (2008) *New Parties in Government*. Llundain: Routledge.

Elias, A. (2008) *Minority Nationalist Parties and European Integration: A Comparative Study*. Llundain: Routledge.

Elias, A. (2011) 'Plaid Cymru', yn A. Elias a F. Tronconi (goln.), *From Protest to Power: Autonomist Parties and the Challenges of Representation*. Awstria: Wilhelm Braumüller.

Elias, A. a Tronconi, F. (i ddod, 2011) 'From protest to power: Autonomist parties in government', *Party Politics*.

Elis Thomas, D. (2004) 'No room for nationalism', *Epolitix*, 16 Medi 2004. Ar gael ar: [www.dodonline.co.uk/engine.asp?lev1=4&lev2=38&menu=71&showPage=article&id=135&article\\_display=all](http://www.dodonline.co.uk/engine.asp?lev1=4&lev2=38&menu=71&showPage=article&id=135&article_display=all) (Cyrchwyd 10 Tachwedd 2008).

Fabre, E., Maddens, B., Swenden, W. a Pogorelis, R. (2005) 'Partis politiques nationaux en crise? Organisation des partis et décentralisation. Une comparaison de l'Espagne et du Royaume Uni', *Res Publica*, 47: 1, 36-57.

Fernán-Vello, M.A. a Pillado Mayor, F. (2004) *A Estrela na Palabra. Novas Conversas con Xosé Manuel Beiras*. A Coruña: Edicións Laiovento.

Gómez-Reino, M. (2011) 'The Bloque Nacionalista Gallego', yn A. Elias a F. Tronconi (goln.), *From Protest to Power: Autonomist Parties and the Challenges of Representation*. Awstria: Wilhelm Braumüller.

Harmel, R. a Janda, K. (1994) 'An integrated theory of party goals and party change', *Journal of Theoretical Politics*, 6: 3, 259–87.

Harmel, R., Heo, U., Tan, A. a Janda, K. (1995) 'Performance, leadership, factions and party change: an empirical analysis', *West European Politics*, 18: 1, 1–33.

Heinisch, R. (2003) 'Success in opposition – failure in government: explaining the performance of right-wing populist parties in public office', *West European Politics*, 26: 3, 91–130.

Hopkin, J. a Bradbury, J. (2006) 'British statewide parties and multi-level politics', *Publius: The Journal of Federalism*, 36: 1, 135–52.

Hough, D. a Jeffery, C. (2006) 'An introduction to multi-level electoral competition', yn D. Hough a C. Jeffery (goln.), *Devolution and Electoral Politics*. Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, ff. 2–13.

Jiménez Sánchez, F. (2003) 'O PSdeG-PSOE (1973–2001): 'Un caso de débil institucionalización', yn X.M. Rivera Otero (gol.), *Os Partidos Políticos en Galicia*. Vigo: Edicións Xerais de Galicia.

Keating, M. (2001) *Nations Against the State, The New Politics of Nationalism in Quebec, Catalonia and Scotland*. Basingstoke: Palgrave.

Lagares Díez, N. (2003) 'O Partido Popular de Galicia', yn X.M. Rivera Otero (gol.), *Os Partidos Políticos en Galicia*. Vigo: Edicións Xerais.

Lynch, P. (2011) 'The Scottish National Party', yn A. Elias a F. Tronconi (goln.), *From Protest to Power: Autonomist Parties and the Challenges of Representation*. Awstria: Wilhelm Braumüller.

Mair, P. (2001) 'The green challenge and political competition: how typical is the German experience', *German Politics*, 10: 2, 99–116.

Meguid, B. (2005) 'Competition between unequals: the role of mainstream party strategy in niche party success', *American Political Science Review*, 99: 3, 347–58.

Melding, D. (2003) *New Dawn or Sunset Boulevard – What Role for the Welsh Conservative Party?* Araith Flynyddol Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth, 27 Hydref 2003.

Moreno, L. (2001) *The Federalization of Spain*. London: Routledge.

Müller-Rommel, F. (2002) 'The lifespan and the political performance of Green Parties in Western Europe', *Environmental Politics*, 11: 1, 1–13.

- Müller-Rommel, F. a Pridham, G. (1991) *Small Parties in Western Europe*. Llundain: Sage.
- Osmond, J. (2007) *Crossing the Rubicon: Coalition Politics Welsh-style*. Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig.
- Pallarès, F. (2002) 'Las elecciones autonómicas gallegas de 2001', yn Instituto de Derecho Público, *Informe Comunidades Autónomas 2001*. Barcelona: Instituto de Derecho Público, tt. 607–25.
- Pallarès, F., Lago, I. a Muñoz, J. (2006) 'The 2005 autonomous election in Galicia: The end of conservative hegemony', *Regional and Federal Studies*, 16: 4, 481–94.
- Patchett, K. (2003) 'The new constitutional architecture', yn J. Osmond a J. Barry Jones (goln.), *Birth of Welsh Democracy: The First Term of the National Assembly for Wales*. Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig.
- Pedersen, M. (1982) 'Towards a new typology of party life-spans and minor parties', *Scandinavian Political Studies*, 5: 1, 1–16.
- Plaid Cymru (1999) *Maniffesto Plaid Cymru 1999*. Caerdydd: Plaid Cymru.
- Plaid Cymru (2007) *Gwna Wahaniaeth! Manifesto Plaid Cymru 2007*. Caerdydd: Plaid Cymru.
- Poguntke, T. (2002) 'Green parties in national governments: from protest to acquiescence?', *Environmental Politics*, 11: 1, 133–45.
- Rihoux, B. a Rüdiger, W. (2006) 'Analyzing Greens in power: setting the agenda', *European Journal of Political Research*, 45: s1, 1–33.
- Sartori, G. (1976) *Parties and Party Systems. A Framework for Analysis*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Strøm, K. (1990) 'A behavioral theory of competitive political parties', *American Journal of Political Science* 34: 2, 565–98.
- Strøm, K. a Müller, W. (1999) 'Political parties and hard choices', yn K. Strøm a W. Müller (goln.), *How Political Parties in Western Europe Make Hard Decisions*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, tt. 1–35.
- Taggart, P. (1998) 'A touchstone of dissent: Euroscepticism in contemporary west European party systems', *European Journal of Political Research*, 33, 363–88.
- Taylor, G. (2004) 'Political parties', yn J. Osmond (goln.), *End of the Corporate Body. Monitoring the National Assembly for Wales, December 2003–March 2004*. Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig.
- Western Mail (2008) 'Race against time for early referendum', *Western Mail*, 14 Mawrth 2008.



Wyn Jones, R. (2007) *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Wyn Jones, R. a Scully, R. (2004) 'Must Plaid lose?', *Agenda*, Haf 2006: 60–62.

Wyn Jones, R. a Scully, R. (2008) *Wales Devolution Monitoring Report: January 2008*. Llundain: Constitution Unit.

Wyn Jones, R. a Trystan, D. (2000) 'A "quiet earthquake": the first national elections to the National Assembly for Wales', CREST Working Paper, rhif 85, Medi 2000.

**Dr W. Gwyn Lewis**

**Addysg Ddwyieithog yn  
yr unfed ganrif ar hugain:  
adolygu'r cyd-destun  
rhyngwladol**

---

Rhif **7** Ionawr 2011 • ISSN 1741-4261

**Gwerddon**

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

# Addysg Ddwyeithog yn yr unfed ganrif ar hugain: adolygu'r cyd-destun rhyngwladol

Dr W. Gwyn Lewis

## Cyflwyniad

Gyda chyhoeddi *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Ebrill 2010, mae'n amserol bwrw golwg ar addysg cyfrwng Cymraeg a dwyeithog yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain yng nghyd-destun datblygiad addysg ddwyeithog ar y llwyfan rhyngwladol. Gan gydnabod mai 'twf addysg cyfrwng Cymraeg oedd un o ddatblygiadau mwyaf nodedig system addysg Cymru yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 4) honnir y bydd y *Strategaeth* arloesol hon yn 'crisialu ac yn ffurfioli . . . nod (Llywodraeth y Cynulliad) o barhau i arwain y byd ym maes addysg mewn a thrwy iaith leiafrifol' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 5). Cyfeirir hefyd at y ffaith fod cymunedau dwyeithog ac amlieithog ledled Ewrop a'r byd yn cydnabod ein llwyddiant, ac yn defnyddio'r system addysg cyfrwng Cymraeg fel enghraifft o arfer gorau i'w hefelychu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

I bwrpas yr erthygl hon, defnyddir y term 'addysg cyfrwng Cymraeg a dwyeithog' i gyfeirio at yr amrywiaeth o sefyllfaoedd addysgu a dysgu yng Nghymru lle defnyddir y Gymraeg (a'r Saesneg) i raddau gwahanol wrth gyflwyno'r ddarpariaeth, gan arwain at ddatblygu pob unigolyn i fod yn hyderus ddwyeithog. Er mai fel 'Ysgol Gymraeg Aberystwyth' y cyfeirir at yr ysgol Gymraeg gyntaf i'w sefydlu yn y cyfnod 'modern' (25 Medi 1939), roedd yr ysgol honno yn defnyddio rhywfaint ar y Saesneg ar gyfer addysgu a dysgu. Yn ôl adroddiad cyntaf AEM ar yr ysgol (13 Chwefror 1948), er mai Cymraeg oedd iaith gyffredinol yr addysgu a'r chwarae, roedd y plant yn dysgu caneuon gwerin Saesneg, yn dysgu rhifydddeg drwy gyfrwng y Saesneg yn y dosbarth hynaf, ac yn cael gwersi iaith a llenyddiaeth Saesneg trwy gyfrwng yr iaith honno (Baker, 2010). Byth er hynny, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi rhoi sylw i ddatblygu Cymraeg a Saesneg eu disgyblion, ac yn hynny o beth gellir eu galw yn 'ysgolion dwyeithog' yn yr ystyr eu bod yn anelu at sicrhau bod pob disgybl yn datblygu i fod yn ddwyeithog. Cydnabyddir yn llawn bod diffyg eglurder o ran yr hyn a olygir gan dermau megis 'cyfrwng Cymraeg' a 'dwyeithog' wedi creu ansicrwydd ac amwysedd dros y blynyddoedd (Redknap, 2006: 10).

Yn ogystal â gwerthfawrogi rôl arweiniol Cymru ym maes addysg ddwyeithog yn rhyngwladol, mae'r *Strategaeth* hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi 'ein bod yn ymwybodol o'r patrymau a'r modelau sydd ar gael mewn cymunedau eraill' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 10) ledled Ewrop a'r byd lle mae defnyddio mwy nag un iaith yn rhan arferol o fywyd bob dydd i blant a phobl ifanc, er mwyn i ni ddeall eu perthnasedd i'n sefyllfa benodol ni yng Nghymru. Gan fod yna enghreifftiau helaeth o systemau addysg ar draws y byd sy'n llwyddo i integreiddio dwyeithrwydd neu amlieithrwydd yn eu darpariaeth, pwysleisir bod y 'Strategaeth hon yn ystyried y cyd-destun amlieithog, rhyngwladol' hwnnw (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 10).

Yn rhyngwladol, felly, gadewch i ni ystyried beth yw nodweddion datblygol addysg ddwyieithog yn yr unfed ganrif ar hugain y dylem fod yn ymwybodol ohonynt? Er bod arbenigwyr ledled y byd wedi bod wrthi'n ymchwilio i'r maes er canol y 1960au, gan geisio diffinio a dadansoddi cymhlethdod ac effeithiolrwydd amrywiol raglenni addysg ddwyieithog mewn gwahanol wledydd, y canlyniad anochel y daw ysgolheigion yn y maes iddo yw mai 'a simple label for a complex phenomenon' (Baker, 2006: 213) yw'r term 'addysg ddwyieithog' yn rhyngwladol heddiw.

Yma, yng Nghymru, mae'r cymhlethdod hwnnw'n amlycach nag erioed wrth i addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog erbyn heddiw gwmpasu amrywiaeth helaeth o arferion a dulliau – o'r wers 'Gymraeg ail iaith' mewn ysgol cyfrwng Saesneg yn naill begwn y *continuum* dwyieithog i addysg a gyflwynir bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg (ac eithrio Saesneg fel pwnc) yn y pegwn arall. Dyma'r 'kaleidoscopic variety' y cyfeiriodd Colin Baker ato yn 1993: 'There exists a wide variety of bilingual education provision in Wales. In between basically monolingual Welsh and monolingual English schools in Wales, there is the widest variety of practice of bilingual education' (Baker, 1993: 15).

Adlewyrchir hyn yn y *Strategaeth* pan gydnabyddir bod y term 'darpariaeth ddwyieithog' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio amrywiaeth eang o leoliadau addysgu a dysgu lle defnyddir y Gymraeg (a'r Saesneg) i raddau gwahanol:

gall 'ysgolion dwyieithog' gynnwys yr holl ysgolion hynny lle cyflwynir cyfran helaeth o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, yr ysgolion hynny lle ceir dwy ffrwd – ffrwd cyfrwng Cymraeg a ffrwd cyfrwng Saesneg – a addysgir ar wahân, a'r ysgolion hynny lle yr addysgir dim ond ychydig elfennau o'r cwricwlwm neu yr addysgir nifer fach yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn colegau addysg bellach yn benodol, gall darpariaeth ddwyieithog gyfeirio at sefyllfaoedd lle yr addysgir dosbarthiadau ar yr un pryd yn y ddwy iaith, neu lle mae cyrsiau yn cynnwys modiwlau cyfrwng Cymraeg. (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 2.14)

Pwysleisiwyd yr angen am ddiffiniad cliriach o'r hyn a olygir wrth 'addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog' yng Nghymru yn gyson yn y gorffennol (Lewis, 2008b; Jones, 2010) ac mae'r dyfyniad a ganlyn, o adroddiad Estyn ar Ysgol Gyfun Glantaf, Caerdydd, yn 2005, yn adlewyrchu'r cymhlethdod sy'n bodoli wrth i ni geisio diffinio a dadansoddi beth yn union a olygir wrth 'ddarpariaeth ddwyieithog' yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain: 'Ysgol gyfun *ddynodedig ddwyieithog* . . . yw Ysgol Gyfun *Gymraeg Glantaf*' (Estyn, 2005).

Fodd bynnag, mae ymdrech Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar i geisio diffinio a chategoreiddio ysgolion yn ôl y darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007) yn mynd ran o'r ffordd tuag at roi i ni ddiffiniadau cynhwysfawr, er y cydnabyddir yn y *Strategaeth* y gall y deilliannau ieithyddol amrywio'n sylweddol rhwng y mathau gwahanol o addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a restrir yn y gwahanol gategorïau: 'nid yw darpariaeth ddwyieithog bob amser yn sicrhau bod unigolyn yn datblygu i fod yn siaradwr dwyieithog' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 2.15).

Yn un o'r llyfrau mwyaf diweddar a chynhwysfawr yn y llenyddiaeth ryngwladol ar addysg ddwyieithog, *Bilingual Education in the 21<sup>st</sup> Century: A Global Perspective*, y

mae Ofelia García yn pwysleisio fel y mae addysg ddwyieithog wirioneddol yn golygu cyflwyno cynnwys pynciol trwy gyfrwng dwy neu fwy o ieithoedd mewn ffordd integredig a phwrpasol – nid dim ond gwersi ail iaith yn unig. Pwysleisir ganddi fod y ffordd yr integreiddir yr ieithoedd a'r cynnwys pynciol yn y cwricwlwm yn amrywio llawer rhwng gwahanol fodelau o raglenni addysg ddwyieithog ar draws y byd, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau: 'What makes bilingual education complex is that one has to think not only of pedagogy, approaches and methodology, but also of how to allocate, arrange, and use the two or more languages in instruction' (García, 2009a: 290). Dyma rai o'r penderfyniadau mwyaf creiddiol sy'n wynebu addysgwyr mewn sefyllfaoedd dwyieithog – gan gynnwys Cymru - yn ymarferol o ddydd i ddydd.

## Y modelau addysg ddwyieithog 'traddodiadol'

O grynhoi casgliadau'r llenyddiaeth eang a ysgrifennwyd am addysg ddwyieithog yn rhyngwladol dros yr hanner can mlynedd diwethaf, mae'n amlwg fod gwahanol 'fathau' o raglenni addysg ddwyieithog yn arwain at ddeilliannau ieithyddol amrywiol o safbwynt y disgybl unigol.

W. F. Mackey (1970) oedd un o'r arbenigwyr cyntaf i geisio diffinio a dosbarthu'r 90 o batrymau gwahanol o addysg ddwyieithog a oedd ar gael ddeugain mlynedd yn ôl; erbyn heddiw ymdrechwyd i fireinio dosbarthiad gwreiddiol Mackey yn nhermau **nodau** ac **amcanion** gwahanol raglenni. Gwelodd yr hanner can mlynedd diwethaf arbenigwyr amlwg fel Baker (2006: 213–18) yn datblygu teipoleg addysg ddwyieithog sy'n ceisio diffinio a gwerthuso gwahanol fodelau ar draws y byd sy'n arwain at ddwyieithrwydd ac at lythrennedd deuol (sef y gallu i symud yn hyderus ac yn esmwyth rhwng ieithoedd at ddibenion gwahanol, wrth i afael disgyblion ar sgiliau llythrennedd yn y ddwy iaith ddatblygu). Dadleuir bod datblygu llythrennedd deuol yn bwysig gan y gall gynorthwyo datblygiad deallusol unigolion trwy wella eu gallu i feddwl, deall a mewnnoli gwybodaeth mewn dwy iaith (Estyn, 2002).

Fodd bynnag, nid yw pob model dwyieithog yn arwain at lythrennedd deuol a dwyieithrwydd llawn o safbwynt yr unigolyn. Trwy gyfeirio at yr hyn a eilw yn 'ffurfiau gwan (neu ostyngol)' a 'ffurfiau cryf (neu gynyddol)' ar addysg ddwyieithog, gwahaniaethodd Baker (1993, 1996, 2006) rhwng rhaglenni sy'n arwain at 'ddwyieithrwydd' a rhaglenni sy'n defnyddio dwy iaith yn yr addysgu ond yn arwain at ddim ond 'unieithrwydd' yn y pen draw. Adlewyrchir hyn yng nghyd-destun yr amrywiaeth eang o leoliadau addysgu a dysgu yng Nghymru sy'n dod o dan y term 'darpariaeth ddwyieithog', gyda'r deilliannau dwyieithog yn amrywio'n sylweddol rhyngddynt (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). Yn ychwanegol, rhaid cofio bod yna ffactorau allanol y tu hwnt i'r gwahanol fodelau o addysg ddwyieithog sy'n effeithio ar ddeilliannau ieithyddol pob un ohonynt. Cydnabyddir na all y gyfundrefn addysg – ar ei phen ei hun – sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n hyderus ddwyieithog, gan fod yna amrywiaeth helaeth o ffactorau allanol sy'n rhyngweithio â'i gilydd mewn modd cymhleth gan ddylanwadu ar y graddau y mae siaradwyr yn defnyddio'r ieithoedd gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle (Baker, 1993, 2003b, 2006; Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

Mae'r tablau a ganlyn gan Baker (2006: 215–16) yn crynhoi prif nodweddion y gwahanol fodelau 'gwan' a 'chryf' ar addysg ddwyieithog a adwaenir ganddo:

<b>WEAK FORMS OF BILINGUAL EDUCATION FOR BILINGUALS (SUBTRACTIVE)</b>				
<b>Type of Program</b>	<b>Typical Type of Child</b>	<b>Language of the Classroom</b>	<b>Societal and Educational Aim</b>	<b>Aim in Language Outcome</b>
TRANSITIONAL	Language Minority	Moves from minority to majority language	Assimilation /Subtractive	Relative Monolingualism
MAINSTREAM	Language Majority	Majority Language with L2/FL lessons	Limited Enrichment	Limited Bilingualism
SEPARATIST	Language Minority	Minority Language (out of choice)	Detachment / Autonomy	Limited Bilingualism

<b>STRONG FORMS OF BILINGUAL EDUCATION FOR BILINGUALISM AND BILITERACY (ADDITIVE)</b>				
<b>Type of Program</b>	<b>Typical Type of Child</b>	<b>Language of the Classroom</b>	<b>Societal and Educational Aim</b>	<b>Aim in Language Outcome</b>
IMMERSION	Language Majority	Bilingual with initial emphasis on L2	Pluralism and Enrichment. Additive	Bilingualism & Biliteracy
MAINTENANCE / HERITAGE LANGUAGE	Language Minority	Bilingualism with emphasis on L1	Maintenance, Pluralism and Enrichment. Additive	Bilingualism & Biliteracy
TWO WAY / DUAL LANGUAGE	Mixed Language Minority & Majority	Minority and Majority	Maintenance, Pluralism and Enrichment. Additive	Bilingualism & Biliteracy
MAINSTREAM BILINGUAL	Language Majority	Two Majority Languages. Pluralism	Maintenance, & Biliteracy and Enrichment. Additive	Bilingualism

Gan gyfeirio at y rhaglenni hynny a labelir yn rhai 'gwan neu ostyngol', y mae Baker (2006: 225) yn crynhoi eu deilliannau fel hyn: 'Bilingualism and biliteracy is rarely the outcome'. Ac yng nghyd-destun rhai o'r sefyllfaoedd cyfrwng Saesneg hynny yng Nghymru lle mae addysgu Cymraeg Ail Iaith ar ei wannaf, onid i gategori 'Mainstream' y perthyn hynny ?

Mainstream (with Foreign Language Teaching)

This type is sometimes referred to as a 'drip-feed' language programme – which highlights the kind of language element in mainstream schooling with lessons of ½ hour per day in the Foreign Language/Second Language.

The aim/outcome of the programme is described as: rarely produces functionally bilingual children. A very limited knowledge of a foreign language tends to be the typical outcome for the mass of the language majority.

Ar y llaw arall, deilliannau ieithyddol bwriadol y rhaglenni hynny a labelir yn rhai 'cryf neu gynyddol' yw dwyieithrwydd, llythrennedd deuol, a diwylliant deuol (Baker, 2006: 228). Er bod y ffurfiau cryf hyn ar addysg ddwyieithog – *Dual Language* (Iaith Ddeuol), *Immersion* (Trochi), a *Heritage Language Education* (Addysg Iaith Treftadaeth) – i gyd yn rhannu'r deilliannau ieithyddol cyffredin hyn, y mae yna wahaniaethau sylfaenol rhyngddynt, fel a amlinellir gan Baker (2006: 242):

**Immersion** bilingual education differs from **Dual Language** bilingual schools in the language backgrounds of the students. Immersion schools usually contain only language majority children learning much or part of the curriculum through a second language (e.g. English speaking children learning through the medium of French in Canadian schools). Dual language bilingual schools aim to contain a balanced mixture of children from two (or more) different language backgrounds (e.g. from Spanish speaking and English speaking homes in the US). **Dual Language** bilingual schools differ from **Heritage Language** (developmental maintenance) schools in aiming for more of a balance of majority and minority language children. Heritage Language education is comparatively more concerned with preservation of ethnic language, ethnic culture and, in many cases, has a large preponderance of language minority children. The type of school possible in a neighbourhood is often determined by the demographic and sociolinguistic character of the school population (e.g. the size of one or more language minority groups, the presence of recent or more established immigrants, the numbers of majority language speakers).

O'n safbwynt ni yng Nghymru, mae'n bwysig sylweddoli mai cyfuniad o ddulliau 'cryf' y modelau a adwaenir fel '**addysg drochi**' ac '**addysg iaith treftadaeth**' sy'n nodweddu ein rhaglenni addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mwyaf effeithiol. Wrth i fwy a mwy o blant o gefndiroedd di-Gymraeg fanteisio ar y ddarpariaeth, mewn nifer o ysgolion ledled Cymru addysgir disgyblion o gartrefi Cymraeg ochr yn ochr â disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn yr un dosbarthiadau. I'r plant hynny sy'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith, mae'r ddarpariaeth yn anelu at atgyfnerthu ac ymestyn eu sgiliau iaith Gymraeg drwy amrywiaeth eang o brofiadau cwricwlaidd; dyma nodweddion **addysg iaith treftadaeth** (*heritage language education*). Ond i'r plant hynny sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg, darpariaeth **addysg drochi** a geir (Lewis, 2004; 2006; 2008a; 2008b). Dyma un o brif sialensau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ein cyfnod: tra bod angen i ysgolion barhau i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith (os nad unig iaith) y cartref a'r gymdogaeth, rhaid iddynt hefyd sicrhau bod dysgwyr y mae eu Cymraeg yn llawer llai cadarn yn cael eu trochi mewn digon o weithgareddau cyfrwng Cymraeg i'w galluogi i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl – a hynny, yn amlach na pheidio, o fewn yr un dosbarthiadau â'i gilydd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

Mewn arbrawf addysgol yng Nghanada yn y 1960au i ddatblygu dwyieithrwydd mewn iaith leiafrifol y mae gwreiddiau **addysg drochi** ac erbyn hyn mae wedi ehangu ac ymestyn i rannau o Ewrop a thu hwnt: Awstralia, Gwlad y Basg, Catalonia, De Affrica, y Ffindir, Hwngari, Hong Kong, Iwerddon, Seland Newydd, Singapore (Baker, 2006; García, 2009a) – a Chymru, wrth gwrs, lle mae'r trigain mlynedd diwethaf wedi gweld cynnydd

arwyddocaol yn nifer y rhieni di-Gymraeg (a di-Saesneg erbyn hyn) sy'n dewis addysg drochi ar gyfer eu plant (Lewis, 2008b). Yn ôl un o'r arolygon mwyaf cynhwysfawr o addysg drochi yn y blynyddoedd diweddar (Johnstone, 2002), y mae dros fil o astudiaethau ymchwil wedi'u cynnal er canol y 1960au i'r modd y mae rhaglenni trochi llwyddiannus wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar addysg ddwyieithog ledled y byd trwy sicrhau bod plant yn dod yn rhugl yn yr iaith leiafrifol heb unrhyw effeithiau negyddol ar eu cyrhaeddiad yn yr iaith fwyafrifol (Cummins, 2008a:2). Mae gwaith ymchwil gan arbenigwyr rhyngwladol dros y chwarter canrif diwethaf - megis Swain a Lapkin (1982), Genesee (1983, 1984, 1987); Hickey (1997); Swain a Johnson (1997); Swain (1997); Jones (1997); Laurén (1997); Arnau (1997); Genesee a Gándara (1999); Lasagabaster (2001); De Courcy (2002); a Cenoz a Gorter (2008) – i gyd yn tueddu i gytuno ynghylch effeithiolrwydd addysg o'r fath.

Er bod mwyafrif helaeth yr ymchwil i addysg drochi yn pwysleisio manteision addysg o'r fath, mae angen bod yn ymwybodol fod peth ymchwil diweddar, fodd bynnag, yn cyfeirio at rai materion sydd angen sylw yng nghyd-destun dysgwyr yn trin a thrafod gwybodaeth bynciol drwy gyfrwng eu hail iaith. Oherwydd llwyddiant addysg drochi yng Nghanada, fe'n rhybuddir rhag cyffredinoli wrth ystyried addysg drochi mewn gwledydd eraill. Yng Nghanada, ymwneud â dwy iaith ryngwladol o statws uchel (Ffrangeg a Saesneg) y mae addysg drochi, tra mewn gwledydd eraill (megis Cymru) mae addysg o'r fath yn ymwneud ag iaith fwyafrifol ac iaith leiafrifol fel cyfryngau ar gyfer addysgu a dysgu (Baker, 2006).

Gan dynnu ar ganfyddiadau ymchwil dros y 25 mlynedd diwethaf, mae Brentnall (2009) yn cwestiynu i ba raddau y gall y profiad 'trochi' sicrhau datblygiad academaidd uchel trwy gyfrwng ail iaith (neu iaith 'ychwanegol' fel yn achos disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol) heb roi ystyriaeth benodol i'r iaith ei hun yn y broses ddysgu (gweler Harley a Swain, 1984; Davison, 1990; Cameron, Moon a Bygate, 1996; Ofsted, 1999; Nassaji, 2000). Cyfeirir yn benodol ganddo at dystiolaeth ymchwil sy'n awgrymu nad yw adnoddau ieithyddol disgyblion mewn sefyllfa drochi yn ddigon cyfoethog a chaboledig **bob amser** iddynt allu deall cymhlethdod y cysyniadau sy'n ymhlyg mewn deunyddiau academaidd mewn modd ystyrion (Brentall, 2009: 43). Mae hyn yn cadarnhau canfyddiadau Fortune, Tedick a Walker (2008: 71–96) a ddaeth i'r casgliad fod yr angen am gynllunio sut i gyflwyno gwybodaeth bynciol trwy'r ail iaith yn fwiadus yn dod yn gynyddol bwysig mewn sefyllfaoedd trochi ac yn un o'r materion mwyaf allweddol y dylai addysg ddwyieithog fynd i'r afael ag ef i'r dyfodol. Wrth i addysg drochi ddatblygu ymhellach yma yng Nghymru, gyda nifer y plant o gefndiroedd di-Gymraeg a di-Saesneg sy'n manteisio ar y ddarpariaeth yn cynyddu, mae'r neges hon yn allweddol bwysig i ninnau o ran hyfforddiant ac addysg gychwynol (a mewn-swydd) athrawon.

Un o'r trafodaethau mwyaf diweddar ynghylch dysgu cynnwys pynciol trwy gyfrwng ail iaith yw'r un gan Myriam Met o Brifysgol Maryland (2008) lle mae hi'n tynnu sylw at y ffaith fod rhai testunau mewn pynciau megis y gwyddorau cymdeithasol yn llawn o gysyniadau haniaethol sydd mor ddibynnol ar **iaith** i alluogi'r disgyblion wneud synnwyr ohonynt (Met, 2008). Yn ogystal, mae hi'n nodi fod iaith gwerslyfrau a thestunau mathemateg yn gallu bod yn heriol i ddisgyblion mewn sefyllfaoedd trochi oherwydd nad ydynt wedi'u strwythuro yn yr un ffordd â ffurfiau eraill o destunau esboniadol. Yng nghyd-destun darllen ac ysgrifennu testunau gwyddoniaeth, fe honna fod yr un peth yn wir oherwydd eu bod yn gyforiog o iaith academaidd (a all fod yn anghyfarwydd i'r disgyblion) ynghyd â geirfa



dechnegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud synnwyr o'r cynnwys mewn modd ystyrlon (Met, 2008: 53). Gan ddyfynnu gwaith Harmon *et.al.* (2005), daw Met i'r casgliad bod ymdopi â geirfa academaidd a thechnegol yn ei gwneud yn anodd i ddisgyblion fedru deall yr hyn y maent yn ei ddarllen mewn gwyddoniaeth; ychwanega hefyd fod arddull amhersonol deunydd darllen gwyddonol yn gosod pellter rhwng y disgybl a'r testun (Fathman *et.al.*, 1992). Crynhoir y drafodaeth bwysig hon gan Lindholm-Leary a Howard (2008: 196) fel hyn:

There is little research into how to make instruction more accessible and meaningful to students, particularly in areas considered challenging by all students – that is, science and math. Extant research provides some starting points, but a research program that includes ELLs (English Language Learners) with different language backgrounds, ages and previous educational experiences prior to immigrating should be considered in future research. Another significant factor to consider in examining learners is the cognitive challenge they may experience when learning academic content area through a second language.

Mae'n hynod arwyddocaol bod nifer o raglenni addysg ddwyieithog ar draws y byd yn tueddu i addysgu pynciau mathemategol, gwyddonol, a thechnolegol eu natur trwy gyfrwng yr iaith fwyafrifol (García, 2009a: 147). Ac yng nghyd-destun Cymru, mae'n ddiddorol ein bod wedi tueddu i addysgu'r pynciau hyn trwy gyfrwng y Saesneg yn ein hysgolion byth er dyddiau sefydlu Ysgol Rhydfelen, pan ddywedodd Gwilym Humphreys am bolisi iaith cychwynnol yr ysgol: 'Dysgid popeth ond mathemateg a gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg; dyma yn fras a osodwyd yn bolisi gan yr Awdurdod Addysg pan sefydlwyd yr ysgol' (Williams, 2002: 90).

Tynna Baker (2006) sylw at y peryglon a all godi yn sgil hyn wrth i'r iaith fwyafrifol gael ei chysylltu â datblygiadau cyfoes gwyddonol a thechnolegol, tra bod yr iaith leiafrifol yn gyfystyr â'r traddodiadol a diwylliant y gorffennol. Dadleua Baker y gallai hyn gael effaith niweidiol ar statws yr iaith yng ngolwg y disgyblion, y rhieni a'r gymdeithas yn ehangach ac y dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'r cyswllt rhwng iaith pynciau a chyfleoedd am swyddi, manteision economaidd, a statws a grym.

Yng nghyd-destun y ffaith fod cynifer o blant o fewn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ymwneud â chysyniadau pynciol heriol trwy gyfrwng eu hail iaith ar draws y cwricwlwm cyfan, y mae hwn yn faes aeddfed ar gyfer ymchwil pellach er mwyn lledaenu arferion da sy'n sicrhau dysgu pynciol effeithiol trwy dulliau trochi.

Dros y blynyddoedd, mae'r gwerthusiadau rhyngwladol o wahanol raglenni addysg ddwyieithog i gyd yn ffafrio'r dulliau 'cryf'. Tynnir sylw at y ffaith fod y dulliau hyn nid yn unig yn arwain at ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant ond eu bod hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyflawniad academaidd ar draws y cwricwlwm drwy addysgu cynnwys pynciol gan ddefnyddio strategaethau sy'n manteisio ar ddwyieithrwydd y disgyblion. Dadleuir bod trafod agweddau ar y cwricwlwm mewn dwy iaith wahanol yn galluogi disgyblion i ystyried cysyniadau o safbwyntiau diwylliannol gwahanol ac y gall y broses

hon gynorthwyo i atgyfnerthu'r dysgu (Baker, 2006; Cummins, 2000; Tse, 2001; Estyn, 2002; Kenner, Gregory, Ruby ac Al-Azami, 2008).

Fodd bynnag, mae Baker (2006) yn cydnabod y cymhlethdod sydd yn ymhlyg wrth geisio pwyso a mesur effaith addysg sy'n defnyddio dwy iaith ar ddeilliannau dysgu a chyflawniad plant:

We cannot expect a simple answer to the question of whether or not bilingual education is more (or less) effective than mainstream education . . . (the question) needs to look at the conditions under which different forms of bilingual education become more or less successful. This means departing from simple studies and simple results to broad investigations that include a variety of conditions and situations . . . the effectiveness of bilingual education needs to consider children, teachers, the community, the school itself and the type of program.

## **A yw'r modelau addysg ddwyieithog 'traddodiadol' yn annigonol erbyn hyn?**

Hyd yma, mae arbenigwyr rhyngwladol ar addysg ddwyieithog wedi canolbwyntio ar drafod y modelau 'traddodiadol' (García, 2009a:385) ond mae Baker (2008) erbyn hyn yn awgrymu bod categorieiddio yn y fath fodd yn tueddu i fod yn hen-ffasiwn heddiw ac yn ddull rhy syml o fynd o dan groen cymhlethdod addysg ddwyieithog wrth iddi ddatblygu yn yr unfed ganrif ar hugain yn Ewrop – yn arbennig yng nghyd-destun canfyddiadau'r ymchwil mwyaf cyfredol. Meddai:

We seem to be witnessing a change from effective models to effective practices . . . The future for European bilingual education is perhaps moving away from the simplicity of typologies of bilingual education to engaging with optimal classroom dual language practices to maximise growth and gains for individual children. (Baker, 2008: 106)

Ategir hyn gan García (2009a) sy'n dod i'r casgliad bod angen ymestyn y deipoleg 'draddodiadol' gan nad yw bellach yn cwmpasu'r cymhlethdod ieithyddol sy'n nodweddu'r arferion a welir mewn addysg ddwyieithog (ac amlieithog) ledled y byd yn yr unfed ganrif ar hugain. Fe'n rhybuddir i gymryd gofal wrth ystyried y gwahanol fodolau traddodiadol sydd wedi gwasanaethu'r maes dros yr hanner can mlynedd diwethaf, gan y gallant erbyn heddiw fod yn 'artificial constructs that are divorced from the day-to-day reality of school language use' (García, 2009a:114). Ymhellach, nodir ganddi – yn wyneb rhwydweithiau cyfathrebu amlieithog ac amlgyfryngol cymhleth yr unfed ganrif ar hugain – nad 'system gaeth' yn sefyll yn ei hunfan ac yn cael ei rheoli gan y modelau a'r fframweithiau theoretig traddodiadol, cydnabyddedig mo addysg ddwyieithog gyfoes erbyn heddiw (García, 2009a: 385).

Yn y cyd-destun hwn, felly, y mae García yn awgrymu y dylid mynd ati i ymestyn y modelau traddodiadol hyn: yn ei barn hi, 'the traditional bilingual education types simply do not suffice in the twenty-first century' (García, 2009a: 385). Mae hi'n cynnig y dylid ychwanegu dwy fframwaith theoretig ddwyieithog at y rhai cydnabyddedig – un a eilw

yn 'fodel dychweliadol' (recursive) ac un yn 'fodel deinamig' – er mwyn cydnabod cymhlethdod addysg ddwyieithog gyfoes (García, 2009a: 385).

Dym sut y diffinia ddwyieithrwydd 'dychweliadol' a 'deinamig':

#### Recursive

In cases when bilingualism is developed after the language practices of a community have been suppressed, the development of the community's mother tongue is not a simple addition that starts from a monolingual point ... therefore, bilingualism is not simply additive, but recursive ... because it reaches back to the bits and pieces of an ancestral language as it is reconstituted for new functions and as it gains momentum to thrust itself forward towards the future (García, 2009a: 52-3).

#### Dynamic

The model of recursive bilingualism is also insufficient to reflect the complex bilingual competence needed in some societies in the twenty-first century . . . Bilingualism is not simply linear but *dynamic*, drawing from the different contexts in which it develops and functions . . . In the linguistic complexity of the twenty-first century, bilingualism involves a much more dynamic cycle where language practices are multiple and ever adjusting to the multilingual multimodal terrain of the communicative act (García, 2009a: 53).

A dynamic theoretical framework of bilingualism allows the simultaneous co-existence of different languages in communication, accepts translanguaging, and supports the development of multiple linguistic identities . . . This theoretical framework supports the integrated education of children at different points of the bilingual continuum . . . It supports the education of children to use languages for functional interrelationships, and not simply for separate functional allocations (García, 2009a: 118).

Mae sylwadau o'r fath yn ein harwain at ystyriaethau sy'n golygu dod ag ieithoedd at ei gilydd yn y dosbarth mewn ffordd lawer mwy rhyngweithiol nag yn y gorffennol, gan ein gorfodi i gwestiynu'r arfer traddodiadol o wahanu'r ddwy iaith mewn addysgu a dysgu.

### **Gwarchod ynteu chwalu'r ffiniau ieithyddol traddodiadol?**

Mae'r egwyddor o osod 'ffiniau' o gwmpas y gwahanol ieithoedd ar lawr y dosbarth wedi bod yn un amlwg yn natblygiad dulliau addysgu dwyieithog dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Tynna Baker (2006: 305) sylw at y ffaith fod arbenigwyr ar addysg drochi yn y gorffennol wedi tueddu i ffafrio gwahanu'r ieithoedd fel cyfryngau addysgu a dysgu o fewn gwersi unigol yn hytrach na'u cymysgu'n fympwyol. Cyfeiria García hithau (2009a: 309) at yr arfer hwn fel 'the explicit carving out of a space for both languages so that each would function with the privilege of a majority language . . . thus, all schools using this bilingual teaching have a clear and explicit language policy of teaching monolingually for bilingualism'. Dyma sydd wedi nodweddu sefyllfaoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

yng Nghymru. lle mae'r Gymraeg (fel iaith leiafrifol yn bodoli ochr yn ochr ag iaith fwyafrifol fel y Saesneg) wedi cael ei gwarchod â ffiniau pendant yn y cwricwlwm. Wedi dweud hynny, yn ymarferol mewn rhai dosbarthiadau addysg drochi o ddydd i ddydd, fe geir o hyd rai agweddau 'dwylleithog' sy'n adlewyrchu tipyn mwy o hyblygrwydd nag a ddisgrifir yn y llenyddiaeth (García, 2009a; 2009b). Dyma sy'n cyfrannu at y 'cymhlethdod' sy'n rhan mor annatod o addysg ddwyieithog heddiw:

Bilingual education takes on many different forms, and increasingly, in the complexity of the modern world, includes forms where two or more languages are separated for instruction, but also forms where two or more languages are used together in complex combinations ...

Even after languages have been allocated, educators must make decisions about how languages will be used or arranged in the curriculum – either by strictly separating them or by using them flexibly. (García, 2009a: 290–91)

Yn y pen draw, onid athrawon ar lawr dosbarth yw'r bobl allweddol sy'n gorfod gwneud y penderfyniadau pwysicaf mewn perthynas â'r defnydd o ddwy iaith o ddydd i ddydd a thrwy hynny droi polisi (neu hyd yn oed 'Strategaeth') yn weithredu ymarferol? Mae'r modd y mae athrawon unigol, yn eu dobarthiadau eu hunain – o fewn yr un ysgol yn aml – yn dehongli ac yn gweithredu'r un polisi mewn ffyrdd gwahanol a hyblyg yn dangos pa mor ddibynnol yw effeithiolrwydd unrhyw fodel ar weledigaeth yr unigolyn. Fel y dywed Menken a García (2010):

A diverse array of language education policies are put into practice in schools around the world . . . At each level of an educational system . . . language policies are interpreted, negotiated, and ultimately (re)constructed in the process of implementation . . . a language policy is as dynamic as the many individuals involved in its creation and implementation.

Educators are at the epicenter of this dynamic process, acting on their agency to change the various language education policies they must translate into practice . . . through what is termed the "unforgivable complexity of teaching" . . . It is ultimately educators – particularly classroom teachers – who are the final arbiters of language policy implementation.

To highlight the complexity of language education policy with a spotlight on the critical role of educators within the process of policy creation and implementation, Ricento & Hornberger (1996) offered a metaphor of language planning and policy as "a multilayered onion" ... with classroom practitioners at the heart of the onion. (Menken a García, 2010: 1, 3)

Yng nghyd-destun y cyfeiriad uchod gan García (2009a; 2009b) at rai agweddau 'dwylleithog' sydd i'w canfod mewn dosbarthiadau addysg drochi, y mae ymchwil diweddar i CLIL (Content and Language Integrated Learning) ac EMILE (*Enseignement d'une Matière Intégrée à une Langue Étrangère*) wedi dangos y gall fod yna fanteision gwybyddol i ddisgyblion os mabwysiedir agwedd fwy hyblyg tuag at y defnydd o'r ddwy iaith yn y dosbarth. Gan ddyfynnu Gajo (2007) a Serra (2007), mae García (2009a) yn tynnu

sylw at y ffaith fod ymchwil i CLIL/EMILE yn ardal Val d'Aoste yn yr Eidal yn y blynyddoedd diwethaf wedi dangos fel y gall y defnydd o ddwy iaith – o'i wneud yn ystyrion a phwrpasol – hyrwyddo sgiliau gwybyddol disgyblion wrth iddynt ymgodymu â chynnwys pynciol trwy gyfrwng eu hail iaith.

Term cyffredinol, a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf ganol y 1990au, yw CLIL, er mwyn plethu iaith a chynnwys mewn dosbarthiadau sy'n ceisio datblygu ail iaith disgyblion (Eurydice, 2006; Marsh, 2008). (Yng Ngogledd America, fe'i gelwir yn 'Content Based Instruction'.) Erbyn heddiw mae CLIL wedi cynyddu yn ei boblogrwydd ledled Ewrop (Coyle, 2007, 2008) a neilltuwyd rhifyn arbennig o'r *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* yn 2007 (cyfrol 10, rhif 5), i roi sylw i'r ymchwil sydd wedi'i gynnal i CLIL ar draws y byd (Coyle a Baetens Beardsmore, 2007).

## **Addysg Ddwieithog ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain: 'gwahanu' ynteu 'cyfuno' ieithoedd?**

Fel a nodwyd eisoes, er bod ffurfiau 'cryf' ar addysg ddwyieithog fel arfer yn gwahanu ieithoedd ar gyfer addysgu a dysgu ar lawr dosbarth, y gwir amdani yw bod yna gryn hyblygrwydd yn y defnydd a wneir o 'iaith' o fewn dosbarthiadau dwyieithog, fel a bwysleisir gan García uchod (2009a: 295). Yn draddodiadol yn llenyddiaeth addysg ddwyieithog, tueddwyd i edrych ar 'gyfnewid cod' (*code-switching*) o fewn dosbarthiadau dwyieithog fel arfer drwg i'w anghymeradwyo (Camilleri, 1996; García, 1993; González a Maez, 1980; Milk, 1981; Potowski, 2007). Fodd bynnag, yng ngoleuni ymchwil diweddar, mae García (2009a) yn dadlau nad yw trefniadaeth ddwyieithog hyblyg mewn dosbarthiadau yn ddrwg i gyd. Er mwyn i addysg ddwyieithog ateb anghenion plant yn yr unfed ganrif ar hugain, dadleuir ganddi bod y gallu i gyfieithu, cyfnewid cod, a phrosesu gwybodaeth yn ddwyieithog yn dod yn gynyddol bwysig: dywedir bod angen symud y pwyslais oddi ar **wahanu ieithoedd** (fel yn y gorffennol) tuag at **arferion amlieithog sy'n manteisio ar ddwyieithrwydd disgyblion**. Yn y cyd-destun hwn, felly, y mae García yn dadlau dros ychwanegu'r fframweithiau theoretig 'dychweliadol' a 'deinamig' y cyfeiriwyd atynt uchod at y rhai traddodiadol:

The recursivity and dynamism of bilingualism today . . . demands bilingual skills that are much more than just monolingual skills in two separate contexts. If we focus then not on separate languages as we have done in the past, but on the bilingual or multilingual discourse practices that we need and that are readily observable in bilingual classrooms, we can see that bilingual arrangements that build on translanguaging . . . is indeed the only way to build the plurilingual abilities that we will need in the future. (García, 2009a: 297)

Cyfeiria Cummins (2008a, 2008b) hefyd at faterion pwysig sy'n dod i'r amlwg yn ddiweddar ynghylch yr hen arferion o 'wahanu' ieithoedd mewn rhaglenni addysg drochi – materion yn ymwneud â threfniadaeth dosbarth a'r arferion addysgu gorau. Er bod rhaglenni trochi effeithiol wedi hen ennill eu plwyf, dechreuir gofyn cwestiynau erbyn hyn ynghylch materion megis manteision ac anfanteision gwahanu ieithoedd yn haearnaudd yn hytrach

na dod â hwy at ei gilydd i bwrpasau addysgol penodol. Awgrymir bod gosod ffiniau cadarn o amgylch yr ieithoedd yn hen-ffasiwn ac afrealistig erbyn heddiw:

These issues include the extent to which a “two solitudes” model where languages are rigidly separated is preferable to a more flexible orientation that teaches for cross-lingual transfer and where languages are brought into contact for particular purposes (e.g., creation of dual language books or projects for publication on the web). (Cummins, 2008a: 2)

Ategir hyn ymhellach gan Creese a Blackledge (2010) yng nghyd-destun astudiaeth o addysg ieithoedd lleiafrifol yn Lloegr (megis y Tsieinëeg a Gujarati):

We argue for a release from monolingual instructional approaches and advocate teaching bilingual children by means of bilingual instructional strategies, in which two or more languages are used alongside each other.

Ugain mlynedd yn ôl, awgrymodd Jacobson (1983, 1990) – dan y term ‘purposeful concurrent use’ – y gallai integreiddio’r ddwy iaith yn y dosbarth - yn hytrach na’u gwahanu – fod yn addysgol fanteisiol. Fodd bynnag, prin iawn yw unrhyw ymchwil sy’n gwerthuso i ba raddau y mae defnydd cyfocrog o ddwy iaith yn y dosbarth, fel a ddisgrifiwyd gan Jacobson (1990) a Williams (1997), yn cael effaith ar ddeilliannau dysgu y disgyblion.

Y mae García (2009a: 298) yn mynd rhagddi i ddisgrifio sut y gellir symud tuag at drafodaethau dwyieithog neu amlieithog mewn dosbarthiadau – yn arbennig felly wrth i ddisgyblion symud i fyny drwy’r ysgol. Rhestru’r trefniadau dwyieithog hyblyg a ganlyn ymhlith yr arferion amlieithog sydd i’w gweld heddiw:

- cyfnewid cod cyfrifol a bwriadus (fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd lle nad yw’r ddwy iaith yn gyfartal, pwysleisir ganddi y dylid parhau i warchod yr iaith lleiafrifol drwy roi sylw arbennig i’w datblygu – ystyriaeth bwysig i ni yng Nghymru yng nghyd-destun y Gymraeg);
- rhagolwg/cyflwyno/adolygu: lle mae’r iaith a ddefnyddir i gynnig rhagolwg o’r wers, yr iaith a ddefnyddir wrth gyflwyno’r wers, a’r iaith a ddefnyddir wrth adolygu’r wers yn amrywio – trefniant poblogaidd mewn addysg uwchradd ddwyieithog ledled y byd, fe ymddengys;
- trawsieithu: lle mae’r iaith a ddefnyddir o safbwynt y mewnbwn a’r allbwn yn cael eu hamrywio’n fwriadus a systemataidd.

Ar lefel ryngwladol, felly, mae’r ymchwil diweddaraf yn awgrymu mai rhywbeth yn perthyn i’r ugeinfed ganrif yw’r arfer o wahanu’r iaith gyntaf oddi wrth yr ail iaith mewn dosbarthiadau dwyieithog. Dadleuir y bydd yr unfed ganrif ar hugain yn gweld llawer mwy o ddefnyddio ieithoedd ochr yn ochr â’i gilydd yn y dosbarth, yn ysbryd yr arfer o ‘drawsieithu’.

## Trawsieithu

Term a fathwyd gan Cen Williams a'r diweddar Dafydd Whittall (mewn cynhadledd i ddirprwy bencathiaid ysgolion uwchradd yn Llandudno ar ddechrau'r 1980au) ar gyfer y defnydd bwriadus o ddwy iaith o fewn yr un wers yw 'trawsieithu'. Awgrymwyd y cyfieithiad Saesneg 'translinguifying' i gychwyn ond, yn ddiweddarach, cynigiwyd 'translanguaging' gan Colin Baker – a hwnnw sydd wedi wedi cydio erbyn heddiw (cyfeirir at hyn mewn neges e-bost gan Colin Baker at yr awdur, dyddiedig 1 Mawrth 2010).

Cen Williams oedd un o'r ymchwilwyr cyntaf i awgrymu bod yna strategaethau addysgu sy'n datblygu'r ddwy iaith yn llwyddiannus gan gyfrannu hefyd at ddysgu pynciol effeithiol. Ers y 1980au a'r 1990au, mae'r cysyniad o drawsieithu wedi ennill tir, gan gydio yn nychymyg yr addysgwyr hynny sy'n credu bod athrawon a phlant yn defnyddio eu dwyieithrwydd yn naturiol er mwyn gwella'r dysgu a'r deall. Yma yng Nghymru, mae trawsieithu wedi parhau i fod yn gysyniad pwysig a datblygol mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Erbyn heddiw, mae wedi'i fabwysiadu (a'i ymestyn) fel un o'r cysyniadau allweddol cyfoes mewn dosbarthiadau a chymunedau dwyieithog ledled y byd: 'As per García (2009), translanguaging refers to the responsible use of hybrid language practices to educate and to enable effective communication in the classroom' (Menken a García, 2010: 259 n. 2).

Y mae tystiolaeth ymchwil diweddar a chyfredol i addysg Gymraeg a dwyieithog yn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru gan Ganolfan ESRC Bangor (Jones, 2010; [www.bilingualism.bangor.ac.uk](http://www.bilingualism.bangor.ac.uk)) yn dangos fel y mae trawsieithu yn rhywbeth a ddefnyddir yn gynyddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (fel a ddiffiniwyd gan Baker, 2000: 104–5):

the hearing or reading of a lesson, a passage in a book or a section of work in one language and the development of the work (i.e. by discussion, writing a passage, completing a worksheet, conducting an experiment) in the other language. Thus translanguaging is more specific than the umbrella term "concurrent use of two languages". (Jacobson, 1983,1990)

Tynnwyd sylw gan Cen Williams (1994, 1996) a chan Baker (2003a) at fanteision addysgol posibl trawsieithu lle nodwyd y gallai hyn arwain at gyrhaeddiad academaidd uchel oherwydd y modd y mae'r broses yn hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach a llawnach o'r cynnwys pynciol. Mewn cyd-destun uniaith, mae'n bosibl i ddisgyblion ateb cwestiwn neu lunio traethawd heb feistrolir cynnwys, gan y gallent gopïo ac addasu talpiau o frawddegau a pharagraffau heb lwyrr ddeall eu hystyr. Mewn sefyllfa ddwyieithog, nid yw mor hawdd gwneud hynny. Er mwyn darllen a thrafod testun mewn un iaith, ac yna ysgrifennu amdano yn yr iaith arall, mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei 'threulio' a'i haildrefnu. Pwysleisia Baker (2003) nad yw trawsieithu yn gyfystyr â chyfieithu neu gyfnwied cod; yn hytrach, mae'n un o nodweddion unrhyw berson gwirioneddol ddwyieithog ac yn fodd naturiol o ddatblygu ac atgyfnerthu dwy iaith ochr yn ochr â'i gilydd, gan gyfrannu ar yr un pryd at gadarnhau ac ymestyn dealltwriaeth academaidd yr unigolyn o'r pwnc dan sylw. Gweler hefyd Gruffudd (2009).

Y mae Lewis (2008b) a Jones (2010), wrth adrodd ar rai canfyddiadau cynnar y prosiect ymchwil cyfredol i addysg ddwyieithog yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd, yn cyfeirio at ddau fodel o drawsieithu sy'n eu hamlygu'u hunain: un sydd **o dan reolaeth yr athro/awes** (y gellir ei alw yn drawsieithu pwrpasol, strwythuredig wedi'i gynllunio'n fwriadus gan yr athro/awes) ac un sydd **o dan reolaeth y disgybl** (sy'n fwy mympwyol a heb ei strwythuro a'i gynllunio'n fwriadus gan yr athro/awes). Gyda'r ddau fodel, pwysleisir y dylai dwy iaith y disgyblion fod wedi datblygu'n ddigonol i'w galluogi i fanteisio ar drawsieithu fel erfyn ar gyfer 'dysgu' mewn gwirionedd.

Yn rhyngwladol, gwneir y sylw gan García (2009a; 2009b) fod trawsieithu yn prysur ddod yn un o'r arferion dwyieithog amlycaf mewn dosbarthiadau addysg ddwyieithog yn yr unfed ganrif ar hugain, er gwaetha'r tueddiadau traddodiadol sydd wedi mynnu gwahanu ieithoedd:

Because of the increased recognition of the bilingual continuum that is present in schools and communities that are revitalizing their languages, or schools where more than one language group is present, linguistically integrated group work is prevalent in many bilingual classrooms. (García, 2009a: 304)

Ac mewn cyfrol arall ganddi (sydd i ymddangos yn fuan gan Teachers College Press, Efrog Newydd) fe â yn ei blaen i drafod trawsieithu ymhellach mewn modd sy'n ehangu ar yr ystyr a roddwyd i'r term yn wreiddiol gan Cen Williams (1994, 1996):

García (2009a), extending Williams (cited in Baker, 2001, 2003, 2006), calls the process by which students and teachers engage in complex discursive practices in order to "make sense" of, and communicate in, multilingual classrooms *translanguaging*. Translanguaging includes code-switching — the shift between two languages in context — but differs from it in significant ways, for it includes other bilingual practices that go beyond a simple switch of code, such as when bilingual students read in one language and then take notes, write, or discuss in another. In addition, the term helps to make the point that while it is true that, when seen from the outside, bilingual children tend to do their languaging through linguistic features that are socially categorized as belonging to one or another language, from the point of view of the bilingual speaker his or her discourse can just as reasonably be viewed as resulting from a single, coherent communicative system (Otheguy, 2009). This system is used by bilinguals to make sense of bilingual communities, bilingual families, and of classrooms with multilingual students. Translanguaging thus focuses on the complex languaging practices of bilinguals in actual communicative settings, and not on the use of language codes whose distinctness is monitored by the standardizing agencies of nation-states such as language academies, grammar books, and, of course, schools. (O gyfrol sydd i ymddangos gan García yn y dyfodol.)

Mae'n amlwg, felly, fod y term 'trawsieithu' yn dechrau magu ystyron ehangach nag a fwriadwyd yn wreiddiol gan Cen Williams ac y mae García yn amlinellu gwahanol



drefniadaethau sy'n eu hamlygu eu hunain mewn amrywiol gyd-destunau – megis 'co-languaging' (y gellid cyfeirio ato fel 'cydieithu' yn Gymraeg, o bosib), sef trefniant cwricwlaidd dwyieithog lle mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno i ddau grŵp ieithyddol gwahanol ar yr un pryd. Yng nghyd-destun arferion o'r fath yn y sectorau uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru, dyma'r hyn y cyfeiriodd Cen Williams ato fel 'addysgu a dysgu mewn **sefyllfa ddwyieithog**' o'i gymharu ag 'addysgu a dysgu **dwyieithog**' (ESCalate, 2002). Bellach, fe'i hadwaenir yn rhyngwladol fel *co-languaging* (cydieithu); dyma'r trefniant 'dwyieithog' y cyfeiria'r *Strategaeth* ato hefyd yn y dyfyniad a ganlyn: 'mewn colegau addysg bellach yn benodol gall darpariaeth ddwyieithog gyfeirio at sefyllfaoedd lle yr addysgir dosbarthiadau ar yr un pryd yn y ddwy iaith' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 2.14).

Ymddengys o'r llenyddiaeth ryngwladol ddiweddaraf, felly, fod arferion dosbarth sy'n manteisio ar ddwy iaith yn prysur ddod yn nodweddion amlwg o addysg ddwyieithog ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain mewn nifer o wledydd ar draws y byd, ac yn y cyd-destun hwn (fel a nodwyd uchod) mae'r ymchwil diweddaraf i'w gyhoeddi yn dechrau cwestiynu'r arfer traddodiadol o wahanu ieithoedd yn y cwricwlwm trwy osod ffiniau o'u cwmpas. Galwodd Anderson (2008) am ddulliau addysgu mwy hyblyg er mwyn ymateb i sefyllfaoedd nad ydynt yn gorwedd yn rhwydd o fewn y patrymau a'r modelau sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac mae Lin a Martin (2005) wedi dadlau dros ymchwil i ddulliau addysgu mwy amlieithog (Creese a Blackledge, 2010).

Fodd bynnag, fel y pwysleisiodd Romero a Parrino (1994), dylid cymryd oedran y plentyn i ystyriaeth yn y dadleuon hyn: mae angen neilltuo amser penodol ar gyfer yr iaith drochi yn y blynyddoedd cynnar cyn symud at drefniadaethau dwyieithog (megis trawsieithu) wrth i'r dysgwyr ddatblygu eu gafael ar y ddwy iaith yn uwch i fyny yn yr ysgol. Ac yng nghyd-destun iaith leiafrifol yn cyd-fyw ag iaith fwyafrifol fel cyfryngau addysgu a dysgu, nodwedd bwysig ar y sefyllfa yng Nghymru yw bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r modd y cynllunir ac y rheolir y symud o'r naill iaith i'r llall (trawsieithu) o fewn dosbarthiadau er mwyn gwarchod y Gymraeg yn yr ysgolion hynny lle mae mwyafrif y disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Pwysleisir pwynt cyffelyb gan Creese a Blackledge (2010):

Although we can acknowledge that across all linguistically diverse contexts moving between languages is natural, how to harness and build on this will depend on the sociopolitical and historical environment in which such practice is embedded and the local ecologies of schools and classrooms.

## Crynodeb o'r prif ystyriaethau

O adolygu'r llenyddiaeth ryngwladol helaeth ym maes addysg ddwyieithog ar gychwyn yr unfed ganrif ar hugain, felly, gellir crynhoi'r prif ystyriaethau perthnasol sy'n dod i'r amlwg fel a ganlyn:

- ffenomenon gymhleth, yn cwmpasu 'amrywiaeth caleidosgopig' o arferion a newidynnau sy'n effeithio ar ddeilliannau ieithyddol gwahanaol fodolau a rhaglenni, yw addysg ddwyieithog heddiw;
- mae gwahanol fodolau o addysg ddwyieithog – modelau 'gwan' a 'chryf', 'gostyngol' a 'chynyddol' – yn effeithio mewn ffyrdd gwahanol ar ddeilliannau dysgu a chyflawniad academaidd;
- dengys canfyddiadau ymchwil diweddar bod yna ddigon o dystiolaeth dros yr effaith cadarnhaol y mae dulliau 'cryf' o addysg ddwyieithog o safon yn eu cael i hyrwyddo cyrhaeddiad dwyieithog, dwylythrennog ac amlddiwylliannol disgyblion (dulliau megis 'addysg drochi' ac 'addysg iaith treftadaeth', sy'n nodweddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru);
- mae yna gytundeb cynyddol yn ddiweddar bod y modelau traddodiadol a ddadansoddwyd ac a drafodwyd mor helaeth dros y deugain mlynedd diwethaf yn annigonol yn yr unfed ganrif ar hugain: mae angen llunio modelau sy'n adlewyrchu'r llithrigrwydd ieithyddol sydd ar waith mewn dosbarthiadau o ganlyniad i'r trawsieithu sy'n nodweddiadol o ddosbarthiadau dwyieithog heddiw. Yn sicr, mae angen mwy o ymchwil i ddulliau addysgu amlieithog, yn arbennig yng nghyd-destun sefyllfaoedd lle mae iaith leiafrifol ac iaith fwyafrifol yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd yn y dosbarth, fel yn achos y Gymraeg a'r Saesneg;
- mae angen ymchwilio ymhellach i ddarganfod dulliau o wneud cynnwys gwersi yn fwy hygyrch ac ystyrion i ddysgwyr mewn rhaglenni trochi, yn arbennig mewn meysydd cwricwlaidd a ystyrir yn heriol pan fo'r cynnwys pynciol yn cael ei gyflwyno trwy'r ail iaith;
- mae gwirioneddol angen datblygu dulliau asesu dwyieithog effeithiol sy'n adlewyrchu arferion dosbarth o ddefnyddio dwy iaith (neu fwy) ar gyfer addysgu a dysgu – dulliau sy'n symud oddi wrth y syniad o asesu a phrofi uniaith ar gyfer plant dwyieithog fel pe baent yn ddau berson uniaith – er mwyn i blant dwyieithog gael y cyfle i ddefnyddio eu sgiliau trawsieithu ac arddangos eu gallu a'u cyrhaeddiad trwy gyfrwng dwy iaith.

Dyma'r themâu sy'n nodweddu'r 'cyd-destun amlieithog, rhyngwladol' cyfoes y dylid bod yn ymwybodol ohonynt wrth ddatblygu a gweithredu'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* yn y blynyddoedd i ddod.

## Clo

Un o negeseuon amlwg y llenyddiaeth ryngwladol gyfoes yw bod addysg ddwyieithog yn datblygu'n gyson ac yn ennill tir fel y ffordd fwyaf ystyrion o addysgu plant yn yr

unfed ganrif ar hugain. Rhaid i ninnau yng Nghymru sicrhau bod ein cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog yn parhau i ddatblygu ac esblygu ar seiliau athronyddol cadarn er mwyn cyfarfod â gofynion amrywiol plant Cymru heddiw. Rhaid i ni ymateb yn briodol i'r newidiadau rydym yn eu gweld ym mhroffil ieithyddol y plant sy'n manteisio ar y ddarpariaeth ddwyieithog trwy iaith leiafrifol yng Nghymru, gan bwysu a mesur pa fodelau sydd fwyaf addas ar gyfer hyrwyddo'r dysgu. Nid rhywbeth sy'n aros yn ei hunfan mo addysg ddwyieithog ar gychwyn yr unfed ganrif ar hugain a rhaid i ni fod yn barod i wynebu'r her y mae hynny yn ei osod i ni yng nghyd-destun addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog i'r dyfodol:

Bilingual education in the twenty-first century must be reimagined and expanded, as it takes its rightful place as a meaningful way to educate **all** children and language learners in the world today (García, 2009a:9).

## Llyfryddiaeth

Anderson, J. (2008), 'Towards integrated second language teaching pedagogy for foreign and community/heritage languages in multilingual Britain', yn *Language Learning Journal*, 36, 79-89.

Arnau, J. (1997), 'Immersion Education in Catalonia', yn J. Cummins a D. Corson (gol.), *Bilingual Education*, Cyfrol 5, *Encyclopedia of Language and Education* (Kluwer, Dordrecht).

Baker, C. (1993), 'Bilingual Education in Wales', yn Hugo Baetens Beardmore (gol.), *European Models of Bilingual Education*, (Clevedon: Multilingual Matters).

Baker, C. (2000), *The Care and Education of Young Bilinguals: An Introduction for Professionals*, (Clevedon: Multilingual Matters).

Baker, C. (2003a), 'Biliteracy and Transliteracy in Wales: Language Planning and the Welsh National Curriculum', yn N. H. Hornberger (gol.), *Continua of Biliteracy: An Ecological Framework for Educational Policy, Research and Practice in Multilingual Settings*, 71-90, (Clevedon: Multilingual Matters).

Baker, C. (2003b), 'Education as a Site of Language Contact', yn *Annual Review of Applied Linguistics*, 23, 95-112.

<http://journals.cambridge.org/action/displayFulltext?type=1&fid=147920&jid=APL&volumeId=23&issueId=-1&aid=147919>

Baker, C. (2006), *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*, pedwerydd argraffiad 2006; argraffiad cyntaf 1993; ail argraffiad 1996; trydydd argraffiad 2001, (Clevedon: Multilingual Matters).

Baker, C. (2008), Postlude, yn *Multilingualism and Minority Languages: Achievements and Challenges in Education*, *AILA Review 21*, Jasone Cenoz a Durk Gorter (gol.), (Amsterdam: John Benjamins Publishing Company).

- Baker, C. (2010), 'Increasing Bilingualism in Bilingual Education', yn D. Morris (gol.), *Welsh in the Twenty-First Century*, 61–79, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Brentnall, J. (2009), 'Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 a datblygu iaith ychwanegol', yn *Trafodion Addysg: Iaith yn y Gymru Amleithog*, H. Gareth F. Roberts a W. Gwyn Lewis (gol.), 25–46, (Bangor: Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes).
- Cameron, L., Moon, J., a Bygate, M. (1996), 'Language Development of Bilingual Pupils in the Mainstream: How do Pupils and Teachers Use Language?' yn *Language and Education*, 10(4), 221–36.
- Camilleri, A. (1996), 'Language Values and Identities: Code Switching in Secondary Classrooms in Malta', yn *Linguistics and Education*, 8(1), 85–103.
- Cenoz, J., a Gorter, D. (gol.) (2008), *Multilingualism and Minority Languages*, AILA Review 21, (Amsterdam: John Benjamins Publishing Company).
- Coyle, D. (2007), 'Content and Language Integrated Learning: Towards a connected research agenda for CLIL pedagogies', yn *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 10(5), 543–62.
- Coyle, D. (2008), 'CLIL: a pedagogical approach from the European perspective', yn N. Van Deusen-Scholl a N. H. Hornberger (gol.), *Encyclopedia of Language and Education, 2<sup>nd</sup> Edition, Volume 4: Second and Foreign Language Education*, (Efrog Newydd: Springer).
- Coyle, D., a Baetens Beardsmore, H. (gol.) (2007), 'Research on Content and Language Integrated Learning (CLIL)', Rhifyn arbennig o *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 10(5), 541–701.
- Creese, A., a Blackledge, A. (2010), 'Translanguaging in the Bilingual Classroom: A Pedagogy for Learning and Teaching?' yn *The Modern Language Journal*, 94 (1), 103–15.
- Cummins, J. (2000), *Language, Power and Pedagogy: Bilingual Children in the Crossfire*, (Clevedon: Multilingual Matters).
- Cummins, J. (2008a), Rhagair, yn *Multilingualism and Minority Languages: Achievements and Challenges in Education*, AILA Review 21, Jasone Cenoz a Durk Gorter (gol.), (Amsterdam: John Benjamins Publishing Company).
- Cummins, J. (2008b), 'Teaching for transfer: Challenging the two solitudes assumption in bilingual education', yn J. Cummins a N.H. Hornberger (gol.), *Encyclopedia of language and education*, Cyfrol 5, Bilingual education. Ail argraffiad, 65–75, (Boston: Springer Science+Business Media).
- Davison, C. (1990), 'When Nature Needs Some Help: The Natural Learning Approach and the Teaching of ESL in the Primary School', yn *Journal of ACTA*, 1(1), 16–18.

- De Courcy, M. (2002), *Learners' Experiences of Immersion Education: Case Studies of French and Chinese*, (Clevedon: Multilingual Matters).
- ESCalate (2002), *Addysgu dwyieithog mewn cyrsiau HAGA*, (Bangor: Prifysgol Cymru).
- Estyn (2002), *Datblygu llythrennedd deul: Papur Trafod Estyn*, (Caerdydd: Estyn).
- Estyn (2005), *Adroddiad ar Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf*, (Caerdydd: Estyn).
- Eurydice (2006), *Content and language integrated learning (CLIL) at school in Europe*, (Brussels: Eurydice).
- Fathman, A. K., Quinn, M. E., a Kessler, C. (1992), 'Teaching science to English learners, grades 4–8', *NCBE Program Information Guide Series*, Rhif 11 (<http://ncela.gwu.edu/pubs/pigs/pig11.htm>).
- Fortune, T. W., Tedick, D. J. a Walker, C. L. (2008), 'Integrated Language and Content Teaching: Insights from the Immersion Classroom', yn *Pathways to Multilingualism: Evolving Perspectives on Immersion Education*, T.W. Fortune and D. J. Tedick (gol.), 71–96, (Clevedon: Multilingual Matters).
- Gabriele, A., Troseth, E., Martohardjono, G. ac Otheguy, R. (2009), 'Emergent literacy skills in bilingual children: evidence for the role of L1 syntactic comprehension', yn *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 2009, 1–15.
- Gajo, L. (2007), 'Linguistic Knowledge and Subject Knowledge: How Does Bilingualism Contribute to Subject Development?' yn *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 10(5), 563–81.
- García, O. (1993), 'Understanding the Societal Role of the Teacher in Transitional Bilingual Education Classrooms: Lessons from Sociology of Language', yn K. Zondag (gol.), *Bilingual Education in Friesland: Facts and Prospects*, 25–37, (Leeuwarden: Gemeenschappelijk Centrum voor Onderwijsbegeleiding).
- García, O. (2009a), *Bilingual Education in the 21<sup>st</sup> Century: A Global Perspective*, (Chichester: Wiley-Blackwell).
- García, O. (2009b), 'Education, multilingualism and translanguaging in the 21st century', yn A. K. Mohanty, M. Panda, R. Phillipson, a T. Skutnabb-Kangas (gol.), *Multilingual education for social justice: globalising the local*, (New Delhi: Orient Blackswan).
- Genesee, F. (1983), 'Bilingual Education of Majority-Language Children: The Immersion Experiments in Review', yn *Applied Psycholinguistics*, 4, 1–46.
- Genesee, F. (1984), 'Historical and Theoretical Foundations of Immersion Education', yn California State Department of Education (gol.), *Studies on Immersion Education: A Collection for United States Educators*, (California: California State Department of Education).
- Genesee, F. (1987), *Learning Through Two Languages*, (Cambridge MA: Newbury House).

- Genesee, F., a Gándara, P. (1999), 'Bilingual Education Programs: A Cross National Perspective', yn *Journal of Social Issues*, 55(4), 665–85.
- González, G., a Maez, L. F. (1980), 'To Switch or Not to Switch: The Role of Code-Switching in the Elementary Bilingual Classroom', yn R. V. Padilla (gol.), *Theory in Bilingual Education: Ethnoperspectives in Bilingual Education Research*, cyfrol. ii, 125–35, (Ypsilanti, MI: US Department of Foreign Languages and Bilingual Studies, Bilingual Programs).
- Gruffudd, H. (2009), *Golwg ar drawsieithu*, (Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg).
- Harley, B., a Swain, M. (1984), 'The Interlanguage of Immersion Students and its Implications for Second Language Teaching', yn A. Davies, C. Criper, ac A. Howatt (gol.), *Interlanguage*, 291–311, (Caeredin: Edinburgh University Press).
- Harmon, J. M., Hedrick, W. B., a Wood, K. D. (2005), 'Research on vocabulary instruction in the content areas: Implications for struggling readers', yn *Reading & Writing Quarterly*, 21, 261–80.
- Hickey, T. (1997), *Early Immersion Education in Ireland: Na Naíonraí*, (Dulyn: Instituid Teangeolaíochta Eireann).
- Jacobson, R. (1983), 'Can two languages be acquired concurrently? Recent developments in bilingual methodology', yn H. B. Altman a M. McClure (gol.), *Dimensions: Language 1982*, 110–31, (Louisville: University of Louisville Press).
- Jacobson, R. (1990), 'Allocating two languages as a key feature of a bilingual methodology', yn R. Jacobson a C. Faltis (gol.), *Language Distribution Issues in Bilingual Schooling*, (Clevedon: Multilingual Matters).
- Johnstone, R. (2002), *Immersion in a Second or Additional Language at School: A Review of the International Research*, (Stirling: Scottish Centre for Information on Language Teaching) (<http://www.scilt.stir.ac.uk/pubs.htm#067>).
- Jones, B. (2010), 'Amrywiaeth caleidosgopig: addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw', yn *Gwerddon*, 5 ([www.gwerddon.org/5\\_amrywiaeth\\_caleidosgopig-90.aspx](http://www.gwerddon.org/5_amrywiaeth_caleidosgopig-90.aspx)).
- Jones, G. M. (1997), 'Immersion Programs in Brunei', yn J. Cummins a D. Corson (gol.), *Bilingual Education*, Cyfrol 5, Encyclopedia of Language and Education, (Dordrecht: Kluwer).
- Kenner, C., Gregory, E., Ruby, M., ac Aa-Azami, S. (2008), 'Bilingual Learning for Second and Third Generation Children', yn *Language, Culture and Curriculum*, 21 (2), 120–37.
- Lasagabaster, D. (2001), 'Bilingualism, Immersion Programmes and Language Learning in the Basque Country', yn *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 22(5), 401–25.
- Laurén, C. (1997), 'Swedish Immersion Programs in Finland', yn J. Cummins a D. Corson (gol.), *Bilingual Education*, Cyfrol 5, Encyclopedia of Language and Education, (Dordrecht: Kluwer).

- Lewis, W. G. (2004), 'Addysg Gynradd Gymraeg: Trochi ac Ymestyn Disgyblion', yn *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 12(2), 49–64.
- Lewis, W. G. (2006), 'Addysg Gynradd Gymraeg: Her a Chyfle yr Unfed Ganrif ar Hugain', yn *Trafodion Addysg: Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog*, H. Gareth Ff. Roberts a W. Gwyn Lewis (gol.), 21–35, (Bangor: Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes) ([www.bangor.ac.uk/addysg/publications/AddysgCCD.pdf](http://www.bangor.ac.uk/addysg/publications/AddysgCCD.pdf))
- Lewis, W. G. (2008a), 'Addysg drochi yng Nghymru: Methodolegau a sialensau', yn *Creu Cymru Ddwieithog – Rôl y Gymraeg mewn Addysg*, (Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig).
- Lewis, W. G. (2008b), 'Current Challenges in Bilingual Education in Wales', yn *Multilingualism and Minority Languages: Achievements and Challenges yn Education*, *AILA Review* 21, Jasone Cenoz a Durk Gorter (gol.), 69–86, (Amsterdam: John Benjamins Publication Company).
- Lin, A. M. Y., a Martin, P. (2005), (gol.), *Decolonisation, globalisation: Language-in-education policy and practice*, (Clevedon: Multilingual Matters).
- Lindholm–Leary, K., a Howard, E. R. (2008), 'Language Development and Academic Achievement in Two-Way Immersion Programs', yn T. W. Fortune a D. J. Tedick (gol.), *Pathways to Multilingualism: Evolving Perspectives on Immersion Education*, 177–200, (Clevedon: Multilingual Matters).
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007), *Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*, (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: dogfen ymgynghorol* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru) ([www.wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/090507wmscy.pdf](http://www.wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/090507wmscy.pdf))
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru) ([www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf](http://www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf)).
- Mackey, W. F. (1970), 'A Typology of Bilingual Education', yn *Foreign Language Annals*, 3, 596–608.
- Marsh, D. (2008), 'Language awareness and CLIL', yn J. Cenoz a N. H. Hornberger (gol.), *Encyclopedia of Language and Education*, Ail argraffiad, Cyfrol 6: Knowledge about Language, (Efrog Newydd: Springer).
- Menken, K. a García, O. (2010), (gol.), *Negotiating Language Policies in Schools: Educators as Policymakers*, (Efrog Newydd: Routledge).
- Met, M. (2008), 'Paying Attention to Language: Literacy, Language and Academic Achievement', yn T. W. Fortune a D. J. Tedick (gol.), *Pathways to Multilingualism: Evolving Perspectives on Immersion Education*, 49–70, (Clevedon: Multilingual Matters).

Milk, R. (1981), 'An Analysis of the Functional Allocation of Spanish and English in a Bilingual Classroom', yn *CABE Research Journal*, 2(2), 11–26.

Nassaji, H. (2000), 'Towards Integrating Form-focussed Instruction and Communicative Interaction in the Second Language Classroom: Some Pedagogical Possibilities', yn *The Modern Language Journal*, 84, 241–50, (Rhydychen: Blackwell Publishing).

Ofsted (1999), *Raising the Attainment of Minority Ethnic Pupils: Schools and LEA Responses*, (Llundain: Ofsted).

Potowski, K. (2007), *Language and Identity in Dual Immersion School*, (Clevedon: Multilingual Matters).

Redknap, C. (2006), 'Addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog: camau tuag at strategaeth hollistaidd', yn *Trafodion Addysg: Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog*, H. Gareth Ff. Roberts a W. Gwyn Lewis (gol.), 21–35, (Bangor: Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes) [www.bangor.ac.uk/addysg/publications/AddysgCCD.pdf](http://www.bangor.ac.uk/addysg/publications/AddysgCCD.pdf)

Romero, M., a Parrino, A. (1994), 'Planned Alternation of Languages (PAL): Language use and distribution in bilingual classrooms', yn *Journal of Educational Issues of Language Minority Students*, 13, 137–61.

Serra, C. (2007), 'Assessing CLIL at Primary School: A Longitudinal Study', yn *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 10(5), 582–602.

Swain, M. (1997), 'French Immersion Programs in Canada', yn J. Cummins a D. Corson (gol.), *Bilingual Education*, Cyfrol 5, Encyclopedia of Language and Education, (Dordrecht: Kluwer).

Swain, M., a Johnson, R. K. (1997), 'Immersion Education: A Category within Bilingual Education', yn R. K. Johnson a M. Swain, *Immersion Education: International Perspectives*, (Caer-grawnt: Cambridge University Press).

Swain, M. a Lapkin, S. (1982), *Evaluating Bilingual Education: A Canadian Case Study*, (Clevedon: Multilingual Matters).

Tse, L. (2001), 'Why Don't They Learn English?' *Separating Fact From Fallacy in the US Language Debate*, (Efrog Newydd: Teachers College Press).

Williams, C. (1994), 'Arfarniad o Dulliau Dysgu ac Addysgu yng Nghyd-destun Addysg Uwchradd Ddwieithog', Traethawd PhD., Prifysgol Cymru, Bangor.

Williams, C. (1996), 'Addysg Uwchradd: Addysgu yn y Sefyllfa Ddwieithog', yn C. Williams, G. Lewis, a C. Baker (gol.), *Pwyso a Mesur y Polisi Iaith*, (Llangefni: CAI).

Williams, C. (1997), *Dulliau Addysgu yn y Sefyllfa Ddwieithog mewn Addysg Bellach*, (Bangor: Canolfan Bedwyr).

Williams, I. W. (2002), (gol.), *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939–2000*, (Tal-y-bont: Y Lolfa).



# Cyfranwyr

---

## Phylip Brake

Mae Phyl Brake yn gweithio fel darlithydd yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru lle mae'n arwain rhaglen ymchwil. Dros y blynyddoedd mae wedi ysgrifennu llawer o werslyfrau dysgu Cymraeg ar bob lefel – o gyrsiau i ddechreuwr pur hyd at gyrsiau gloywi iaith i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond leithyddiaeth, yn enwedig leithyddiaeth Gymdeithasegol, neu Sosioieithyddiaeth, yw ei brif ddiddordeb. Ymhlith ei brojectau ymchwil presennol y mae astudiaeth sosioieithyddol o'r gwallau iaith llafar a wneir gan ddysgwyr y Gymraeg, y gydberthynas rhwng cyrhaeddiad dysgwyr a'r defnydd o'r Gymraeg a wneir ganddynt tu allan i'r dosbarth, a thueddiadau ieithyddol siaradwyr Cymraeg gorllewin Cymru.

## Anwen Elias

Mae Anwen Elias yn ddarlithydd yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth. Mae ei gwaith ymchwil wedi canolbwyntio ar bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol a'u hagweddu tuag at Ewrop, a dyma yw pwnc ei chyfrol *Minority Nationalist Parties and European Integration: A Comparative Study* (Routledge, 2009). Mae Anwen hefyd wedi ymchwilio i brosesau datganioli a chystadleuaeth bleidiol ranbarthol yng ngorllewin Ewrop.

Arianwyd y gwaith ymchwil ar gyfer yr erthygl yma gan Ysgoloriaeth Saunders Lewis, a ddyfarnwyd gan Cronfa Goffa Saunders Lewis.

## W. Gwyn Lewis

Brodor o Gaernarfon yw W. Gwyn Lewis a mynychodd Ysgol Syr Hugh Owen yn y dref cyn graddio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor a mynd ymlaen i ennill doethuriaeth yno ar lenyddiaeth yr Oesoedd Canol. Bu'n Bennaeth Adran Gymraeg Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, ac yn Ymgynghorydd Addysg Gymraeg i Awdurdod Addysg Gwynedd cyn ymuno â staff y Coleg Normal - wedyn, Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Bangor - lle mae bellach yn Uwch-Ddarlithydd mewn Addysg. Dan nawdd y Ganolfan ESRC dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor, ymhlith ei ddiddordebau ymchwil mae addysg Gymraeg a dwyieithog, dwyieithrwydd, a datblygiad ieithyddol plant lle mae dwy iaith yn cael eu defnyddio yn y dosbarth i drosglwyddo cynnwys.

Rhif 7 Ionawr 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261



9 1741-4261 07